


# Addas i'r Diben

## Adroddiad Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mawrth 2011

## Y Bwrdd Taliadau

**Y Gwir Anrhydeddus George Reid** (Cadeirydd)
**Sandy Blair**
**Mary Carter**
**Stuart Castledine**
**Yr Athro Monojit Chatterji**

Mae bywgraffiadau aelodau'r Bwrdd ar gael yn Atodiad A.

## Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

**Marc Wyn Jones**, Clerc
**Helen Finlayson**, Dirprwy Glerc
**Catherine Domican**, Cymorth Tîm

Gyda chymorth ymchwil gan:

**Martin Jennings**, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
**Yr Athro Laura McAllister**, Prifysgol Lerpwl

Rhif ISBN: 978-0-9564014-1-0

Gellir gweld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: www.assemblywales.org

Gellir cael rhagor o gopïau o’r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, gan gynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Clerc y Bwrdd Taliadau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8505
Ffacs: 029 2089 8117
E-bost: Remuneration@wales.gov.uk

# Cynnwys

**Crynodeb Gweithredol** ........ 5
Penderfyniadau Allweddol

**Cyflwyniad** ........ 9

**Pennod 1: Y Bwrdd Taliadau** ........ 11
Swyddogaethau ac Amcanion; Amserlen; Cyd-destun Ariannol

**Pennod 2: Egwyddorion a Methodoleg** ........ 17
Adolygiad Addas i'r Diben; Tryloywder a Chyfranogiad; Blaenraglen Waith

**Pennod 3: Esblygiad y Cynulliad** ........ 23
Hanes Cryno Datganoli a'i Effaith ar y System Taliadau a Lwfansau

**Pennod 4: Diben y Cynulliad** ........ 31
Swyddogaeth y Cynulliad; Cymorth i Aelodau; Gosod yr Agenda; y Pedwerydd Cynulliad

**Pennod 5: Cyflogau a Phensiynau Aelodau'r Cynulliad** ........ 41
Golwg Gyffredinol; Methodoleg; Cyflog Sylfaen

**Pennod 6: Cyflogau Deiliaid Swyddi** ........ 49
Egwyddorion; Methodoleg

**Pennod 7: Cymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad** ........ 65
Egwyddorion; Llety Preswyl; Costau Swyddfa; Teithio; Aelodau sy'n Gadael y Swydd

**Pennod 8: Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad** ........ 75
Staff Cymorth yn y Cynulliad; Cefnogi'r Diben Strategol; Recriwtio

**Pennod 9: Cyflogau a Phensiynau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad** ........ 83
Egwyddorion; Methodoleg; Cyflog Sylfaen

**Pennod 10: Cymorth Strategol a ddarperir gan Gomisiwn y Cynulliad** ........ 91
Gwasanaeth Ymchwil; Mynediad i Wybodaeth; Datblygiad Proffesiynol Parhaus

**Pennod 11: Rhagamcan o'r Costau** ........ 95

**Atodiad A: Aelodaeth a Chylch Gwaith y Bwrdd Taliadau** ........ 99

**Atodiad B: Cyfarfodydd y Bwrdd** ........ 101

**Atodiad C: Ymgynghori** ........ 103

**Atodiad D: Dogfennau Cefndir** ........ 105

**Atodiad E: Sgrinio'r Effaith ar Gydraddoldeb** ........ 109

**Atodiad F: Argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol** ........ 115

# Crynodeb Gweithredol

1. Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad. Dyma adroddiad cyntaf y Bwrdd ac mae'n amlinellu ein penderfyniadau ar dâl a lwfansau ar gyfer Aelodau'r Pedwerydd Cynulliad, a etholir ym mis Mai 2011.

2. Rydym wedi cyhoeddi dogfen ar wahân *Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau* (Mawrth 2011), sy'n gosod rheolau'r cymorth ariannol y mae'n rhaid i'r Cynulliad a'i Aelodau eu dilyn. Mae'r system hon o gymorth ariannol yn dryloyw ac yn cynrychioli gwerth am arian. Mae'n briodol i gyd-destun Cymru ac yn ystyried amgylchiadau ariannol ehangach. Bydd yn cefnogi diben strategol y Cynulliad ac yn darparu adnoddau i Aelodau'r Cynulliad er mwyn eu galluogi i gyflawni eu swyddogaethau craidd: craffu polisïau a chyllid Llywodraeth Cymru; deddfu a chynrychioli eu hetholwyr.

## Cyflogau a Phensiynau Aelodau'r Cynulliad

### Cyflogau a Phensiynau Aelodau'r Cynulliad

3. £53,852 y flwyddyn fydd cyflog sylfaen Aelodau'r Cynulliad ar gyfer y pedair blynedd o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad, sef yr un lefel â mis Mawrth 2011.

4. Mae ystyried pensiynau Aelodau'r Cynulliad wedi cael ei ohirio tan nes ymlaen yn 2011, pan fydd asesiad actiwaraidd Cynllun Pensiwn yr Aelodau ac Adroddiad y Comisiwn Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus Annibynnol ar gael.

### Cyflogau Deiliaid Swyddi[1]

5. Bydd cyflogau deiliaid swyddi ar gyfer Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Weinidogion Cymru a Llywyddion yn cael eu pennu ar gyfer y pedair blynedd o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen ar y cyfraddau a oedd yn daladwy ym mis Mawrth 2011.

6. Bydd cyflog ychwanegol o £8,280 yn daladwy dros dro i gadeiryddion y pwyllgorau sydd â'r arwyddocâd strategol mwyaf. Oherwydd y bydd cyfrifoldebau a swyddogaethau'r swyddi hyn yn newid o bosibl yn sgil strwythur pwyllgorau diwygiedig yn y Pedwerydd Cynulliad, byddwn yn adolygu ein penderfyniad cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl hynny.

7. Bydd cyflogau ychwanegol sy'n daladwy i Gomisiynwyr y Cynulliad yn aros ar yr un lefel â chyflogau sy'n cael eu talu i gadeiryddion pwyllgorau, ac felly efallai bydd lefel y cyflog sy'n cael ei dalu yn newid o ganlyniad i'r adolygiad a amlinellir ym mharagraff 6.

[1] *Cyflogau ychwanegol sy'n daladwy i'r rheini sy'n dal swyddi penodol yn y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys*

8. Rydym yn cytuno y dylid talu cyflogau ychwanegol i arweinwyr gwrthbleidiau ac i chwipiaid. Fodd bynnag, nid ydym eto wedi cael digon o dystiolaeth ar gyfrifoldebau'r swyddi hynny nac ar sut y cânt eu rhannu rhwng dibenion y Cynulliad a dibenion plaid. Rydym hefyd yn ymwybodol y gall swyddogaethau'r deiliaid swyddi hyn newid ar ôl etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2011. Byddwn yn adolygu ein penderfyniad cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl hynny.

9. Cyn dod i Benderfyniad terfynol ynghylch cyflogau ychwanegol i gadeiryddion pwyllgorau, Comisiynwyr, arweinwyr plaid a chwipiaid, byddwn yn ymgynghori'n llawn ac yn dryloyw. Bydd y dyfarniadau terfynol yn cael eu hôl-ddyddio i'r dyddiad penodi.

## Cymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad

### Llety Preswyl

10. Mae nifer yr Aelodau'r Cynulliad sy'n gymwys i gael cymorth ariannol ar gyfer llety preswyl yng Nghaerdydd wedi disgyn o 51 i 25.

11. Dim ond costau rhent y bydd Aelodau sy'n gymwys i gael cymorth ar gyfer llety preswyl yn cael eu hawlio, a chânt eu capio ar £700 y mis. Fydd Aelodau ddim yn cael hawlio llog morgais ar gostau eiddo – er y bydd rhai trefniadau trosiannol yn berthnasol.

12. Bydd Aelodau sy'n gymwys i rentu llety ddim ond yn cael hawlio ad-daliad am filiau cyfleustodau, y dreth gyngor hyd at lefel sy'n daladwy ar eiddo band F, band eang, yswiriant a thrwydded teledu.

13. Bydd Aelodau nad ydynt yn gymwys i rentu llety yn gallu hawlio am hyd at 20 arhosiad dros nos yng Nghaerdydd, hyd at £95 y noson.

### Lwfans Costau Swyddfa

14. Bydd Aelodau'n cael hawlio hyd at £16,242 ar gyfer 2011-12 o lwfans costau swyddfa i ad-dalu pob gwariant rhesymol a geir wrth redeg swyddfa yn eu hetholaeth neu eu rhanbarth, gan gynnwys hysbysebu cymorthfeydd a chostau galwadau busnes. Ni fydd Aelodau'n cael trosglwyddo arian mwyach o'r lwfans costau swyddfa i'r lwfans gwariant staff nac fel arall.

15. Bydd Aelodau newydd eu hethol hefyd yn cael offer, celfi a chyflenwadau swyddfa hyd at derfyn o £5,000.

16. Bydd yn rhaid i Gomisiwn y Cynulliad gymeradwyo'r holl eitemau neu atebolrwydd mewn contract sy'n costio mwy na £750 i'r Cynulliad dros oes y contract yn gyntaf. Rhaid i bob eitem o offer sy'n costio dros £100 gael ei chofnodi ar restr eiddo, i'w dychwelyd i'r Comisiwn neu i'w phrynu am bris y cytunir arno pan fydd yr Aelod yn rhoi'r gorau i'w swydd etholedig fel Aelod Cynulliad.

17. Bydd Aelodau'n cael gwario hyd at £1,000 o'u lwfans costau swyddfa i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod eu swyddfeydd yn fwy hygyrch. Bydd Comisiwn y Cynulliad yn talu am gostau dros £1,000, ar ôl cael cymeradwyaeth ar gyfer y gwariant cyffredinol yn gyntaf.

### Teithio

18. Bydd Aelodau yn gymwys i gael ad-daliad am eu costau teithio pan fydd y siwrneiau a wneir yn angenrheidiol mewn perthynas â'u dyletswyddau fel Aelod. Rhaid i drefniadau fod yn seiliedig ar werth am arian, ar gynaliadwyedd, ac ar yr egwyddor o deithio drwy ddefnyddio'r dull mwyaf cost effeithiol.

### Aelodau'r Cynulliad yn Rhoi'r Gorau i'w Swydd

19. O'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen, dim ond Aelodau a fydd yn cael eu trechu mewn etholiad fydd â hawl i gael grant adsefydlu. Ar gyfer Aelodau newydd eu hethol yn etholiadau 2011, bydd y grant yn seiliedig ar hyd eu gwasanaeth yn unig. Ni fydd Aelodau sy'n sefyll i lawr, sy'n ymddeol neu nad ydynt yn ceisio cael eu hailethol yn gymwys, er bydd trefniadau trosiannol yn berthnasol i Aelodau sydd â gwasanaeth parhaus o'r Trydydd Cynulliad.

20. O'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen, bydd y lwfans dirwyn i ben y bydd Aelodau yn gymwys i'w gael yn cael ei ostwng i hyd at chwarter o'r lwfans costau swyddfa blynyddol.

## Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad

21. O'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen, bydd Aelodau'n gallu cyflogi hyd at dri aelod o staff cyfwerth ag amser llawn ar unrhyw gyfuniad fforddiadwy o fandiau cyflog, o fewn y lwfans costau staff cyffredinol, ar yr amod bod amser o leiaf un aelod o staff cyfwerth ag amser llawn wedi'i ymroi i'w cefnogi gydag ymchwil ac yng ngwaith pwyllgorau ffurfiol a Chyfarfodydd Llawn y Cynulliad.

22. Bydd Aelodau'n cael gwario hyd at £89,000 ar gyflogau sylfaen cyfun hyd at dri aelod staff cyfwerth ag amser llawn. Bydd modd defnyddio rhan o hynny, yn amodol ar rai terfynau, i dalu am gostau teithio a goramser staff, neu i gyflogi arbenigedd allanol ar gyfer darnau o waith sydd wedi cael eu diffinio'n glir ac y mae iddynt gyfnod pendant. Bydd hyn yn cynyddu'r hyblygrwydd sydd ar gael i Aelodau wrth iddynt strwythuro eu swyddfeydd. Caiff Aelodau hefyd gronni staff neu drosglwyddo rhan o'u lwfansau staff i swyddfeydd grŵp.

23. Mae'r cyfyngiad ei bod yn rhaid i grwpiau gyflogi niferoedd penodol o staff mewn bandiau cyflog penodol wedi cael ei ddileu.

24. O ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen, rhaid hysbysebu pob swydd wag yn allanol ar wefan y Cynulliad. Bydd staff a fydd yn cael eu recriwtio o'r newydd yn cael eu penodi ar lefel isaf y raddfa dâl berthnasol oni bai, mewn amgylchiadau eithriadol, bod rhesymau cryf dros gyfiawnhau cyflog cychwynnol uwch.

25. Bydd dal modd cyflogi aelodau o deulu Aelodau ond ni fydd yr Aelod sy'n cyflogi yn chwarae cymaint o ran yn y broses recriwtio ar gyfer y penodiadau newydd. Tîm Adnoddau'r Gweithlu y Cynulliad fydd yn cynnal yr asesiadau a'r cyfweliadau terfynol. Os penodir aelod o'r teulu, rhaid iddi fod yn amlwg mai dyma'r ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd o ran sgiliau, gallu a phrofiad.

26. O ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen, cyflwynwyd contract safonol sydd â thelerau ac amodau cyffredin ar gyfer pob penodiad staff newydd. Caiff aelodau o'r staff cymorth sydd â

gwasanaeth parhaus ddewis symud i'r contract safonol newydd ond rhaid i'r Aelod sy'n eu cyflogi hefyd gytuno ar hynny.

## Cyflogau a Phensiynau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad

27. O ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen, ni fydd staff cymorth yn cael taliadau bonws mwyach. Mae'r arian a arferai gael ei ddefnyddio i dalu am fonysau wedi cael ei gyfuno i gyflogau staff cymorth.

28. Bydd graddfeydd tâl staff cymorth yn cael eu rhewi ar lefelau mis Mai 2011 tan o leiaf fis Ebrill 2013.

29. Bydd pensiynau staff cymorth yn cael eu hystyried ymhellach fel rhan o adolygiad o'r pecyn taliadau llawn ar gyfer y Pumed Cynulliad.

## Rhagamcan o Gostau'r Penderfyniad 2011-12

30. Bydd y rhagamcan o gost y penderfyniadau yr ydym wedi'u cymryd oddeutu £12.7 miliwn yn 2011-12, gostyngiad 7.1 y cant (mewn termau real[2]) o'i gymharu â'r gyllideb ar gyfer 2010-11. Mae hyn yn gadael arian dros ben o fewn y gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer 2011-12 o 2.3 y cant a 1.2 y cant wrth gymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2012-13.

## Gwaith i'r Dyfodol

31. Yn ogystal â'r adolygiadau penodol a ddisgrifir uchod ar gyflogau deiliaid swyddi, Cynllun Pensiwn yr Aelodau a chyflogau'r staff cymorth, byddwn yn monitro effaith ein penderfyniadau i sicrhau eu bod yn ategu ac yn cefnogi diben strategol y Pedwerydd Cynulliad.

32. Yn dilyn cyflwyno'r Mesur Seneddau am Dymor Penodol yn San Steffan, rydym yn ymwybodol (er mwyn osgoi cael etholiadau'r DU ac etholiadau'r gwledydd datganoledig ar yr un diwrnod) y gall y Pedwerydd Cynulliad gael ei ymestyn hyd at flwyddyn. Rydym am datgan yn glir fod ein Penderfyniad yn berthnasol i flynyddoedd 2011-15. Os digwydd i'r Cynulliad barhau'n hirach na phedair blynedd, efallai y byddwn yn ystyried hyn yn amgylchiad eithriadol ac, o'r herwydd, yn adolygu effaith ein Penderfyniad ar y cyfnod estynedig.

[2] *Defnyddir tybiaethau Trysorlys EM - 2011-12 2.5 y cant, 2012-13 2.2 y cant, a 2013-14 2.7 y cant fel ar 29 Tachwedd 2010 (cyrchwyd 9 Mawrth 2011).*

# Cyflwyniad

Mandad y Bwrdd Taliadau annibynnol yw penderfynu ar gyflogau a lwfansau Aelodau a'u staff o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen. Mae gofyn i ni sicrhau bod taliadau o'r fath yn deg, yn rhoi gwerth am arian ac yn ystyried cymaryddion yng Nghymru.

Mae'r Bwrdd wedi dilyn tair egwyddor gyffredinol ers ein cyfarfod cyntaf ar 1 Hydref 2010:

- **adolygiad addas i'r diben**
  Rydym wedi dilyn methodoleg gallu wrth archwilio a yw'r taliadau presennol yn addas i ddiben y Cynulliad a'i Aelodau;

- **Penderfyniad i Gymru**
  Rydym wedi cynnal dadansoddiad o enillion yng Nghymru, wedi adolygu lefelau cyfrifoldeb ac wedi gwneud ein Penderfyniad yn y cyd-destun hwnnw; a

- **proses iteraidd**
  Rydym wedi ymgynghori'n fisol ag Aelodau'r Cynulliad a'u pleidiau, ac wedi cyhoeddi'r casgliadau roeddem yn eu llunio er mwyn ennyn adborth.

Mae'r ffaith nad oedd gennym lawer o amser i baratoi ein Penderfyniad cyntaf wedi golygu nad ydym wedi cael digon o dystiolaeth i lunio barn derfynol ar daliadau ychwanegol i ddeiliaid rhai swyddi. Rydym felly wedi gwneud penderfyniadau dros dro yn y maes hwn a byddwn, cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl etholiad mis Mai 2011, yn gwneud Penderfyniad terfynol ar ôl i ni ymgynghori ymhellach ac archwilio graddfeydd y cyfrifoldeb sy’n gysylltiedig â’r Pedwerydd Cynulliad. Rydym hefyd wedi gohirio ystyried pensiynau nes bydd adroddiad y Comisiwn Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus Annibynnol ar gael, a byddwn yn dychwelyd at y mater hwn yn ystod hydref 2011.

Mae fy nghydweithwyr ar y Bwrdd a minnau yn ddiolchgar iawn i bawb a'n cynorthwyodd yn ystod ein gwaith, yn enwedig Aelodau'r Trydydd Cynulliad a'u staff, Comisiwn y Cynulliad ac Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn yr Aelodau. Edrychwn ymlaen at ddeialog barhaus gyda phob parti sydd â diddordeb wrth i ni barhau â'n gwaith yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.



**Y Gwir Anrhydeddus George Reid**
**Cadeirydd y Bwrdd Taliadau**

**Mawrth 2011**

# Y Bwrdd Taliadau

*Mae'r bennod hon yn dangos ein swyddogaethau a'n hamcanion ac yn ystyried y cyd-destun ariannol ehangach a oedd yn gefndir i'n Penderfyniad cyntaf.*

33. Yn 2008 sefydlodd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru Banel Adolygu Annibynnol i edrych ar bob agwedd ar y cymorth ariannol sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad.

34. Cafodd adroddiad y Panel, Yn Gywir i Gymru[3], ei gyflwyno i Gomisiwn y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2009. Y prif argymhellion oedd y dylid torri'r ddolen awtomatig rhwng tâl Aelodau'r Cynulliad a thâl Aelodau Seneddol ac y dylid sefydlu corff annibynnol statudol i bennu lefelau cyflog yn y dyfodol ac i fonitro ac i adolygu'r cymorth ariannol arall sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys lwfansau ar gyfer teithio, pensiynau, costau swyddfa a staff cymorth. Roedd yr adroddiad hefyd yn argymell y dylai Comisiwn y Cynulliad baratoi a chyflwyno Mesur Cynulliad cyn gynted ag sy'n ymarferol i sefydlu corff statudol o'r fath.

35. Cafodd Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 (“y Mesur”)[4] Gymeradwyaeth Frenhinol gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 22 Gorffennaf 2010. Cafodd y Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd eu penodi gan Gomisiwn y Cynulliad ar 22 Medi 2010 (gweler Atodiad A i weld cylch gwaith ac aelodaeth y Bwrdd) a chyfarfu am y tro cyntaf ar 1 Hydref 2010.

## Swyddogaethau ac Amcanion

36. Caiff swyddogaethau'r Bwrdd eu cynnwys yn adran 3 y Mesur ac maent yn ymwneud â gwneud Penderfyniad ynghylch cyflogau holl Aelodau'r Cynulliad a thaliadau atodol i'r rheini sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol. Ar ben hynny, mae disgwyl i'r Bwrdd benderfynu ar system lwfansau a phensiynau Aelodau'r Cynulliad.

37. Mae'r Mesur yn cynnwys y tri amcan y mae'n rhaid i'r Bwrdd geisio eu cyflawni wrth wneud ein Penderfyniad. Sef:

- darparu lefel o daliadau i Aelodau'r Cynulliad sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y mae disgwyl iddynt eu cyflawni, a lefel nad yw'n rhwystro unigolion sy'n meddu ar yr ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag sefyll mewn etholiad i fod yn Aelodau'r Cynulliad, am resymau ariannol;

- darparu digon o adnoddau i Aelodau'r Cynulliad er mwyn eu galluogi i arfer eu swyddogaethau fel Aelodau'r Cynulliad; a

[3] *Yn Gywir i Gymru, Gorffennaf 2009, http://www.cynulliadcymru.org/irp-reportjuly09-e.pdf*
[4] *Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/mwa2010/mwa_20100004_en_1*

− sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn ffordd sy'n sicrhau cywirdeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder.

38. Mae Adran 15 y Mesur yn rhoi dyletswydd ar y Bwrdd, y tro cyntaf y caiff Penderfyniad ei wneud, i roi sylw dyledus i argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol.[5]

39. Mae Adran 13 y Mesur yn darparu na fydd y Bwrdd yn gwneud dim mwy nag un Penderfyniad ynghylch cyflogau Aelodau'r Cynulliad ac un ynghylch cyflogau Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer pob tymor pedair blynedd y Cynulliad.  Fodd bynnag, caiff y Bwrdd wneud Penderfyniad arall cyn diwedd tymor Cynulliad os ydym yn fodlon bod amgylchiadau eithriadol sy'n golygu ei bod yn gyfiawn ac yn rhesymol gwneud hynny.

40. Mae Adran 14 y Mesur yn darparu pan fydd y Bwrdd yn gwneud Penderfyniad sy'n darparu ar gyfer cyflogi staff gan Aelodau'r Cynulliad, neu grwpiau o Aelodau'r Cynulliad, na chawn ddiwygio'r Penderfyniad hwnnw yn ystod y flwyddyn ariannol y daeth y Penderfyniad i rym yn gyntaf.  Ceir diystyru'r adran hon os ydym o'r farn bod amgylchiadau eithriadol sy'n golygu ei bod yn gyfiawn ac yn rhesymol gwneud hynny.

## Amserlen

41. Ar ôl derbyn pob un o 108 o argymhellion adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol ym mis Gorffennaf 2009, aeth Comisiwn y Cynulliad ati'n ddiymdroi i ddechrau eu gweithredu.  Roedd y cam cyntaf yn cynnwys argymhelliad 12:

> "Dylai Comisiwn y Cynulliad baratoi a chyflwyno Mesur Cynulliad cyn gynted ag sy'n ymarferol, i sefydlu Corff Adolygu Annibynnol a statudol i wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r materion a restrir isod.  Rôl y corff hwn yw: i) gwneud penderfyniadau ynghylch pob agwedd ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad; ii) ystyried cyfrifoldebau newidiol yng ngwaith Aelodau'r Cynulliad; iii) adolygu effeithiolrwydd ac effaith y broses uwchraddio; ymdrin ag unrhyw faterion 'ad-hoc'."

42. Cafodd y Mesur arfaethedig ei gyflwyno gan y Llywydd ar 9 Tachwedd 2009. Ar ôl proses o ymgynghori a chraffu, cafodd y Mesur ei basio gan y Cynulliad ar 26 Mai 2010.  Cafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 21 Gorffennaf 2010, a thrwy hynny sefydlwyd y Bwrdd ddeuddeg mis ar ôl i'r Panel Adolygu Annibynnol gyflwyno ei adroddiad.

43. Er mwyn i'r Bwrdd allu cynhyrchu ein Penderfyniad cyntaf cyn dechrau'r Pedwerydd Cynulliad, cynhaliodd y Comisiwn weithdrefn penodiadau cyhoeddus gadarn a thryloyw yn ystod haf 2010. Roedd y panel dethol yn cynnwys cyn gadeirydd y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion, Syr John Baker; aelod o'r Panel Adolygu Annibynnol, Jackie Nickson; ymgynghorydd annibynnol i'r Comisiwn, Richard Calvert; a Phrif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, Claire Clancy.

44. Cafodd y penodiadau i'r Bwrdd eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Gomisiwn y Cynulliad ar 21 Medi 2010.[6]  Cawsom ein cyfarfod cyntaf yn fuan wedyn, ar 1 Hydref 2010.

[5] *http://www.assemblywales.org/irp-reportjuly09-e.pdf*

45. Er i'r Comisiwn weithredu'n ddiymdroi ar ôl cyhoeddi adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol, yn anochel roedd y prosesau deddfwriaethol a'r prosesau penodi er mwyn sefydlu'r Bwrdd wedi cymryd amser. O ganlyniad roedd gennym lai na chwe mis i gynnal ein hadolygiad a gwneud ein Penderfyniad cyntaf.

46. Oherwydd bod amser yn brin, rydym wedi gohirio rhoi ystyriaeth bellach i rai meysydd o gymorth ariannol, gan gynnwys Penderfyniad terfynol ar y cyflogau ychwanegol sy'n daladwy i'r rheini sy'n dal rhai swyddi, tan ar ôl dechrau'r Pedwerydd Cynulliad. Rydym hefyd wedi gohirio rhoi ystyriaeth fanwl i Gynllun Pensiynau'r Aelodau tan hydref 2011. Byddwn yn cynnal adolygiad pellach o gyflogau staff cymorth cyn 2013. Mae canolbwyntio ein rhaglen waith fel hyn wedi ein galluogi i roi ystyriaeth fanylach i'r meysydd allweddol o gymorth ariannol i Aelodau, ac i dargedu ein Penderfyniad i gefnogi diben strategol y Cynulliad a'i Aelodau.

## Y Cyd-Destun Ariannol

47. Mae ein Penderfyniad cyntaf wedi cael ei wneud mewn amgylchiadau ariannol eithriadol. Mae cyllidebau ar draws y sector cyhoeddus yn wynebu cyfyngiadau sylweddol, a disgwylir mai'r pedair blynedd nesaf fydd yr anoddaf y mae'r Cynulliad wedi'u hwynebu yn ariannol ers ei greu – un o'r prif resymau dros hynny yw'r ansicrwydd economaidd parhaus, yn enwedig yng nghyswllt chwyddiant.

### Cyllideb Comisiwn y Cynulliad 2011-12 a 2012-13

48. Ar 8 Rhagfyr 2010, cytunodd y Cynulliad ar gyllideb i'r Comisiwn ar gyfer 2011-12.[7] Nod strategaeth cyllideb y Comisiwn ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad yw cyfateb y newidiadau canrannol ym mloc[8] Cymru dros yr un cyfnod. O'r herwydd, dros y pedair blynedd nesaf, rhagwelwyd, adeg cymeradwyo’r gyllideb, y byddai’r gyllideb sydd ar gael i dalu am gostau rhedeg y Cynulliad (heb gynnwys tâl a chymorth ariannol Aelodau) 12 y cant yn is.[9]

49. O ganlyniad i sefydlu'r Bwrdd, rhannodd Comisiwn y Cynulliad ei gyllideb gyffredinol ar gyfer 2011-12 yn ddau swm ar wahân wedi'u hawdurdodi ('cwmpasau'). Mae'r cwmpas cyntaf yn ymwneud â gwariant ar wasanaethau'r Cynulliad a chaiff ei reoli gan Gomisiwn y Cynulliad. Mae'r ail gwmpas yn ymwneud â chyflogau, lwfansau a chostau cysylltiedig Aelodau'r Cynulliad (“Cyllideb yr Aelodau”), a chaiff honno ei phennu gan y Bwrdd.

---

[6] *Penodi Aelodau Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-nafw/abt-commission/abt-commission-agendas.htm?act=dis&id=197317&ds=9/2010 a Chofnodion cyfarfod y Comisiwn ar 21 Medi 2010 http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-nafw/abt-commission/abt-commission-agendas.htm?act=dis&id=197306&ds=9/2010*

[7] *Cyllideb Comisiwn y Cynulliad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011-12, http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid/gen-ld8316-e.pdf?langoption=3&ttl=GEN-LD8316%20-%20Cynulliad%20Cenedlaethol%20Cymru%20Cynigion%20Cyllideb%20Comisiwn%20y%20Cynulliad%202011-12 Bloc Cymru yw cyfran cyfanswm y gyllideb y mae gan Weinidogion Cymru ddisgresiwn llwyr drosti o ran ei dyrannu ar draws adrannau a gwasanaethau yng Nghymru. Penderfynir ar grant bloc Cymru drwy lefel gwaelodlin gwariant, ac arian canlyniadol Barnett sy'n deillio o gynnydd yng ngwariant Llywodraeth y DU ar raglenni tebyg yn Lloegr*

[8] *Bloc Cymru yw cyfran cyfanswm y gyllideb y mae gan Weinidogion Cymru ddisgresiwn llwyr drosti o ran ei dyrannu ar draws adrannau a gwasanaethau yng Nghymru. Penderfynir ar grant bloc Cymru drwy lefel gwaelodlin gwariant, ac arian canlyniadol Barnett sy'n deillio o gynnydd yng ngwariant Llywodraeth y DU ar raglenni tebyg yn Lloegr*

[9] *Cyllideb Comisiwn y Cynulliad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011-12*

50. Mae cyllideb yr Aelodau ar gyfer 2011-12 5.0 y cant yn is mewn termau real[10] na'r gyllideb gyfatebol ar gyfer 2010-11. Os bydd cyllideb yr Aelodau'n adlewyrchu'r newid cyffredinol ym mloc Cymru yn y flwyddyn ar ôl hynny, byddai'n aros oddeutu £13 miliwn – sydd 2.1 y cant arall yn is na'r flwyddyn flaenorol. Nid yw costau unwaith ac am byth etholiad 2011 o fewn ein cylch gwaith, ond cânt eu cynnwys yng nghyllideb gyffredinol yr Aelodau at ddibenion cyfrifyddu.

**Ffigur 1: Cyllideb Ddangosol Aelodau'r Cynulliad (£000)[11]**

| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| Cyllideb yr Aelodau | 13,380 | 13,034 | 13,041 |
| Toriad canrannol mewn termau real (diweddarwyd)[12] | | 5.0% | 2.1% |
| Costau unwaith ac am byth etholiad | | 3,460 | - |

51. Nid oeddem o reidrwydd yn rhwym wrth y gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer 2011-12 a byddem, petaem o'r farn bod hynny'n briodol, wedi gallu gwneud Penderfyniad sy'n mynnu symiau sy'n uwch na'r gyllideb y cytunwyd arni. Gallai'r Cynulliad wedyn bod wedi gwneud yr addasiadau angenrheidiol drwy gyllideb atodol. Os byddwn yn penderfynu bod angen lefel wahanol o gyllid ar gyfer 2012-13, bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y gyllideb cyn i'r Cynulliad ei hystyried ddiwedd 2011.

### Amcanion Ariannol Strategol

52. Wrth ystyried ein hagwedd at oblygiadau ariannol ein Penderfyniad cyntaf, roeddem wedi penderfynu na ddylai ei gostau ariannol fod yn fwy na chyllideb yr Aelodau y cytunwyd arni ar gyfer 2011-12 ac y dylai bod modd ei gyflawni hefyd o fewn cyllideb ddangosol yr Aelodau ar gyfer 2012-13 cymaint ag y bo modd, ac wrth ystyried yr amcangyfrifon mae modd eu gwneud. Rydym yn fodlon nad yw diwallu'r amcan hwn wedi rhoi ein swyddogaethau craidd fel y maent yn ymddangos yn y Mesur yn y fantol.

53. Yn y dyfodol rydym yn rhagweld y bydd ein gwaith yn bwydo i mewn i broses pennu cyllideb Comisiwn y Cynulliad, ond oherwydd yr amser, ni fu hyn yn bosibl ar gyfer y Penderfyniad cyntaf hwn.

## Casgliadau

54. **Rydym wedi gwneud ein Penderfyniad cyntaf mewn amgylchiadau economaidd eithriadol yng Nghymru ac yn y DU, ac rydym wedi gosod system o gymorth ariannol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n gost effeithiol.**

55. **Mae'n briodol bod ein penderfyniadau'n ystyried y cyd-destun economaidd ehangach hwnnw ac felly rydym wedi penderfynu y dylai cyllideb is allu diwallu goblygiadau ariannol ein**

[10] *Defnyddir tybiaethau Trysorlys EM - 2011-12 2.5 y cant, 2012-13 2.2 y cant, a 2013-14 2.7 y cant fel ar 29 Tachwedd 2010 (cyrchwyd 9 Mawrth 2011).*

[11] *Cyllideb Comisiwn y Cynulliad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011-12*

[12] *Defnyddir tybiaethau Trysorlys EM - 2011-12 2.5 y cant, 2012-13 2.2 y cant, a 2013-14 2.7 y cant fel ar 29 Tachwedd 2010 (cyrchwyd 9 Mawrth 2011).*

**penderfyniadau. Dylid gallu cyflawni ein Penderfyniad, a lefel ddarbodus o arian wrth gefn, o fewn cyllidebau sy'n ymgorffori 5 y cant o arbedion termau real a gyllidebwyd ar gyfer 2011-12 o'i gymharu â'r gyllideb ar gyfer 2010-11, a 2.1 y cant o arbedion termau real yn 2012-13.**

56. **Rydym yn fodlon bod y system o gymorth ariannol rydym wedi'i chyflwyno yn gynaliadwy ac yn gost effeithiol ac er y bydd lefelau gwariant yn lleihau dan ein Penderfyniad, rydym wedi cyflawni ein swyddogaethau, fel y cânt eu gosod yn adran 3 y Mesur. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y taliadau sydd ar gael i'r Aelodau'n adlewyrchu natur eu rolau; na ddylent atal unrhyw ymgeiswyr addas rhag sefyll am resymau ariannol; eu bod yn rhoi adnoddau digonol i'r Aelodau; ac yn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n briodol o ran cywirdeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder.**

# Egwyddorion a Methodoleg

*Roeddem wedi penderfynu'n gynnar y dylai ein gwaith fod yn seiliedig ar gyd-destun Cymreig, y dylai fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac y dylai fod yn gyfranogol ac yn dryloyw.*

57. Os yw pobl Cymru am ymddiried yn llwyr yn system taliadau'r Cynulliad, rhaid iddi fod yn amlwg yn addas i'r diben ac yn dryloyw. Fel y corff annibynnol sy'n gyfrifol am ddylunio system o'r fath, rydym wedi ceisio dilyn safonau uchel o ran cywirdeb a thryloywder yn ein gwaith ein hunain a gwreiddio'r egwyddorion hynny yn fframwaith taliadau a chymorth ariannol y Cynulliad.

58. Rydym yn cytuno â'r Panel Adolygu Annibynnol ei bod yn rhaid i'n gwaith gefnogi'r Cynulliad i ddatblygu atebion o fewn cyd-destun Cymreig gan fwyaf. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau adnoddau i anghenion penodol Aelodau ac ymateb i ofynion y Cynulliad wrth iddo esblygu.

59. Rydym yn glir ei bod yn rhaid targedu'r system taliadau a lwfansau i gefnogi diben strategol y Cynulliad fel deddfwrfa, a swyddogaeth Aelodau yn y broses honno. Rydym felly wedi canolbwyntio ar dargedu adnoddau i gefnogi Aelodau iddynt allu cyflawni eu swyddogaethau craidd: craffu polisïau a chyllid; dal Llywodraeth Cymru i gyfrif; deddfu; a chynrychioli eu hetholwyr.

## Adolygiad Addas i'r Diben

60. Er mwyn i'n hadolygiad fod yn effeithiol, ac i sicrhau bod adnoddau'n cael eu rhannu'n briodol, roedd yn rhaid ateb nifer o gwestiynau, gan gynnwys:

- beth yw diben y Cynulliad?
- sut mae'r Aelodau'n cyflawni'r diben hwnnw?
- sut dylid targedu adnoddau i gefnogi'r diben hwnnw?
- sut mae modd gwerthuso effaith targedu adnoddau?

61. O'r cychwyn cyntaf, roedd hi'n glir i ni, er mwyn i'n Penderfyniad fod yn addas i'r diben, bod angen i ni allu gweld diben sylfaenol y Cynulliad yn glir, yn enwedig yng ngoleuni ei esblygiad o gorff corfforaethol unedol i ddeddfwrfa â chyfrifoldebau wedi'u rhannu rhwng Llywodraeth a Chynulliad. Yn benodol, roedd arnom eisiau asesu i ba raddau y byddai'r system o lwfansau a

ddatblygwyd dros y tri Chynulliad cyntaf yn briodol yn y dyfodol. Mae Pennod 3 yn edrych yn fanwl ar esblygiad y Cynulliad.

62. Rydym wedi trafod diben strategol y Cynulliad – fel y'i cyflawnir mewn Cyfarfodydd Llawn, mewn pwyllgorau ac yn etholaethau a rhanbarthau Cymru – yn gyson ag Aelodau. Rydym yn deall eu baich gwaith trwm fel cynrychiolwyr eu hetholaethau a'u rhanbarthau, fel aelodau plaid, ac fel meincwyr cefn mewn deddfwrfa fach sy'n gyfrifol am graffu deddfwriaeth, cynigion ariannol, a dal Llywodraeth Cymru i gyfrif. Mae gan Aelodau Llywodraeth Cymru swyddogaethau gweithredol hefyd yn amlwg. Er ein bod wedi cael digon o dystiolaeth am y swyddogaethau hyn i roi dealltwriaeth sylfaenol i ni o'r hyn sydd dan sylw, nid oeddem wedi gallu cael dealltwriaeth cyn lawned ag y byddem wedi'i ddymuno yn yr amser a oedd ar gael. Ein nod fu dod o hyd i atebion i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau penodol y Cynulliad a'i Aelodau, i weithredu system o gymorth ariannol sy'n helpu'r Cynulliad i gyflawni ei swyddogaethau strategol craidd, i addasu i newid cyfansoddiadol yn ôl yr angen, ac i baratoi ar gyfer sialensiau'r Pedwerydd Cynulliad a thu hwnt. Rydym yn trafod diben strategol y Cynulliad ym Mhennod 4.

63. Ym Mhenodau 5 i 9 rydym yn amlinellu'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud ar system cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad a'r ffyrdd rydym wedi ceisio targedu adnoddau i gefnogi capasiti strategol y Cynulliad.

64. Cam allweddol yn ein blaenraglen waith fydd gwerthuso ac arfarnu effaith a dylanwad ein Penderfyniad. Yn rhannau perthnasol yr adroddiad rydym wedi dangos y meysydd rydym yn bwriadu parhau i'w hadolygu.

## Egwyddorion

65. Mae ein penderfyniadau ar gymorth ariannol yn seiliedig ar egwyddorion sydd wedi'u diffinio'n glir:

- **diben strategol**
  dylai ein Penderfyniad gefnogi diben strategol y Cynulliad a hwyluso gwaith ei Aelodau;
- **iawn i Gymru**
  rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach sy'n effeithio ar Gymru, a
- **gwerth am arian**
  dylai'r system o gymorth ariannol gynrychioli gwerth am arian i drethdalwyr.

66. Ar ben hynny, rhaid i'r system o gymorth ariannol i Aelodau fod yn gadarn, yn glir ac yn dryloyw.

## Methodoleg

### Adolygiad Cyfranogol

67. Rydym bob amser wedi bod yn glir ei bod yn rhaid i'r broses adolygu gynnwys y rheini y bydd ein Penderfyniad yn effeithio arnynt. Roeddem wedi cwrdd yn ffurfiol â chynrychiolwyr pob plaid yn y Cynulliad, staff Aelodau a'u cynrychiolwyr undebau llafur, a Chadeirydd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn yr Aelodau. Cynhaliodd Aelodau'r Bwrdd hefyd drafodaethau â deiliaid rhai swyddi ychwanegol yn y Cynulliad, gan gynnwys aelodau o Lywodraeth Cymru, Prif Chwipiaid y Llywodraeth a Gwrthbleidiau, cadeiryddion rhai pwyllgorau, y Dirprwy Lywydd a Chomisiynydd Cynulliad, i gasglu tystiolaeth ar y cyfrifoldebau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hynny. Bu'r Cadeirydd yng nghyfarfodydd pob grŵp plaid yn y Cynulliad, cyfarfu'n anffurfiol â staff cymorth Aelodau ac â'r Llywyddion. Cyfarfu hefyd â phob arweinydd plaid, neu eu cynrychiolydd, yn fisol. Ar ben hynny, cynhaliwyd sesiynau galw draw yn y Senedd lle gallai Aelodau godi unrhyw faterion roeddent yn teimlo y dylem eu hystyried.

68. Cafodd pob Aelod Cynulliad wahoddiad i lenwi holiadur, diben hynny oedd casglu eu safbwyntiau ynghylch materion sy'n ymwneud â thaliadau. Rydym yn falch bod 22 o Aelodau wedi ymateb, ond rydym yn nodi bod hyn yn dal yn gadael bylchau yn y dystiolaeth sydd gennym. Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu ag Aelodau'r Pedwerydd Cynulliad fel rhan o broses gyfranogol barhaus.

69. Ym mis Rhagfyr 2010 roeddem wedi cynnal colocwiwm lle'r oedd academyddion, ystod eang o gynrychiolwyr o gymdeithas ddinesig, Aelodau'r Cynulliad o bob plaid yn y Cynulliad, eu staff a swyddogion Comisiwn y Cynulliad yn bresennol. Cymerodd panel trawsbleidiol o Aelodau ran yn y sesiwn, ac roedd y trafodaethau'n werthfawr dros ben o ran eu cyfraniad at ein hystyriaethau.

70. Roedd aelodau'r Bwrdd a oedd yn meddu ar brofiad proffesiynol o faterion sy'n ymwneud â thaliadau wedi arwain ymchwil i enillion yng Nghymru, yn enwedig gan ddefnyddio data o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE).[13] Roeddent wedi adolygu cyflogau a lwfansau sy'n cael eu talu i gynrychiolwyr etholedig yn neddfwrfeydd eraill y DU.

### Adolygiad Tryloyw

71. I sicrhau bod ein gwaith yn dryloyw a bod pobl Cymru yn gallu dilyn ein gwaith, roeddem wedi cyhoeddi agenda a chofnodion pob cyfarfod ar y rhyngrwyd yn fuan ar ôl pob cyfarfod[14]; wedi darparu manylion cyswllt ar ein gwefan, gwahodd pobl i gyflwyno sylwadau neu i godi materion; a chyhoeddi datganiadau newyddion i'r cyfryngau i roi gwybod i bobl Cymru am ein gwaith a'r penderfyniadau wrth iddynt gael eu gwneud.

[13] *Annual Survey of Hours and Earnings 2010, http://www.statistics.gov.uk/statbase/Product.asp?vlnk=1951*

[14] *http://www.cynulliadcymru.org/memhome/mem-allow-pay-pensions/remuneration_board/meetings-board.htm*

72. Roeddem wedi ymgynghori â nifer o sefydliadau ac unigolion allanol yn ystod ein gwaith, gan gynnwys uwch swyddogion yn Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon a'r Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol a'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion.

73. Rydym yn ddiolchgar i bawb o roddodd o'u hamser i roi tystiolaeth i ni yn ystod ein gwaith. Mae Atodiad C yn cynnwys rhestr lawn o'r rheini yr ymgynghorwyd â nhw.

### Proses Iteraidd

74. Roeddem wedi dod o hyd i'r materion allweddol i'w hystyried ac wedi eu blaenoriaethu gan werthuso a sgorio'r dewisiadau a oedd ar gael i ni. Cafodd y casgliadau a oedd yn dod i'r fei eu profi a'u mireinio ar ôl pob cyfarfod Bwrdd fel rhan o'n deialog parhaus gydag Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

### Argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol

75. Roedd Adran 15 y Mesur yn mynnu ein bod yn ystyried argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol wrth wneud Penderfyniad am y tro cyntaf. Roedd y Mesur hefyd yn mynnu ein bod yn rhoi ein rhesymau'n ysgrifenedig dros beidio â dilyn unrhyw argymhelliad.

76. Roeddem wedi adolygu 108 argymhelliad y Panel Adolygu Annibynnol yn drylwyr ac rydym yn cydnabod y gwaith da a wnaed gan y Comisiwn wrth eu gweithredu. Ar ôl ein hadolygiad, rydym wedi cytuno i weithredu 72 argymhelliad yn llawn, a 11 arall yn rhannol. Nid oeddem yn cytuno ar 12 argymhelliad ac roedd 13 y tu allan i'n cylch gwaith. Mae Atodiad F yn cynnwys rhestr o'r argymhellion a'n hymateb iddynt.

### Sgrinio'r Effaith ar Gydraddoldeb

77. Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd arnom i sicrhau na fydd unrhyw ymgeisydd sy'n meddu ar yr ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol yn cael ei rwystro rhag sefyll mewn etholiad. Roeddem felly wedi cynnal asesiad o'n Penderfyniad ar sail cydraddoldeb, i sicrhau nad oedd yn debyg y byddai unrhyw adran o gymdeithas yn cael ei rhwystro'n anghymesur rhag sefyll mewn etholiad i'r Cynulliad am resymau ariannol. Mae asesiad cyntaf o sgrinio'r effaith ar gydraddoldeb, sydd ynghlwm yn Atodiad E, yn dangos na ddylai ein Penderfyniad fod yn rhwystr anghymesur.

## Blaenraglen Waith

### Cyflogau Deiliaid Swyddi

78. O fewn yr amser a oedd ar gael i ni, nid oedd yn bosibl cael tystiolaeth digon cadarn i benderfynu ar gyflogau ychwanegol ar gyfer nifer o ddeiliaid swyddi. Rydym hefyd yn ymwybodol y gallai'r cyfrifoldebau dan sylw newid yn y Pedwerydd Cynulliad. Rydym felly wedi gwneud Penderfyniad interim ac, drwy ymgynghori ag Aelodau, byddwn yn dychwelyd at y mater hwn cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl etholiad Mai 2011.

### Adolygu, Archwilio a Gwerthuso

79. Yn unol â'r Mesur, byddwn yn dal i adolygu effaith ein Penderfyniad yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Byddwn yn ystyried sut mae'n gweithredu, unrhyw newidiadau i swyddogaethau Aelodau'r Cynulliad, ac unrhyw amgylchiadau newydd rydym yn ystyried sy'n berthnasol. Byddwn yn cynnal archwiliadau pan fydd angen i sicrhau bod unrhyw weithdrefnau newydd yn gweithio'n effeithiol – mewn perthynas, er enghraifft, â'r trefniadau i recriwtio staff cymorth. Byddwn yn parhau i ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad ac â'u staff.

### Pensiynau Aelodau'r Cynulliad

80. Roeddem wedi gwneud rhywfaint o waith dechreuol yn y maes hwn, ond roeddem yn cytuno y dylid gohirio adolygiad llawn o bensiynau Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth nes cael adroddiad terfynol y Comisiwn Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus Annibynnol[15], dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Hutton, ac asesiad actiwaraidd Cynllun Pensiwn yr Aelodau 2011.

81. Fel rhan o'r gwaith paratoi, mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wrthi'n cael ei ddatblygu a fydd yn pennu'r berthynas rhyngom ni, y Comisiwn ac Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn yr Aelodau. Bydd y Memorandwm yn rhoi'r fframwaith ar gyfer gwaith yn y dyfodol ar bensiynau, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda'r Comisiwn a'r Ymddiriedolwyr drwy gydol y broses hon.

### Ymgysylltu â'r Comisiwn

82. Roedd yr amserlen a oedd ar gael i ni i gynhyrchu ein Penderfyniad cyntaf yn golygu nad oedd hi'n bosibl i ni ymgysylltu â'r Comisiwn cyn cytuno ar gyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2011-12. Wrth ddatblygu ein blaenraglen waith byddwn yn ystyried cylch cyllideb y Comisiwn, ac yn sicrhau bod ein gwaith yn cael ei amserlennu mewn ffordd a fydd yn ein galluogi i gyfrannu at y broses o osod y gyllideb.

---

[15] *http://www.hm-treasury.gov.uk/indreview_johnhutton_pensions.htm*

# Esblygiad y Cynulliad

*Yn y bennod hon rydym yn edrych ar esblygiad y Cynulliad a'i ddiben strategol o'i sefydlu yn 1999 ac effaith refferendwm mis Mawrth 2011.*

83. Er mwyn i ni ddeall diben strategol y Cynulliad yn llawn, a'r ffordd mae modd targedu ei adnoddau i gefnogi'r diben hwnnw, rydym wedi ystyried y cyd-destun hanesyddol, cyfansoddiadol a gwleidyddol y mae'r Cynulliad wedi datblygu ynddo er 1999. Rydym wedi edrych ar esblygiad y system a'r diwylliant o gymorth ariannol ac wedi dadansoddi sut mae hynny'n ffitio o fewn fframwaith ehangach datganoli anghymesur yn y DU. Mae'r gwaith hwn wedi cyfrannu at ein dealltwriaeth o ddiben strategol y Cynulliad a'i Aelodau, ac felly ein hystyriaeth o system briodol o gymorth ariannol i Aelodau yn y Pedwerydd Cynulliad.


## Esblygiad Datganoli

84. Derbynnir yn gyffredinol bod lefelau gwahanol o frwdfrydedd ar gyfer y syniad o ddatganoli yng Nghymru a lefelau gwahanol o ymgysylltu â'r syniad hwnnw, wrth gymharu â'r Alban a Gogledd Iwerddon. Y canlyniad oedd er bod datganoli mewn rhannau eraill o'r DU wedi bod yn destun llawer o ymgysylltu cyhoeddus, roedd y ddadl yng Nghymru wedi bod yn gyfyngedig. Nid oedd y cynigion ar gyfer datganoli yng Nghymru felly wedi datblygu cymaint â'r rheini mewn rhannau eraill o'r DU. Y canlyniad oedd math mwy cyfyngedig o lawer o ddatganoli na'r hyn a fabwysiadwyd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.[16]

85. Roedd datganoli yng Nghymru yn 1999 yn seiliedig ar fodel o ddatganoli gweithredol, sydd wedyn wedi cael ei ddisgrifio gan academyddion amlwg fel model ag iddo feiau.[17] Mae Ffigur 2, a gyflwynwyd gan yr Athro Laura McAllister a Dr Diana Stirbu i'n colocwiwm ym mis Rhagfyr 2010, yn dangos natur amghymesurol datganoli yn y DU a'r effaith sy'n cyfyngu ar y Cynulliad yng Nghaerdydd a achosir gan ei analluo i weithio fel deddfwrfa o'i gymharu â chyrff deddfu yn Belfast a Chaeredin.

[16] *T117, Wales and the Westminster Model, Trench, A, Parliamentary Affairs, Cyfrol 63 Rhif 1*
[17] *Yr Athro Laura McAllister, Colocwiwm y Bwrdd Taliadau, Rhagfyr 2010*

**Ffigur 2: Continwwm Datganoli yn y DU[18]**




86. Mae'r deddfwrfeydd datganoledig yn dal yn rhan o system gyfansoddiadol y DU. Mae eu trefniadau cyfansoddiadol mewnol wedi'u gosod mewn deddfwriaeth a wnaed ar lefel y DU ac, yn y pen draw, Senedd y DU sydd yn dal yn sofran. Fodd bynnag, mae Ffigur 2 yn dangos bod y Cynulliad am y rhan fwyaf o'i oes wedi cael ei wreiddio, yn gyfansoddiadol ac yn ddiwylliannol, mewn datganoli gweithredol. Mae cyfyngiadau'r setliadau datganoli gwahanol wedi bod fwyaf amlwg yng Nghymru, lle bu gan Senedd y DU, hyd yn ddiweddar, swyddogaeth barhaus mewn perthynas â throsglwyddo pwerau fesul dipyn drwy Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol.

## Hanes y Cynulliad

87. Ym mis Mai 1997 etholwyd llywodraeth Lafur yn y DU gydag ymrwymiad maniffesto i greu Cynulliadau datganoledig yng Nghymru ac yn yr Alban. Ar ôl refferendwm, sefydlwyd y

[18] *Cyflwyniad a roddwyd gan y Athro Laura McAllister, Colocwiwm y Bwrdd Taliadau, Rhagfyr 2010 Comisiwn Calman (http://www.commissiononscottishdevolution.org.uk/), A National Conversation (http://www.scotland.gov.uk/About/FOI/19260/Class16), Confensiwn Cymru Gyfan (http://allwalesconvention.org/?skip=1&lang=cy), Comisiwn Holtham (http://wales.gov.uk/icffw/home/?skip=1&lang=cy), Y Panel Adolygu Annibynnol (http://www.cynulliadcymru.org/memhome/mem-allow-pay-pensions/independentreviewpanel.htm), Comisiwn Richard (http://www.richardcommission.gov.uk/), Trefn Lywodraethu Well i Gymru(http://www.official-documents.gov.uk/document/cm65/6582/6582.asp)*

Cynulliad Cenedlaethol yn ffurfiol gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998[19], sy'n gosod y pwerau allweddol y byddai'r corff newydd yn gallu eu harfer.

88. Er bod gan Senedd yr Alban bwerau i lunio deddfau sylfaenol ynghyd â deddfwrfa a gweithrediaeth ar wahân o'r dechrau, nid oedd hynny'n wir yng Nghymru. Cafodd y Cynulliad ei sefydlu fel un corff corfforaethol, gyda phwerau deddfu wedi'u cyfyngu i lunio deddfwriaeth eilaidd dim ond pan roedd Senedd y DU yn awdurdodi hynny. At ei gilydd roedd y pwerau hynny'n cyfateb i'r pwerau a arferai fod gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.[20]

89. Roedd strwythur un gorfforaeth y Cynulliad a swyddogaeth ffurfiol ei system pwyllgorau'n golygu ei fod yn debyg iawn i fodel traddodiadol llywodraeth leol, yn hytrach na llywodraeth genedlaethol, yn y DU. Ym model llywodraeth seneddol San Steffan, mae'r weithrediaeth a'r ddeddfwrfa yn ddau endid ar wahân; un yn gyfrifol am osod a gweithredu polisïau a'r llall yn gyfrifol am ddal y weithrediaeth i gyfrif. Yn 1999 roedd y Cynulliad yn hybrid o'r ddau draddodiad hyn: un endid corfforaethol a oedd yn rhoi awdurdod gweithredol i 60 Aelod y Cynulliad; system pwyllgorau ar sail portffolios a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu polisïau yn drawsbleidiol; a phwyllgor gweithredol o Ysgrifenyddiaethau Cynulliad (cabinet) gyda chyfrifoldeb portffolio dros feysydd allweddol, ond dim ond yn gallu gweithredu ag awdurdod dirprwyedig y Cynulliad i gyd.

90. Er bod nifer o elfennau cadarnhaol am y Cynulliad a oedd newydd ei greu o ran mynediad i'r cyhoedd a math o wleidyddiaeth a oedd yn fwy cynhwysol a chydsyniol, roedd y strwythur un corff corfforaethol yn peri problemau. Roedd yr anawsterau a gafodd gweinyddiaeth leiafrif Lafur o ran sicrhau cytundeb cyson gan bleidiau eraill yn y Cynulliad, a newid y Prif Ysgrifennydd ym mis Chwefror 2000, wedi tanlinellu'r angen am sefydlogrwydd a newid cyfansoddiadol.[21]

91. Roedd un diwygiad o'r fath yn rhoi sylw i gwestiwn adnoddau ar gyfer Aelodau'r 'meinciau cefn'. I ddechrau, roedd yr holl gyngor a chefnogaeth i'r Aelodau a oedd yn cyflawni eu swyddogaethau pwyllgorau a Chyfarfodydd Llawn yn dod gan y gweision sifil a'u prif ffocws nhw oedd gwasanaethu Ysgrifenyddiaethau'r Cynulliad. Roedd hyn yn peri dryswch ac anawsterau o ran cyfrinachedd, tryloywder a digonolrwydd a blaenoriaethu anghenion Aelodau'r Cynulliad nad oeddent yn rhan o'r 'Weithrediaeth'. Roedd materion o'r fath yn cael eu cymhlethu ymhellach gan y gofyniad i Ysgrifenyddiaethau (Gweinidogion yn nes ymlaen) eistedd ar y pwyllgorau pwnc a'r pwyllgorau sefydlog yn craffu eu portffolios.

92. Ar ôl cynnal Adolygiad mewnol o Weithdrefnau yn 2001-02, aeth yr ymgyrch i wahaniaethu rhwng y swyddogaethau gweithredol a deddfwriaethol ymlaen gyda chynnig Dydd Sain Ffolant y Cynulliad yn 2002: "y dylid sicrhau'r rhaniad cliriaf posibl a ganiateir gan y ddeddfwriaeth bresennol rhwng y Llywodraeth a'r Cynulliad".[22] O ganlyniad i hyn, dechreuodd y Prif Ysgrifennydd ddefnyddio'r teitl Prif Weinidog, roedd clerc y Cynulliad yn arwain corff o staff a

[19] *http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/38/contents*
[20] *T119, Wales and the Westminster Model, Trench, A, Parliamentary Affairs, Cyfrol 63 Rhif 1*
[21] *T123-4, ibid*
[22] *http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-chamber/bus-chamber-first-assembly/bus-chamber-first-assembly-rop/3c6cfa3a000d18cc0000162b00000000.pdf?langoption=3&ttl=The%20Record*

elwid yn Swyddfa'r Llywydd, gyda mwy o annibyniaeth i ddarparu cyngor, ymchwil a chefnogaeth i Aelodau unigol a phwyllgorau'r Cynulliad, a dechreuwyd defnyddio'r term Llywodraeth Cynulliad Cymru.

93. Roedd Comisiwn Richard, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2002 i archwilio pwerau a threfniadau etholaethol y Cynulliad, wedi argymell, inter alia, bwerau deddfu gwell i'r Cynulliad a gwahanu'r Weithrediaeth oddi wrth y ddeddfwrfa'n gyfreithiol. Ymatebodd Llywodraeth y DU gyda Phapur Gwyn yn 2006, Trefn Lywodraeth Well i Gymru[23], a chyflwynodd Mesur Llywodraeth Cymru 2005[24] a oedd yn gweithredu nifer o argymhellion y Comisiwn.

94. Roedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006)[25] yn ailddiffinio ac yn ail-siapio'r Cynulliad, gan greu am y tro cyntaf ddeddfwrfa ddatganoledig lawn i Gymru, gan wahanu endidau cyfreithiol y ddeddfwrfa a'r Weithrediaeth. Cafodd yr holl bwerau gweithredol eu trosglwyddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru a oedd bellach yn statudol. Cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a oedd wedi'i ailddiffinio bŵer deddfwriaethol i ddeddfu i Gymru mewn meysydd wedi'u diffinio, a ffordd i gael rhagor o bwerau mewn meysydd a oedd wedi'u datganoli. Cafodd Comisiwn y Cynulliad ei greu i ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau i gefnogi'r Cynulliad.

## Y Trydydd Cynulliad (2007-11)

95. Mae'r Trydydd Cynulliad, sef y cyntaf i weithredu dan Ddeddf 2006, wedi bod yn wahanol iawn i'r ddau Gynulliad blaenorol.

96. Er 2007, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gallu llunio cyfreithiau i Gymru mewn ugain maes a elwir yn feysydd polisi. Mae modd rhannu pob un o'r 'meysydd' hyn yn feysydd manylach a elwir yn 'faterion'. Hyd at fis Mawrth 2011, cyn i'r Cynulliad allu deddfu mewn unrhyw un o'r 20 maes, roedd yn rhaid i Senedd y DU fod wedi cytuno bod y Cynulliad yn cael deddfu ar y 'mater' perthnasol. Roedd dwy ffordd i'r Senedd drosglwyddo awdurdod i'r Cynulliad er mwyn i'r Cynulliad gael deddfu:


- drwy basio Deddfau Seneddol a oedd yn trosglwyddo pwerau penodol i'r Cynulliad; neu
- drwy gymeradwyo Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCOs) a oedd yn geisiadau gan y Cynulliad i drosglwyddo pŵer.

97. Felly mae cymhwysedd cyfreithiol y Cynulliad wedi gweld twf cynyddol er 2007 ac mae'r Cynulliad ei hun, Llywodraeth Cymru, San Steffan a Whitehall wedi cyfrannu at hynny. Arweiniodd y refferendwm ar bwerau deddfu i'r Cynulliad, a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2011, at bleidlais Ie, a oedd yn golygu y bydd y pŵer i ddeddfu yn yr ugain maes yn Neddf 2006 yn cael ei drosglwyddo i'r Cynulliad, o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen.

[23] *http://www.official-documents.gov.uk/document/cm65/6582/6582.asp*
[24] *http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200506/cmbills/100/2006100.htm*
[25] *http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/contents*

98. Roedd y newidiadau a welwyd yn sgil Deddf 2006, a'r bleidlais Ie yn y refferendwm, yn golygu mwy na newidiadau sefydliadol, roeddent hefyd yn newidiadau diwylliannol. Prif swyddogaethau Aelodau yn y ddau Gynulliad cyntaf oedd cynrychioli buddiannau etholwyr; swyddogaeth a oedd yn adlewyrchu diwylliant awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol sef cefndir nifer o'r Aelodau. Caiff y diwylliant hwn ei adlewyrchu yn ymatebion Aelodau i'n harolwg. Mae Ffigur 3 yn dangos bod dros 40 y cant o'r 22 Aelod a ymatebodd i'n harolwg o'r farn mai diogelu a hybu buddiannau eu hetholaeth neu eu rhanbarth yw eu prif flaenoriaeth, ac mae bron i 23 y cant yn rhoi delio â gwaith etholaeth neu ranbarth ar frig eu rhestr. Mae hyn yn cymharu â 27 y cant o Aelodau sy'n credu mai dal Llywodraeth Cymru i gyfrif yw'r peth pwysicaf, a dim ond 14 y cant o Aelodau a roddodd y flaenoriaeth uchaf i graffu ar ddeddfwriaeth.

**Ffigur 3: Blaenoriaeth Swyddogaethau Aelodau a Ymatebodd**




99. Law yn llaw â dyfodiad y Trydydd Cynulliad, a chyflwyno pwerau deddfu sylfaenol, daeth y cyfrifoldeb a'r rhyddid ar faterion datganoledig. Roedd y newid hwn yn golygu newid cyfatebol mewn capasiti strategol a newid diwylliannol ac mae ein harolwg yn awgrymu nad yw hyn wedi cael ei wireddu'n llwyr eto. Dylai ein gwaith fel Bwrdd gefnogi a hybu cyflymu newid o'r fath.

100. Mae tri phrif ddiben y Cynulliad – dal Llywodraeth Cymru i gyfrif, deddfu a chynrychioli pobl Cymru – yn amlwg ym musnes ffurfiol y Cynulliad drwy ei waith mewn Cyfarfodydd Llawn a phwyllgorau. Fodd bynnag, roedd strwythur pwyllgorau'r Trydydd Cynulliad yn ymestyn ei gapasiti logistaidd a chapasiti ei Aelodau gyda rhai ohonynt yn eistedd ar hyd at bum pwyllgor gwahanol. Er bod Comisiwn Richard wedi argymell y dylid cynyddu'r Cynulliad i 80 o Aelodau[26], nid oedd Llywodraeth y DU wedi gwneud unrhyw newidiadau i faint y Cynulliad yn Neddf 2006. Mewn Cynulliad sy'n cynnwys 60 Aelod, ar ôl tynnu'r Weithrediaeth a'r Llywydd, dim ond oddeutu 45 o Aelodau'r Cynulliad sydd ar gael i gyflawni'r swyddogaeth craffu hanfodol.

[26] *http://www.richardcommission.gov.uk/*

## Y Pedwerydd Cynulliad (2011-15)

101. Yn dilyn y bleidlais Ie yn y refferendwm ar bwerau deddfu i'r Cynulliad, daw "darpariaethau Deddf y Cynulliad" yn Rhan IV Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i rym ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad, a fydd yn golygu na fydd yn rhaid i Senedd y DU gytuno mwyach i drosglwyddo pwerau penodol i lunio Mesurau mewn meysydd sydd wedi'u datganoli. Yn lle hynny, bydd y Cynulliad yn gallu gwneud Deddfau sy'n berthnasol i unrhyw un o'r materion yn yr ugain maes sydd wedi'u datganoli. Yn ei dystiolaeth i Gonfensiwn Cymru gyfan, dan gadeiryddiaeth Syr Emyr Jones Parry, a sefydlwyd i gynyddu dealltwriaeth o'r Cynulliad a mesur barn y cyhoedd ar bwerau deddfu'r Cynulliad, dywedodd Prif Gynghorydd Cyfreithiol y Cynulliad:

> “Measures and Acts are in substance the same. The only thing that is different is the issue of legislative competence, in other words whether you have the power to make that piece of legislation at all. In terms of what they do within their scope, and this is particularly relevant to your consideration, what you have to do in order to handle them and consider them in the Assembly, they are absolutely identical."[27]

102. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Confensiwn yn 2009, roedd y Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Busnes y Cynulliad yn amcangyfrif swmp y Mesurau y gallai fod yn rhaid i'r Cynulliad eu hystyried bob blwyddyn, ar sail y patrymau mewn gwaith deddfwriaethol yn ystod y Trydydd Cynulliad a chymariaethau â'r ddeddfwriaeth a gynhyrchwyd gan Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Cymru. Daethant i'r casgliad er ei bod yn debyg y byddai twf parhaus yn swmp y ddeddfwriaeth sylfaenol a ystyrid, byddai'r broses Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol yn dod i ben gan ryddhau'r capasiti i ystyried Mesurau Cynulliad.[28]

103. O ganlyniad, er y bydd ffocws swyddogaethau craffu a deddfwriaethol Aelodau yn y Pedwerydd Cynulliad yn symud i ystyried Mesurau Cynulliad a phasio Deddfau Cynulliad, y dystiolaeth rydym wedi'i chael yw na fydd fawr o newid i swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Aelodau.

## Casgliadau

104. **Fel y mae wedi esblygu, mae'r Cynulliad wedi datblygu arfer da mewn nifer o feysydd, yn enwedig drwy bolisïau sydd wedi'u dylunio'n arbennig ar gyfer Cymru. Mae hefyd wedi ymdrechu drwy ddefnyddio dychymyg ac arloesedd i ymgysylltu â'r bobl mae'n eu cynrychioli ac wrth ddatblygu craffu ac ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Mae hyn yn rhoi'r Cynulliad yn gadarn mewn cyd-destun Cymreig, gydag arddull gweithio sy'n fwy cydsyniol na Senedd y DU.**

105. **Dros y blynyddoedd diwethaf mae esblygiad y Cynulliad yng nghyd-destun ehangach datganoli anghymesur yn y DU wedi bod yn chwim. Er bod ei brofiad cynnar o ddatganoli**

---

[27] *Keith Bush, Prif Gynghorydd Cyfreithiol y Cynulliad, Tystiolaeth Lafar i Gonfensiwn Cymru Gyfan, 5 Chwefror 2009, http://wales.gov.uk/docs/awc/publications/090310cardiff5feboralen.pdf*

[28] *Memorandwm i Gonfensiwn Cymru Gyfan gan Fwrdd Gweithredol a Staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Chwefror 2009, http://wales.gov.uk/docs/awc/publications/090217bushcromptonen.doc*

**gweithrediaeth yn dal i ddylanwadu'n rhannol ar ei ddiwylliant, mae'r Cynulliad bellach wedi camu ymlaen at y model o ddatganoli deddfwriaethol a geir yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.**

106. **Yn y bennod nesaf rydym yn edrych ar ddiben strategol y Cynulliad fel deddfwrfa, oherwydd rhaid i'r system taliadau a lwfansau ategu'r diben strategol hwnnw os yw am sicrhau bod Aelodau'n cael digon o adnoddau i gyflawni eu swyddogaethau craidd yn effeithiol. Mae ein Penderfyniad wedi cael ei ddylunio i ddiwallu'r amcanion hyn wrth i ddatganoli esblygu ymhellach yn y Pedwerydd Cynulliad.**

# Diben y Cynulliad

*Yn y bennod hon, rydym yn rhoi ein barn am ddiben strategol y Cynulliad, swyddogaethau craidd Aelodau, a'r cymorth sydd ar gael iddynt, ac yn ystyried rhai o'r sialensiau y gallent eu hwynebu yn y Pedwerydd Cynulliad.*

107. Wrth wneud ein Penderfyniad, rydym wedi rhoi sylw dyledus i ddatblygiad hanesyddol y Cynulliad fel sefydliad, fel y trafodir ym Mhennod 3. Mae ein penderfyniadau'n seiliedig ar yr angen am system o daliadau a chymorth ariannol i Aelodau sy'n addas i'r diben ac sy'n ategu diben strategol y Cynulliad.

## Swyddogaeth y Cynulliad

108. Mae Comisiwn y Cynulliad yn disgrifio'r Cynulliad fel "y corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif".[29]

109. Mae'r disgrifiad hwn yn cwmpasu safbwynt sydd wedi hen ennill ei blwyf o gorff seneddol a'i Aelodau. Er enghraifft, mae'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion wedi disgrifio gwaith Aelod Seneddol dan tri phennawd cyffredinol:

> "The first is his or her participation in activities designed to assist in the passage of legislation and hold the Executive to account. This is traditionally seen as the 'core' role of the parliamentarian. The second area is work in and for the constituency. This is in part representational; in part promoting or defending the interests of the constituency as a whole; and in part it is designed to help individual constituents in difficulty. The third part of the job is work in support of the party to which the Member belongs, and for which he/she was elected."[30]

110. Bydd gan Aelodau'r Cynulliad flaenoriaethau unigol gwahanol, ond roedd y dystiolaeth a gawsom yn ein darbwyllo bod y Cynulliad a'i Aelodau yn cydnabod tair swyddogaeth strategol graidd:

- craffu polisïau a chyllid Llywodraeth Cymru;
- craffu a deddfu; a
- chynrychioli etholwyr.

[29] *http://www.cynulliadcymru.org/abthome.htm*

[30] *T32, Adroddiad y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion Rhif 48: Review of parliamentary pay and allowances Volume II, 2001*

111. Er bod pob un ohonynt yn wahanol mae cysylltiad rhwng pob un o'r swyddogaethau hyn. Er enghraifft, mae craffu dewisiadau polisi amgen yn cyfrannu at ystyried deddfwriaeth arfaethedig; mae cynigion deddfwriaethol yn adlewyrchu'r blaenoriaethau mae Aelodau'n eu gweld yn y cymunedau maent yn eu cynrychioli; a chaiff honiadau a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru eu profi'n gyson gan Aelodau yn erbyn y dystiolaeth a welant yn eu hetholaethau a'u rhanbarthau. Mae cyfrifoldeb yr Aelodau i graffu Llywodraeth Cymru, cyllid cyhoeddus a deddfwriaeth felly'n rhoi cyfle unigryw iddynt gynrychioli eu hetholwyr a gweithio ar eu rhan.

112. Drwy gydol ein gwaith, clywsom gan Aelodau am y cysylltiadau hyn rhwng elfennau gwahanol o'u swyddogaethau. Wrth ymateb i'n harolwg, dywedodd un Aelod:

> "Holding the Government to account and scrutinising legislation is protecting and promoting the interests of my constituency. Constituency casework can be a valuable reality check as to whether Government policy and legislation is actually working."

113. Bydd blaenoriaeth pob elfen o'r swyddogaeth yn amlwg yn wahanol i aelodau Llywodraeth Cymru, sy'n llunio ac yn gweithredu polisïau'r Llywodraeth, sy'n cymryd yr awenau yn y broses gwneud penderfyniadau, a mynd â deddfwriaeth y Llywodraeth rhagddi.

### Craffu Polisïau a Chyllid Llywodraeth Cymru

114. Mae'r Cynulliad yn craffu polisïau a chyllid y Llywodraeth drwy ei system pwyllgorau ac mewn Cyfarfodydd Llawn.

115. Roedd 19 o bwyllgorau yn y Trydydd Cynulliad. Prif ddiben 12 ohonynt oedd craffu polisïau a chyllid Llywodraeth Cymru. Roedd pedwar prif bwyllgor craffu, a oedd yn edrych ar bob un o feysydd cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, gyda chylch gwaith i archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisïau. Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, y Pwyllgor Menter a Dysgu, y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol a'r Pwyllgor Cynaliadwyedd oedd y rhain.

116. Roedd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn gyfrifol am archwilio gweithrediad polisïau Llywodraeth Cymru a gweithgareddau cyrff cyhoeddus. Roedd y Pwyllgor yn archwilio adroddiadau a oedd yn cael eu paratoi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac ar yr economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd defnyddio adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

117. Roedd Pwyllgor Cyllid yn gyfrifol am graffu cyllideb a gwariant Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad a chyrff eraill. Gallai pwyllgorau eraill hefyd graffu materion ariannol o fewn eu cylch gwaith.

118. Roedd y Pwyllgor wedi sefydlu nifer o bwyllgorau ychwanegol i graffu polisïau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, y Pwyllgor Deisebau, yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig, a'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog.

119. Fel rheol roedd Aelodau'r Cynulliad yn cwrdd mewn Cyfarfod Llawn bob prynhawn Mawrth a Mercher yn ystod yr wythnosau eistedd. Ar gyfartaledd, yn ystod y Trydydd Cynulliad, cynhaliwyd 66 Cyfarfod Llawn mewn blwyddyn Cynulliad. Roedd y Prif Weinidog yn ateb cwestiynau mewn Cyfarfod Llawn bob dydd Mawrth ac roedd Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Chomisiwn y Cynulliad i gyd yn ateb cwestiynau o leiaf bob pedair wythnos. Roedd gweddill amser y Cyfarfod Llawn yn cael ei neilltuo i ystyried deddfwriaeth, dadleuon a datganiadau.

### Craffu a Deddfu

120. Roedd pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn yn craffu deddfwriaeth arfaethedig. Roedd modd i Weinidogion Cymru, Aelodau'r Cynulliad neu Bwyllgorau Cynulliad gyflwyno Deddfwriaeth (LCOs a Mesurau). Ar ben hynny mae modd i Gomisiwn y Cynulliad gyflwyno Mesurau ar feysydd yn ei gylch gwaith. Roedd Aelodau hefyd yn gallu cyflwyno eu cynigion eu hunain am ddeddfwriaeth drwy system balot. Roedd Aelodau a oedd yn llwyddiannus yn y balot yn gyfrifol am lywio'r ddeddfwriaeth drwy gamau gwahanol y broses craffu.


121. Erbyn diwedd y Trydydd Cynulliad, o'r 19 pwyllgor, roedd chwech yn bwyllgorau deddfwriaeth, gan gynnwys pump yn ystyried Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCOs) a Mesurau a Phwyllgor Materion Cyfansoddiadol, yn gyfrifol am ystyried agweddau technegol yr holl offerynnau statudol neu'r offerynnau statudol drafft a oedd yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru. Gallai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol hefyd graffu rhywfaint ar Fesurau'r Cynulliad ac ymholiadau ehangach i faterion o bwys cyfansoddiadol. Ar ben hynny, roedd y Pwyllgor Cyllid hefyd wedi ystyried yr wybodaeth ariannol a gyflwynwyd i gefnogi Mesurau.

122. Mewn Cyfarfodydd Llawn, roedd Aelodau'r Cynulliad yn cael nifer o gyfleoedd i graffu deddfwriaeth, gan gynnwys cwestiynu Aelodau ar ddatganiadau am ddeddfwriaeth; cymryd rhan mewn dadleuon ar egwyddorion cyffredinol Mesurau; ac ystyried diwygiadau i Fesurau yn fanwl.

### Cynrychioli Etholwyr

123. Roedd ein harolwg yn gofyn i'r Aelodau roi pob un o'u swyddogaethau mewn trefn blaenoriaeth. Dangosodd y canlyniadau fod y rhan fwyaf o'r 22 Aelod a ymatebodd yn teimlo mai cynrychioli eu hetholwyr oedd eu swyddogaeth bwysicaf (Ffigur 4).

**Ffigur 4: Blaenoriaeth Swyddogaethau Aelodau a Ymatebodd**[31]




124. Yn eu hymatebion i'r arolwg, ac yn eu tystiolaeth lafar i ni, dywedodd nifer o Aelodau wrthym eu bod wedi treulio llawer iawn o'u hamser yn swyddfa eu hetholaeth neu eu rhanbarth er mwyn cwrdd â'u hetholwyr a mudiadau lleol eraill. Roedd hyn yn cynnwys delio â llawer iawn o waith achos ar ran etholwyr, a chwarae rhan weithgar yn eu hardaloedd a'u cymunedau lleol.

125. Fodd bynnag, roedd hyn yn amrywio, gydag un ymatebydd yn dweud:

> "I try to spend as little time as possible on casework, having a full-time caseworker and administrator […] I get involved either on very complex matters or matters which have political repercussions."

126. Yn y Trydydd Cynulliad, cyflwynodd y Cynulliad fecanwaith i etholwyr er mwyn iddynt allu ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Cynulliad drwy system deisebau gyhoeddus. Ar ôl i ddeisebau gael eu cyflwyno roeddent yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Deisebau, gyda'r cyfle i ddeisebwyr fynd i'r Pwyllgor i drafod eu cynigion.

## Gosod yr Agenda – Llywio'r Cynulliad

127. Mae gan nifer o unigolion a chyrff allweddol yn y Cynulliad swyddogaethau arwain o ran mynd â'r rhaglenni deddfwriaethol a chraffu rhagddynt a sicrhau bod Aelodau'n gallu cyflawni eu swyddogaethau. Mae'r arweinwyr hyn yn hanfodol er mwyn rhedeg y sefydliad yn effeithiol ac

[31] *Mae'r ardal â chysgod yn adlewyrchu cyfran yr Aelodau a roddodd pob swyddogaeth fel yr un pwysicaf wrth ymateb i arolwg y Bwrdd Taliadau o Aelodau, 2011*

yn effeithlon fel deddfwrfa, ac er mwyn ennyn newid diwylliannol a datblygiad sefydliadol. Edrychwn ymlaen at weithio gyda nhw drwy gydol y Pedwerydd Cynulliad.

### Comisiwn y Cynulliad

128. Cafodd Comisiwn y Cynulliad ei sefydlu gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gyda chylch gwaith i sicrhau bod y Cynulliad yn cael yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau y mae eu hangen arno er mwyn iddo allu cyflawni ei swyddogaeth yn effeithiol ac yn effeithlon. Y Comisiwn yw corff corfforaethol y Cynulliad; mae'n pennu ei nodau strategol, amcanion a gwerthoedd; yn ystyried perfformiad yn ôl eu cyflawni; yn goruchwylio newid; ac yn annog arloesedd ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Comisiynwyr yn gyfrifol ar y cyd am y dyletswyddau y mae Deddf 2006 yn eu rhoi i'r Comisiwn, ac am sicrhau bod y Cynulliad yn gallu gweithredu'n effeithiol.

### Y Pwyllgor Busnes

129. Mae'r Pwyllgor Busnes yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o reoli busnes y Cynulliad ac ar gynghori ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol yn y Cynulliad. Dan gadeiryddiaeth y Llywydd, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am drefnu busnes y Llywodraeth, busnes anllywodraethol a busnes y Cynulliad yn y Cyfarfodydd Llawn.

### Arweinyddiaeth Wleidyddol

130. Mae arweinwyr gwleidyddol yn y Cynulliad, gan gynnwys arweinwyr a chwipiaid pleidiau, yn chwarae rhan bwysig o ran trefnu a rheoli busnes y Llywodraeth a'r Cynulliad, a drwy sicrhau bod y gwrthbleidiau'n craffu'n effeithiol.

### Cadeiryddion Pwyllgor

131. Caiff llawer iawn o waith craidd y Cynulliad – craffu polisïau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a deddfu ar gyfer Cymru – ei gyflawni drwy ei bwyllgorau. Felly mae gan gadeiryddion pwyllgorau ran bwysig drwy fynd â gwaith y Cynulliad rhagddo drwy reoli gwaith eu pwyllgorau, llywio a siapio ymchwiliadau pwyllgor a chynrychioli eu pwyllgorau mewn Cyfarfodydd Llawn, yn y cyfryngau ac mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru.

### Llywodraeth Cymru

132. Er bod y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn gyrff ar wahân, mae cysylltiad agos rhyngddynt; er mwyn gallu gweithredu'n effeithiol rhaid i un gael cydweithrediad a chymorth y llall.

## Y Cymorth sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad

133. Mae Aelodau'r Cynulliad yn cael ystod o gymorth i gyflawni eu dyletswyddau, gan gynnwys cymorth gan eu staff eu hunain, gan y rheini a gyflogir gan eu grŵp gwleidyddol a gan wasanaethau Comisiwn y Cynulliad.

### Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad

134. Daw'r cymorth uniongyrchol mwyaf sylweddol i Aelod Cynulliad gan y staff a gyflogir gan bob Aelod. Caiff y staff weithio yn y Cynulliad ym Mae Caerdydd neu yn swyddfa etholaethol neu

ranbarthol yr Aelod. Bydd staff Aelodau'n ymgymryd ag amrywiaeth o swyddogaethau i'w cefnogi yn eu gwaith. Roedd tystiolaeth yr Aelodau'n glir i ni ynghylch faint maent yn gwerthfawrogi eu staff, a'u pwysigrwydd o ran darparu elfen angenrheidiol o gymorth gwleidyddol nad oes modd ei chael gan wasanaethau'r Comisiwn. Dywedodd un Aelod wrthym:

> "It is vital that Members continue to have 3 FTE staff in order to provide the support, advice, local knowledge and expertise which they are uniquely able to offer. Members must not feel constrained when wanting to be controversial and forthright. Support [available to Members] therefore must be political as well as impartial."

### Staff Cymorth Grŵp

135. Ar ben hynny, yn y Trydydd Cynulliad, roedd grwpiau plaid a oedd yn cynnwys tri Aelod neu fwy yn gallu cyflogi staff yn ganolog. Roedd y staff hyn yn ychwanegol at y staff y gallai pob Aelod eu cyflogi'n unigol. Roedd nifer y staff yn seiliedig ar nifer yr Aelodau yn y grŵp plaid ac a oedd unrhyw Aelod o'r grŵp plaid yn cael ei gynrychioli yn Llywodraeth Cymru ai peidio.

136. Mae cymorth staffio grŵp yn chwarae rhan ganolog o ran cydlynu cymorth strategol a chyfeiriad grwpiau plaid yn y Cynulliad. Mae trefniadau o'r fath yn arbennig o bwysig i'r gwrthbleidiau, y mae eu staff i bob pwrpas yn gyfrifol am gefnogi llefarwyr y blaid ar draws yr ystod lawn o bortffolios Gweinidogol.

### Cymorth gan Gomisiwn y Cynulliad

137. Caiff Aelodau gymorth staff gan Gomisiwn y Cynulliad mewn sawl maes. Bydd Aelodau sy'n cwrdd mewn Cyfarfodydd Llawn neu bwyllgorau yn cael llawer o gefnogaeth gan staff y Comisiwn gan gynnwys briffio am bolisïau a materion ariannol, drafftio deddfwriaethol a chyngor gweithdrefnol yn ogystal â chymorth gweinyddol a logistaidd cyffredinol. Caiff pwyllgorau yn benodol eu cefnogi gan dimau integredig, a fydd yn cynnwys clercod, ymchwilwyr a chyfreithwyr, er mwyn iddynt gael ystod o ddisgyblaethau wrth law. Mae rhwydd hynt hefyd i bwyllgorau benodi cynghorwyr allanol i helpu mewn perthynas ag ymchwiliadau penodol a/neu brosiectau ymchwil.

138. Bydd clercod, ymchwilwyr a chyfreithwyr hefyd yn darparu cymorth sylweddol i Aelodau'r meinciau cefn neu bwyllgorau i ddatblygu eu cynigion deddfwriaethol eu hunain.

139. Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n cefnogi Aelodau ym mhob agwedd ar eu swyddogaeth drwy wasanaeth ymholiadau unigol cyfrinachol sy'n helpu gydag unrhyw faterion sy'n ymwneud ag etholaeth yn ogystal â'r rheini sy'n deillio o fusnes y Cynulliad. Yn ystod ein gwaith clywsom bryderon am gyfyngiadau ar fynediad staff Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau at wybodaeth a gedwir gan Lywodraeth Cymru. Mae Pennod 10 yn rhoi mwy o sylw i'r mater hwn.

# Y Pedwerydd Cynulliad: Cynulliad Trosiannol

## Sialensiau'r Pedwerydd Cynulliad

140. Mae'r Cynulliad yn wynebu nifer o sialensiau wrth iddo symud ymlaen i'r Pedwerydd Cynulliad ac mae ei faint yn un o'r sialensiau hynny. Gyda dim ond 60 cynrychiolydd etholedig, gyda nifer ohonynt yn aelodau o Lywodraeth Cymru, hyn a hyn o Aelodau sydd ar gael i wasanaethu ar bwyllgorau deddfwriaeth a chraffu. Fel dywedodd un ymatebydd i'n harolwg:

> "The full range of functions and responsibilities found in a modern and developing legislature [...] is shared between a far smaller membership than elsewhere."

141. Clywsom dystiolaeth gan Aelodau drwy gydol ein gwaith mai un o'r prif sialensiau a oedd yn eu hwynebu oedd mwy a mwy o bwysau amser wrth i bwerau'r Cynulliad ddatblygu. Gyda dim ond 45 o feincwyr cefn i wasanaethu ar 19 pwyllgor, yn ogystal â diwallu eu cyfrifoldebau mewn perthynas â busnes Cyfarfodydd Llawn a chynrychioli etholwyr, roedd Aelodau'r Trydydd Cynulliad yn dweud yn gyson bod amser yn brin iddynt.

142. Mae Ffigur 5 yn dangos bod y Cynulliad yn fach mewn perthynas â deddfwrfeydd eraill y DU, ac, o ganlyniad, mae nifer yr Aelodau sydd ar gael i ysgwyddo swyddogaethau craffu a deddfwriaethol yn gyfrannol is.

**Ffigur 5: Deddfwrfeydd y DU sydd ar gael i Ysgwyddo Swyddogaethau Craffu a Deddfwriaethol**[32]

| | Cyfanswm nifer y seddi | Aelodau sydd ar gael | Canran |
|---|---:|---:|---:|
| Senedd y DU | 650 | 552 | 85% |
| Senedd yr Alban | 129 | 113 | 88% |
| Cynulliad Gogledd Iwerddon | 108 | 92 | 85% |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 60 | 45 | 75% |

143. Fodd bynnag, mae lefel sgiliau a gwybodaeth Aelodau wedi cynyddu dros y blynyddoedd hefyd. Fel y dywedodd un Aelod wrthym:

> "I personally do not take quite as long to write speeches and prepare questions for Plenary because experience makes it easier for me than it was 12 years ago. That would be different for a new Member coming in."

144. Mae nifer mawr o Aelodau wedi cyhoeddi na fyddant yn sefyll i gael eu hailethol ym mis Mai 2011, sy'n golygu y bydd nifer fawr o Aelodau newydd yn y Pedwerydd Cynulliad. Mae hyn yn peri sialens arall sef lleihau'r bwlch sgiliau a phrofiad yn gyflym ac yn effeithiol. Rydym yn croesawu cynlluniau'r Comisiwn i gefnogi Aelodau yn y broses hon. Mae Pennod 10 yn amlinellu'r cynlluniau hyn.

[32] *Cafodd y ffigurau hyn eu cyfrifo gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau drwy ddefnyddio gwybodaeth a ddarparwyr ar wefannau'r Llywodraethau a'r Deddfwrfeydd dan sylw.*

145. Yn ein colocwiwm ym mis Rhagfyr 2010, clywsom gan Gyfarwyddwr Busnes y Cynulliad bod yr adolygiad o Orchmynion Sefydlog wrth baratoi ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad wedi ystyried y pwysau ar amser Aelodau yn y Trydydd Cynulliad. Roedd y Gorchmynion Sefydlog sy'n ymwneud â strwythur pwyllgorau felly wedi cael eu datblygu gyda golwg ar alluogi Pwyllgor Busnes y Pedwerydd Cynulliad i symleiddio'r system pwyllgorau petai'n dewis gwneud hynny. Rydym yn croesawu'r cam hwn ac yn gobeithio y bydd y strwythur pwyllgorau yn cael ei resymoli ac yn canolbwyntio ar gefnogi prif amcanion strategol y sefydliad.

146. Roedd tystiolaeth a gawsom yn ein colocwiwm a drwy'r arolwg i Aelodau'n awgrymu bod mwy o waith achos yn un o'r sialensiau eraill sy'n wynebu Aelodau, wrth i ddisgwyliadau etholwyr godi:

> "As awareness of the Assembly has grown, alongside the increase in the Assembly's powers, the amount of casework has also increased substantially."

> "It is not surprising that the more effective and visible you become as an Assembly Member the more work this generates."

147. Roedd Cymdeithas Hansard, yn ei hastudiaeth o Aelodau Seneddol newydd a etholwyd yn 2005 wedi canfod bod dros 80 y cant o Aelodau newydd, ar ôl iddynt gael eu hethol am y tro cyntaf, yn blaenoriaethu eu swyddogaethau etholaeth fel yr agwedd bwysicaf ar eu swyddogaeth, cyn craffu a deddfu. Roedd y ffigur hwn yn codi i 90 y cant ar ôl bod yn y swydd am flwyddyn.[33]

148. Efallai bydd y ffaith bod mwy o dechnolegau newydd ar gael, a goblygiadau lleihau nifer yr Aelodau Cymreig yn Senedd y DU[34], hefyd yn effeithio ar lefel y gwaith achos etholaethol neu ranbarthol sy'n wynebu Aelodau.

149. Rydym yn derbyn y bydd gan bob Aelod ei flaenoriaethau unigol, a bod tair prif elfen swyddogaethau Aelod yn plethu â'i gilydd. Fodd bynnag, byddem yn poeni petai cynrychioli etholwyr – yn enwedig drwy waith achos – yn cael ei flaenoriaethu i'r graddau a fyddai'n golygu effaith anghymesur ar yr adnoddau a'r amser sydd ar gael i graffu a deddfwriaeth yn y Pedwerydd Cynulliad.

150. Rhaid i Aelodau ddod o hyd i ffyrdd o gydbwyso tair prif elfen eu swyddogaethau, ynghyd ag unrhyw ddyletswyddau ychwanegol sydd ganddynt, er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau i'r Cynulliad, i'w hetholwyr ac i ddemocratiaeth yng Nghymru. Mae ein Penderfyniad yn ceisio cefnogi Aelodau i daro'r cydbwysedd hwn.

## Casgliadau

151. **Er mwyn diwallu ein prif amcanion, rhaid i'n Penderfyniad gefnogi'r Cynulliad i ddatblygu atebion sydd wedi'u teilwra'n benodol i'r cyd-destun Cymreig a datganoli yng Nghymru.**

---

[33] *T75, Cymdeithas Hansard: A Year in the Life: From Member of Public to Member of Parliament, 2006*

[34] *Lleihau nifer Aelodau Seneddol o ganlyniad i Ddeddf System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau y DU 2011, http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2011/1/contents/enacted/data.htm*

152. **Mae sefydlu'r Bwrdd Taliadau yn rhoi cyfle i ddod o hyd i atebion hyblyg sydd â'u gwreiddiau yng Nghymru gan fwyaf ac sy'n adlewyrchu anghenion penodol Aelodau'r Cynulliad ac amgylchiadau penodol y Cynulliad. Fodd bynnag, ni allwn weithio ar ein pen ein hunain. Yr unig ffordd y bydd ein penderfyniadau'n effeithiol yw os byddant yn ategu gwasanaeth Comisiwn y Cynulliad wrth iddo ddarparu cymorth i'r Cynulliad, y Pwyllgor Busnes wrth iddo drefnu busnes, yr arweinwyr gwleidyddol a chadeiryddion pwyllgorau wrth iddynt sicrhau bod y Cynulliad yn gweithredu'n effeithiol, a Llywodraeth Cymru wrth gefnogi'r Cynulliad i ddatblygu mesurau craffu cadarn ac effeithiol.**

153. **Yn y Pedwerydd Cynulliad, bydd Aelodau'n wynebu nifer o sialensiau newydd ac o'r herwydd mae ein Penderfyniad yn ceisio canolbwyntio adnoddau ar y cymorth y mae arnynt ei eisiau. Ym Mhennod 8 a Phennod 10 rydym wedi ceisio hwyluso defnyddio arbenigedd allanol; i ddarparu ffocws a lefelau priodol o gymorth staffio; ac i argymell ailgynefino cymorth i Aelodau a ddarperir gan y Comisiwn.**

.

# Cyflogau a Phensiynau Aelodau'r Cynulliad

*Yn y bennod hon rydym yn amlinellu sut rydym wedi penderfynu ar lefel cyflog sylfaen Aelodau'r Cynulliad a'n hystyriaeth gychwynnol ynghylch pensiynau'r Aelodau.*

154. Roedd penderfynu ar lefel cyflog sylfaen priodol i Aelodau'r Cynulliad yn sylfaen i'n hystyriaethau ynghylch cymorth ariannol i Aelodau. Mae Adran 13 y Mesur yn mynnu ein bod yn gwneud un Penderfyniad (gan gynnwys mecanwaith uwchraddio, os yw'n briodol) mewn perthynas â chyflog sylfaen Aelodau ar gyfer tymor y Cynulliad i gyd. Os byddwn o'r farn bod amgylchiadau eithriadol yn codi yn ystod Cynulliad sy'n golygu ei bod yn gyfiawn ac yn rhesymol ailystyried lefel cyflogau sylfaen Aelodau, gallwn benderfynu adolygu ein Penderfyniad.

## Trosolwg

155. Roedd y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion wedi cyflwyno argymhellion ar strwythur ar gyfer tâl, lwfansau a phensiynau i Aelodau'r Cynulliad ym mis Ebrill 1998.[35] Roedd y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion wedi gwerthuso swyddogaethau a chyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad mewn perthynas â rhai Aelodau Seneddol a chymaryddion yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Roedd cyflogau Aelodau pob un o'r Cynulliadau datganoledig wedyn yn cael eu gosod fel canran o gyflogau Aelodau Senedd y DU, yn unol â'r canfyddiad o bwysau'r swydd. Roedd cyflogau Aelodau'r Cynulliad yn 74.3 y cant o gyflogau Aelodau Seneddol.

156. Wedyn aeth y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion ati i adolygu tâl Aelodau yn 2001[36] a 2004.[37] Daeth ei adroddiad 2004 i'r casgliad bod cyfrifoldebau Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol wedi dod yn debycach i'w gilydd ac, o'r herwydd, y dylai'r gwahaniaeth rhwng tâl y ddwy swydd fod yn llai, er mwyn i Aelodau gael 76.5 y cant o gyflog Aelod Seneddol.

157. Pan ddaeth Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i rym, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros bennu tâl a lwfansau'r Aelodau i Gomisiwn y Cynulliad. Ym mis Gorffennaf 2007, dilynodd y Comisiwn argymhelliad y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion a phenderfynodd y dylai'r differyn

---

[35] *Adroddiad SSRB rhif 42: Initial Pay, Allowances, Pensions and Severance, Arrangements for: Members of the Scottish Parliament, National Assembly for Wales, Northern Ireland Assembly, 1999*

[36] *Adroddiad SSRB rhif 49: Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Adolygiad o Dâl a Lwfansau 2001*

[37] *Adroddiad SSRB rhif 58: Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Adolygiad o Dâl a Lwfansau 2004*

rhwng Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol aros yn 76.5 y cant.[38] Yn ystod hydref 2007, sefydlodd Comisiwn y Cynulliad ei banel annibynnol cyntaf i ystyried tâl a lwfansau Aelodau, yn enwedig ac ystyried newidiadau i gyfrifoldebau Aelodau sy'n deillio o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.[39]

158. Cyflwynodd y Panel adroddiad ym mis Mawrth 2008 ac argymhellodd y dylid codi cyflog sylfaen Aelod o 76.5 y cant i 82 y cant o gyflog Aelod Seneddol – ac y dylid ei ôl-ddyddio i fis Mai 2007, sef dyddiad yr etholiad Cynulliad blaenorol.[40] Roedd hyn, ynghyd â chynnydd a roddwyd i Aelodau Seneddol o ganlyniad i adroddiad gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion yn 2008[41], wedi arwain at 8.3 y cant o godiad cyflog i Aelodau'r Cynulliad yn 2008. Dewisodd nifer o Aelodau'r Cynulliad beidio â derbyn y cynnydd yn llawn.

159. Roedd y Panel Adolygu Annibynnol wedi argymell y dylai cyflogau Aelodau fod yn gysylltiedig â 75ain canradd enillion Cymru, a arweiniodd at uwchraddio cyflog mis Ebrill 2009 sef £53,108 i £53,852 ym mis Ebrill 2010. Mae hyn yn cymharu â £57,521 i Aelod yn Senedd yr Alban, £43,101 i Aelod yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon a £65,738 i Aelod o Senedd y DU.

## Egwyddorion

160. Mae Adran 3 y Mesur yn rhoi dyletswydd arnom i sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael tâl ar lefel:

> "sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni; ac nad yw, ar sail ariannol, yn atal personau y mae ganddynt yr ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad".

161. Yn ei adroddiad yn 2004 ar Dâl a Lwfansau Seneddol, amlinellodd y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion yr egwyddorion cyffredinol roedd yn eu dilyn i benderfynu ar lefelau tâl priodol. Rydym yn cytuno â'r egwyddor:

> "**pay should reflect levels of responsibility, rather than workload.**"[42]

162. Mae Adran 3 y Mesur hefyd yn mynnu ein bod yn adolygu pa mor briodol yw ein Penderfyniad o ran newidiadau i swyddogaethau Aelodau'r Cynulliad. Fel y disgrifiwyd ym Mhennod 3, rydym yn fodlon ar hyn bryd, na fydd y newid i bwerau deddfu'r Cynulliad o ganlyniad i'r refferendwm ym mis Mawrth 2011 yn arwain at newid sylweddol yn swyddogaethau Aelodau Cynulliad. O'r herwydd rydym wedi barnu y bydd cyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad yn debyg i'r rheini yn y Trydydd Cynulliad ac rydym felly wedi defnyddio cyflogau Aelodau'r Cynulliad ym mis Mawrth 2011 fel ein man cychwyn.

---

[38] *Cyflogau a Lwfansau Aelodau, http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-nafw/abt-commission/abt-commission-agendas.htm?act=dis&id=62539&ds=7/2007, Cofnodion cyfarfod y Comisiwn ar 4 Gorffennaf 2007, http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-nafw/abt-commission/abt-commission-agendas.htm?act=dis&id=62618&ds=7/2007*

[39] *Adroddiad y Panel Annibynnol ar Gymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad, 2008*

[40] *ibid*

[41] *SSRB Determination of MPs' Salary Increases for 2009*

[42] *T4, Adroddiad y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion Rhif 48: Review of Parliamentary Pay and Allowances, Volume I, 2001*

163. Roedd Argymhelliad 11 y Panel Adolygu Annibynnol yn datgan "bydd lefel sylfaenol y cyflog hwn yn cael ei phennu yn unol â'r newid canrannol yn y mynegai enillion cyfartalog ar gyfer Cymru". Goblygiad yr argymhelliad hwn yw y dylai lefel cyflog Aelodau fod a'i wreiddiau yn y cyd-destun Cymreig, egwyddor rydym wedi'i defnyddio gyda'n holl waith.

164. Roedd argymhelliad 8 yn torri'r ddolen awtomatig rhwng tâl Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol, a chafodd yr argymhelliad ei weithredu ar ôl cyhoeddi adroddiad y Panel yn 2009. Rydym yn croesawu gweithredu'r argymhelliad hwn, gan fod y ddolen â Senedd y DU yn mynd yn groes i'r cyd-destun Cymreig y mae'r Cynulliad yn gweithio ynddo.

165. Yn yr un modd a gyda'n holl waith, roeddem yn ymwybodol o'r cyd-destun ariannol ehangach sy'n gefndir i'n Penderfyniad, yn enwedig rhewi cyflogau yn y sector cyhoeddus a'r amodau ansicr sy'n parhau yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Er nad yw'r rhewi cyflogau'n uniongyrchol berthnasol i dâl Aelodau na'u staff, roeddem yn ddiolchgar i Aelodau pob plaid yn y Trydydd Cynulliad am gefnogi rhewi cyflogau'n wirfoddol ar lefelau Mawrth 2011 ar gyfer y pedair blynedd ganlynol. Er nad oedd hyn wedi cyfrannu'n uniongyrchol ar ein hystyriaeth o'r dystiolaeth feintiol, roeddem wedi'i ystyried.

166. Mae'n bwysig nodi mai dim ond i gyflog sylfaen Aelodau y mae'r dystiolaeth sy'n dilyn yn berthnasol. Mae Pennod 6 yn edrych ar gyflogau ychwanegol yr Aelodau sy'n dal swydd ychwanegol.


## Methodoleg

167. Roeddem wedi gwerthuso lefel bresennol y cyflog sylfaen i ganfod a oedd yn briodol yng nghyd-destun Cymru. Roeddem wedi ystyried twf hanesyddol enillion yng Nghymru, y dosbarthiad enillion presennol yng Nghymru, cyflogau sylfaen grwpiau proffesiynol dethol, ac a fyddai'n rhesymol disgwyl y byddai cost cyfle bod yn Aelod Cynulliad yn rhwystro ymgeiswyr sydd â'r ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag sefyll.

168. Roeddem wedi ystyried y newidiadau i lefelau cyflog Aelodau ers sefydlu'r Cynulliad yn 1999 a, drwy ddefnyddio data o'r Arolwg Enillion Cenedlaethol yn 1999[43] a'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn 2010[44], roeddem wedi cymharu cyflogau Aelodau â chyflog gweithiwr canolrifol yng Nghymru, gweithiwr yng Nghymru yn 90ain canradd dosbarthiad enillion Cymru a chategori o enillwyr uchel Cymru o'r enw 'Rheolwyr ac Uwch Swyddogion'. Mae'r canlyniad, a grynhoir yn Ffigur 6, yn dangos bod cyflogau Aelodau wedi cynyddu'n gynt rhwng 1999 a 2010 nag enillion y grwpiau eraill.


[43] *http://www.statistics.gov.uk/statbase/Product.asp?vlnk=13102*
[44] *http://www.statistics.gov.uk/statbase/Product.asp?vlnk=1951*

**Ffigur 6: Newidiadau Hanesyddol i Lefelau Enillion yng Nghymru (1999-2010)**




169. Yn ogystal â meincnodi hanesyddol, roeddem hefyd wedi defnyddio data ASHE i feincnodi lefel cyflog Aelodau yn 2009 drwy gymharu â thaliadau yng Nghymru, cymharu â'r cymedr, y canolrif a'r 50fed, 60ain, 70ain, 80fed a 90ain canraddau enillion ar gyfer pawb sy'n ennill yng Nghymru ac ar gyfer y grŵp 'Rheolwr ac Uwch Swyddogion' fel y dangosir yn Ffigur 7.[45]

**Ffigur 7: Dosbarthiad Enillion Blynyddol ar gyfer Grwpiau Penodol yng Nghymru (2009)**[46]




170. Ein canfyddiadau, ar sail y dybiaeth bod enillion at ei gilydd yn debyg o ddilyn dosbarthiad cromlin cloch arferol, yw bod cyflog sylfaen Aelodau yn 1.7 y cant uchaf dosbarthiad enillion

[45] *Data ASHE 2009*

[46] *Cyfrifiadau'n seiliedig ar ddata 2009 ASHE. Ni chaiff y canradd 90ian ar gyfer Rheolwyr ac Uwch Swyddogion ei ddangos gan nad oes data ar gael*


Cymru gyfan, ac yn 4.8 y cant uchaf dosbarthiad enillion 'Rheolwyr ac Uwch Swyddogion' yng Nghymru, yn ôl data 2009 gan ASHE.[47]

171. Roeddem wedyn wedi profi ein canfyddiadau ar lefelau cyflog yng Nghymru yn erbyn data sydd ar gael yn gyhoeddus ar gyfer swyddogaethau penodol gyda lefelau tebyg o gyfrifoldeb, gan gynnwys penaethiaid sector cyhoeddus, darlithwyr addysg bellach, meddygon a nyrsys ysbytai, meddygon teulu a chyfreithwyr. Rydym wedi ystyried rhewi cyflogau am bedair blynedd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ac yn nodi, gyda chwyddiant, bod hyn yn golygu cwtogiad mewn cyflog. Roeddem felly o'r farn bod sefyllfa cyflogau Aelodau o fewn dosbarthiad enillion Cymru yn deg ac yn briodol.[48]

172. Ar ben hynny roeddem wedi ystyried y gost cyfle enillion a gollir gan y rheini a oedd yn sefyll i fod yn Aelodau, petaent wedi parhau yn y proffesiwn roeddent yn rhan ohono cyn cael y swydd. Roedd y gymhariaeth yn seiliedig ar wybodaeth a oedd ar gael yn gyhoeddus am ddemograffeg a chyflogaeth flaenorol Aelodau'r Trydydd Cynulliad, ac felly roedd yn cael ei thrin fel cymhariaeth ddangosol yn hytrach nag un absoliwt. Roedd y data'n awgrymu nad oedd y rhan fwyaf o'r rheini a oedd yn Aelodau'n debyg o fod wedi dioddef yn ariannol wrth dderbyn y swydd, ar sail cymhariaeth rhwng lefel bresennol cyflog sylfaen Aelodau ac enillion cyfartalog presennol eu proffesiynau blaenorol yng Nghymru.

173. Er bod ein Penderfyniadau wedi cael eu gwneud o fewn cyd-destun Cymreig, roeddem hefyd wedi meincnodi lefelau cyflog yn erbyn y rheini ar gyfer Aelodau deddfwrfeydd eraill y DU fel y dangosir yn Ffigur 8.

**Ffigur 8: Cyflog sylfaen Aelodau Deddfwrfeydd y DU 2004-10**




[47] *http://www.statistics.gov.uk/StatBase/Product.asp?vlnk=15313*

[48] *Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol 2009, Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (http://www.atl.org.uk/pay-and-pensions/pay-scales/payscales-further-education-wales.asp), British Medical journal (http://careers.bmj.com/careers/static/advice-salary-scales.html), Y Coleg Nyrsio Brenhinol 2009, 2010 (http://www.rcn.org.uk/support/pay_and_conditions/pay_rates_2010-2011), Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (http://www.rcgp.org.uk/gp_training/student_forum/life_as_a_gp/gp_earnings.aspx), Cymdeithas y Cyfreithwyr (http://www.lawsociety.org.uk/aboutlawsociety/whatwedo/researchandtrends/researchpubs/view=researchpubsarticle.law?publicationid=421271)*

174. Roedd y data yn dangos bod y cynnydd o 22 y cant mewn cyflogau Aelodau'r Cynulliad rhwng 2004 a 2010 yn fwy na'r cynnydd yn Senedd San Steffan a Senedd yr Alban, ond yn llai na'r cynnydd o 35 y cant a gafwyd yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn adlewyrchu'r newidiadau mawr yng nghyfrifoldebau'r Cynulliad dros y cyfnod sydd wedi cael eu cydnabod gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion ac, mewn blynyddoedd diweddarach, gan y cyrff eraill a sefydlwyd i ystyried tâl Aelodau'r Cynulliad.

175. Ar ôl i ni ystyried y dystiolaeth a oedd ar gael mewn perthynas â lefel cyflog sylfaen Aelodau roeddem wedi penderfynu nad oedd dim rheswm cadarn dros dybio y byddai lefel mis Mawrth 2011 sef £53,852 yn gweithredu fel rhwystr difrifol rhag sefyll am etholiad fel Aelod Cynulliad, hyd yn oed petai enillion Cymru yn codi dros oes y Pedwerydd Cynulliad. Penderfynasom felly y dylai cyflog sylfaen Aelodau fod yn sefydlog ar £53,852 am bedair blynedd o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen.

## Pensiynau Aelodau'r Cynulliad

176. Ar ddechrau Cynllun Pensiwn yr Aelodau, roedd Adran Actiwari'r Llywodraeth wedi cynnal prisiad cychwynnol.[49] Y canlyniad oedd bod cyfradd cyfrannu gyntaf y cyflogwr wedi cael ei gosod ar 18.5 y cant, ac roedd cyfradd cyfrannu'r aelod yn 6 y cant. Mae rheolau'r Cynllun, yn unol â phob cynllun â buddion wedi'u diffinio, yn mynnu bod Actiwari'r Cynllun yn cynnal prisiad bob tair blynedd, ac argymell y gyfradd cyfrannu i'w thalu gan y Cynulliad.

177. Cafodd ailbrisiad ei wneud ar 31 Mawrth 2002.[50] Roedd Actiwari'r Cynllun yn argymell cyfanswm cyfraniad o 27 y cant o gyflogres, gan gynnwys cyfraniad o 6 y cant gan yr aelod, gyda'r Cynulliad yn talu'r 21 y cant arall.

178. Fodd bynnag, ar ddyddiad prisiad 2002 dim ond 78 y cant o'r Cynllun oedd wedi'i gyllido ac roedd diffyg o £0.48 miliwn. Roedd yr Actiwari felly wedi argymell bod y Cynulliad yn talu 2 y cant ychwanegol o'r gyflogres dros 10 mlynedd i ddiwallu'r diffyg. Cyflwynwyd cyfradd cyfrannu o 23 y cant gan y cyflogwr o 1 Ebrill 2003 ymlaen; roedd cyfradd cyfrannu'r aelod yn 6 y cant.

179. Cafodd y prisiad nesaf ei wneud ar 1 Ebrill 2005[51] a chanfu fod 98.7 y cant o'r Cynllun yn cael ei gyllido gyda diffyg o £0.08 miliwn. Roedd y gyfradd cyfrannu a argymhellwyd yn 21.5 y cant o dâl gyda 0.5 y cant ychwanegol o dâl i ddileu'r diffyg dros gyfnod o 10 mlynedd. Roedd cyfraddau cyfrannu'r aelod yn 6 y cant ar gyfer 50fed croniad a 10 y cant ar gyfer 40fed croniad. Dywedodd yr Ymddiriedolwyr y byddai arnynt eisiau parhau cyfraniadau'r Cynulliad ar y gyfradd a argymhellwyd yn y prisiad blaenorol, 23 y cant o dâl, oherwydd ansicrwydd cynlluniau buddion wedi'u diffinio.

---

[49] *Adroddiad SSRB rhif 42: Initial Pay, Allowances, Pensions and Severance, Arrangements for: Members of the Scottish Parliament, National Assembly for Wales, Northern Ireland Assembly, 1999*

[50] *Prisiad Actiwaraidd Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Ebrill 2002, http://www.cynulliadcymru.org/hom-pdfviewer?url=n000000000000000000000000000009770*

[51] *Adroddiad Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Actiwari'r Llywodraeth ar y Prisiad Actiwaraidd ar 1 Ebrill 2005, http://www.cynulliadcymru.org/hom-pdfviewer?url=n000000000000000000000000000043158*

180. Cafodd y prisiad diweddaraf ei gynnal ar 1 Ebrill 2008.[52] Ar yr adeg hon roedd 99.7 y cant o'r Cynllun yn cael ei gyllido gyda diffyg o £0.04 miliwn. Argymhelliad Actiwari'r Cynllun oedd cynyddu'r gyfradd cyfrannu ar gyfer gwasanaeth yn y dyfodol i 23.7 y cant gan ychwanegu 0.1 y cant i ddileu'r diffyg dros 15 mlynedd. Yn unol â'r cyngor hwn, mae'r Cynulliad wedi talu cyfradd cyfrannu o 23.8 y cant er 1 Ebrill 2009. Roedd cyfraddau cyfrannu aelodau yn 6 y cant ar gyfer 50fed croniad ac yn 10 y cant ar gyfer 40fed croniad.

181. Fel y nodir ym Mhennod 2 penderfynasom y dylid gohirio adolygiad llawn o bensiynau Aelodau'r Cynulliad nes cael adroddiad terfynol y Comisiwn Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus Annibynnol, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Hutton, a bod prisiad actiwaraidd Cynllun Pensiwn yr Aelodau ar 1 Ebrill 2011 ar gael. Cawn ar ddeall bod yr Ymddiriedolwyr Pensiwn yn bwriadu cynnal trafodaethau cychwynnol gydag Actiwari'r Cynllun gyda dangosyddion o ganlyniad tebygol y prisiad bob tair blynedd ar gael i ni yn ystod hydref 2011.

182. Argymhelliad 16 y Panel Adolygu Annibynnol oedd na ddylai'r gyfradd cyfrannu safonol a gyllidir gan y Comisiwn fod ddim mwy na'i lefel bresennol sef 23.8 y cant. Roeddem wedi penderfynu defnyddio hwn fel Penderfyniad dros dro gan ddisgwyl am ein hadolygiad llawn o Gynllun Pensiwn Aelodau.

183. Mae'r Ymddiriedolwyr Pensiwn wedi gwneud nifer o gynigion yn ddiweddar ar gyfer newidiadau i reolau'r cynllun, ac rydym wedi ystyried y rhain yn unol â'r egwyddor sy'n ein harwain sef na ddylem wneud newidiadau sylweddol cyn yr adolygiad llawn yn gynnar yn ystod y Cynulliad nesaf. O ganlyniad i gyngor cyfreithiol a nododd na ddylai cymeradwyo rhai ohonynt gael ei ohirio tan ein hadolygiad llawn o Gynllun Pensiwn yr Aelodau, roeddem wedi cymeradwyo rhai o'r newidiadau y gwnaed cais amdanynt. Bydd Cynllun Pensiwn yr Aelodau, gan gynnwys y newidiadau hynny i'r rheolau fel y cytunwyd arnynt, ar gael ar wefan y Cynulliad cyn bo hir.

## Casgliadau

184. **Mae'r dystiolaeth yn dangos bod cyflog sylfaen Aelodau'r Cynulliad wedi cynyddu'n hanesyddol ar gyfradd uwch na phoblogaeth Cymru drwyddi draw ac, ar hyn o bryd, bod cyflog sylfaen Aelodau yn agos at frig y dosbarthiad enillion. Rydym yn cydnabod, gan ystyried chwyddiant, bod yr Aelodau wedi cytuno i rewi cyflogau ar lefelau Mawrth 2011 ar gyfer pedair blynedd sydd, i bob pwrpas, yn gwtogiad cyflog.**

185. **Ymddengys fod adolygiad lefel gronnus o gost cyfle enillion a gollir gan Aelodau'r Trydydd Cynulliad yn dangos mai cymharol brin yw'r Aelodau, yn bennaf y rheini sydd â chefndir mewn meddygaeth neu'r gyfraith, fyddai wedi cael cost cyfle a fyddai'n debyg o fod yn ddigon uchel i weithredu fel rhwystr posibl i eraill am resymau ariannol yn unig.**

186. **Ar ôl ystyried y dystiolaeth a oedd ar gael mewn perthynas â lefel cyflog sylfaen Aelodau roeddem wedi penderfynu nad oedd dim rheswm cadarn dros dybio y byddai lefel £53,852 yn**

[52] *Adroddiad Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Actiwari'r Llywodraeth ar y Prisiad Actiwaraidd ar 1 Ebrill 2008, http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=129259&ds=5/2009*

**gweithredu fel rhwystr difrifol rhag sefyll am etholiad fel Aelod Cynulliad, hyd yn oed petai enillion Cymru yn codi dros oes y Pedwerydd Cynulliad. Caiff y farn hon ei chefnogi gan ystyriaethau o'r pecyn cyfan o daliadau sydd ar gael i Aelodau, gan gynnwys y potensial i ddal swyddi sy'n cynnig tâl ychwanegol a Chynllun Pensiwn yr Aelodau.**

187. **Gan ystyried y dystiolaeth, daethom i'r casgliad ei bod yn briodol cadw cyflog sylfaen presennol Aelodau sef £53,852 am y pedair blynedd o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad. O ganlyniad i'r penderfyniad hwn, nid oes angen cyflwyno mecanwaith uwchraddio ar hyn o bryd. Rydym yn dal i adolygu'r mater os cyfyd amgylchiadau eithriadol, megis estyniad i dymor y Pedwerydd Cynulliad.**

188. **Argymhelliad 16 y Panel Adolygu Annibynnol oedd na ddylai'r gyfradd cyfrannu safonol ar gyfer pensiynau a gyllidir gan y Comisiwn fod ddim mwy na'i lefel bresennol sef 23.8 y cant. Roeddem wedi penderfynu defnyddio hwn fel Penderfyniad dros dro gan ddisgwyl am ein hadolygiad llawn o Gynllun Pensiwn Aelodau.**

## Ystyriaethau yn y Dyfodol

189. Wrth gyrraedd ein casgliadau – ac yn unol â'n hamcanion allweddol o ddatblygu gallu strategol y Cynulliad – daethom o hyd i nifer o faterion y byddwn yn ailedrych arnynt er mwyn cyfrannu at ein Penderfyniad ynghylch y pecyn taliadau cyfan ar gyfer y Pumed Cynulliad, mewn modd amserol. Bydd hyn yn cynnwys monitro effaith ein Penderfyniad presennol a phosibilrwydd ystyried demograffeg y Cynulliad a etholir ym mis Mai 2011, gyda golwg ar weld a yw ystyriaethau ariannol yn rhwystro grwpiau a dangynrychiolir rhag ceisio cael eu hethol. Rydym hefyd yn debyg o gynnal dadansoddiad o gyfrifoldebau a phwysau swydd Aelod i asesu a yw lefel cyflog sylfaen cynrychiolwyr etholedig yn dal yn briodol ac i ystyried gwerth y pecyn taliadau yn ei gyfanrwydd, gan ystyried yr holl elfennau gwahanol, gan gynnwys cyflog sylfaen, cyflogau deiliaid swyddi a phensiynau.

# Cyflogau Deiliaid Swyddi

*Mae'r bennod hon yn cynnwys yr egwyddorion sy'n sail i'n hagwedd at y cyflogau sy'n daladwy i Aelodau'r Cynulliad sy'n dal swyddi ychwanegol; a'n Penderfyniad ar lefelau priodol taliadau atodol o'r fath.*

190. Mae Adran 13 y Mesur yn mynnu ein bod yn gwneud un Penderfyniad mewn perthynas â lefelau cyflog Aelodau pob Cynulliad gan gynnwys ystyried unrhyw gyflogau ychwanegol a fydd yn daladwy i ddeiliaid swyddi.

## Cyflogau Deiliaid Swyddi yn y Cynulliad

191. Yn ei adroddiad yn 2001 ar dâl a lwfansau Aelodau'r Cynulliad[53], roedd y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion wedi ystyried maint bach y Cynulliad, ymrwymiadau pwyllgor Aelodau a gofynion cydlynu pleidiau. Roedd y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion wedi meincnodi swyddogaethau yn y Cynulliad drwy eu cymharu â swyddogaethau yn Senedd y DU, ac wedi cyflwyno argymhellion ar lefelau cyflog am y swyddogaethau hynny sy'n golygu cyflogau ychwanegol i ddeiliaid swyddi. Cafodd y swyddogaethau hyn eu gwerthuso ymhellach gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion yn 2004[54], pan ystyriodd y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan PricewatehouseCoopers i asesu'r sgiliau a'r cymwyseddau yr oedd eu hangen i gyflawni swyddogaethau deiliaid swyddi ac adnabod a meincnodi'r cyfrifoldebau yn erbyn cymaryddion priodol.

192. Rhoddodd Comisiwn y Cynulliad ragor o ystyriaeth i'r cyflogau ychwanegol a oedd yn daladwy i ddeiliaid swyddi yn 2008, ar ôl argymhellion y Panel Adolygu cyntaf[55] ar dâl a lwfansau Aelodau, ac argymhellion llafar ychwanegol dilynol gan y Comisiynydd a oedd wedi bod yn aelod heb bleidlais o'r Panel Adolygu cyntaf. Penderfynodd y Comisiwn wedyn ymestyn nifer y swyddi a oedd yn gymwys i gael cyflogau ychwanegol. Fodd bynnag, nid oedd modd i ni ganfod pam cafodd y penderfyniad hwn ei wneud, y dystiolaeth roedd yn seiliedig arni, na'r dull a ddefnyddiodd y Comisiwn i gyrraedd lefelau'r cyflogau.

193. Yn ei adolygiad cynhwysfawr o dâl a lwfansau Aelodau ym mis Gorffennaf 2009, dywedodd yr ail Banel Adolygu Annibynnol nad oedd wedi cael llawer o dystiolaeth am gyflogau deiliaid swyddi. Nododd mai'n debyg bod cyfran uchel yr Aelodau sydd â swyddi o'r fath yn deillio o faint bach y Cynulliad a nododd y byddai'n anghyson cynnal dolen rhwng cyflogau deiliaid swyddi yn y

---

[53] *Adroddiad SSRB rhif 49: Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Adolygiad o Dâl a Lwfansau 2001*
[54] *Adroddiad SSRB rhif 58: Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Adolygiad o Dâl a Lwfansau 2004*
[55] *Adroddiad y Panel annibynnol ar Gymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad, 2008 http://www.assemblywales.org/firstreport-salaries.pdf*

Cynulliad a deiliaid swyddi yn Senedd y DU, wrth argymell torri'r ddolen rhwng cyflogau sylfaen. Argymhellodd felly lefelau cyflogau ar gyfer deiliaid swyddi, a dywedodd y dylid addasu'r lefelau hyn yn gymesur â lefel y cyflog sylfaen.


194. Erbyn diwedd y Trydydd Cynulliad, roedd 41 o swyddi'n gymwys i gael cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol. Os bydd Aelodau'n dal mwy nag un swydd ychwanegol, dim ond yr uchaf o'r cyflogau ychwanegol y cânt ei hawlio. Mae ffigur 9 yn dangos y datblygiadau o ran talu cyflogau ychwanegol ar gyfer deiliaid swyddi yn y Cynulliad er 2001.

**Ffigur 9: Cyflogau Deiliaid Swyddi yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru**

| Swydd | Ebrill 2001 | Ebrill 2004 | Ebrill 2007 | Ebrill 2008 | Ebrill 2010 | Cyfanswm cyflog (gan gynnwys y lefel sylfaenol) Ebrill 2010 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaen | 35,437 | 42,283 | 46,804 | 50,692 | 53,852 | 53,852 |
| Y Prif Weinidog | 66,173 | 72,863 | 77,546 | 78,355 | 80,870 | 134,722 |
| Gweinidog Cymru | 34,437 | 37,797 | 40,225 | 40,645 | 41,949 | 95,801 |
| Y Cwnsler Cyffredinol | - | - | 40,225 | 40,645 | 41,949 | 95,801 |
| Y Llywydd | 34,237 | 37,797 | 40,225 | 40,645 | 41,949 | 95,801 |
| Arweinydd yr wrthblaid fwyaf | 34,237 | 37,797 | 40,225 | 40,645 | 41,949 | 95,801 |
| Dirprwy Weinidog | - | - | 25,301 | 25,566 | 26,386 | 80,688 |
| Y Dirprwy Lywydd | 17,807 | 23,675 | 25,301 | 25,566 | 26,385 | 80,688 |
| Prif Chwip y Llywodraeth | - | - | - | 25,566 | 26,385 | 80,688 |
| Arweinwyr y gwrthbleidiau (ac eithrio'r fwyaf) | - | - | - | 11,331 | 12,168 | 66,020 |
| Comisiynydd y Cynulliad | - | - | - | 11,331 | 12,168 | 66,020 |
| Prif Chwip Gwrthblaid | - | - | - | 11,331 | 12,168 | 66,020 |
| Cadeiryddion pwyllgor (lefel uwch) | - | 5,507 | 5,934 | 11,331 | 12,168 | 66,020 |
| Cadeiryddion pwyllgor (lefel is) | - | - | - | 5,934 | 8,112 | 61,964 |

195. Mae Ffigur 10 yn dangos lefel y cyflogau ychwanegol, wedi'u mynegi fel canran o gyflog sylfaen Aelodau.

**Ffigur 10: Cyflogau Deiliaid Swyddi fel Canran o Gyflog Sylfaen Aelodau ym mis Mawrth 2011**




## Y Sefyllfa Mewn Deddfwrfeydd Eraill

196. Er bod pob deddfwrfa yn y DU yn rhoi cyflogau ychwanegol i nifer o ddeiliaid swyddi, ceir cryn amrywiadau o ran pwy sy'n gymwys a faint sy'n cael ei dalu. O ganlyniad i adroddiadau amrywiol y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion ac adroddiadau eraill a baratowyd ar gyfer pob deddfwrfa ar adegau gwahanol dros y deng mlynedd diwethaf yn benodol, bu rhywfaint o iteriad a chroes ddibyniaeth ar ganfyddiadau un ddeddfwrfa gan y deddfwrfeydd eraill, gyda ffocws trwm ar y sefyllfa yn Senedd y DU.

**Ffigur 11: Cyflogau Deiliaid Swyddi yn Neddfwrfeydd y DU 2010-11**[56]

| | Cymru | Yr Alban | Gogledd Iwerddon | Senedd y DU |
|---|---|---|---|---|
| Cyflog Sylfaen | 53,852 | 57,521 | 43,101 | 65,738 |
| Y Prif Weinidog | 80,870 | 83,326 | 71,434 | 132,923 |
| Gweinidogion Cabinet | 41,949 | 43,227 | 37,801 | 79,754 |
| Dirprwy Weinidogion | 26,385 | 27,077 | 19,609 | 41,370 |
| Y Llywydd/Llefarydd | 41,949 | 43,227 | 37,801 | 79,754 |
| Dirprwy Lywydd/Dirprwy Lefarydd | 26,385 | 27,077 | 8,500 | 36,360 |
| Prif Chwip y Llywodraeth | 26,385 | - | - | 79,754 |
| Prif Chwip Gwrthblaid | 12,168 | - | - | 41,370 |

[56] *http://www.parliament.uk/documents/commons/lib/research/briefings/snpc-05436.pdf, http://www.scottish.parliament.uk/business/research/briefings-10/SB10-56.pdf*

| | Cymru | Yr Alban | Gogledd Iwerddon | Senedd y DU |
|---|---|---|---|---|
| Arweinydd y brif blaid nad yw yn y Cabinet | 41,950 | -[57] | - | 73,617 |
| Arweinwyr y gwrthbleidiau ac eithrio'r fwyaf | 12,168 | -[58] | - | - |
| Cadeiryddion pwyllgorau | 12,168 neu 8,112 | - | 11,331 | 14,582 |
| Comisiynwyr | 12,168 | - | 11,331 | - |

197. Mae Senedd y DU oddeutu un ar ddeg gwaith yn fwy na'r Cynulliad o ran nifer yr Aelodau ac mae'n ysgwyddo baich deddfwriaethol a llywodraeth uwch/ehangach o lawer. Rydym o'r un farn â'r Panel Adolygu Annibynnol bod y rhesymau hyn ac eraill yn golygu nad yw'n briodol cynnal y ddolen rhwng "elfennau cyfatebol" cyflogau deiliaid swyddi yn Senedd y DU, er efallai fod rhywfaint o rinwedd yn perthyn i gymharu swyddogaethau a chyfrifoldebau wrth ddatblygu gofynion swyddogaethau a chyfrifoldebau swyddi yng Nghymru.

## Egwyddorion

198. Fel y nodir ym Mhennod 5, mae ein penderfyniadau ar dâl yn seiliedig ar egwyddor y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion sef:

> "pay should reflect levels of responsibility, rather than workload"[59]

199. Rydym yn cytuno bod yr egwyddor hon yn arbennig o briodol wrth ystyried cyflogau ychwanegol ar gyfer deiliaid swyddi.

200. Roeddem wedi archwilio i ba raddau roedd deiliaid swyddi yn gyfrifol am gyfrannu at gyfeiriad strategol a chapasiti'r Cynulliad. Roeddem wedi ystyried i ba raddau roedd cyflogau ychwanegol yn cyfrannu at gynyddu capasiti strategol y Cynulliad. Roeddem wedyn wedi adolygu sut gellid canolbwyntio cyflogau o'r fath ar y swyddi hynny sy'n arwain ac yn gyrru ei swyddogaethau strategol.

201. Gwnaethom adolygu lefelau cyflogau ychwanegol yng ngoleuni ein Penderfyniad ar lefelau cyflog sylfaen Aelodau, fel y trafodir ym Mhennod 5. Cafodd ein penderfyniadau eu gwneud felly yng nghyd-destun rhewi lefel cyflogau Aelodau am bedair blynedd o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen.

## Methodoleg

202. Er mwyn casglu tystiolaeth ar swyddogaethau deiliaid swyddi, cyfarfûm â deiliaid pob math o swyddi a defnyddio canlyniadau ein harolwg, a oedd yn gofyn i Aelodau am y cyfrifoldebau

[57] *Caiff arweinwyr pleidiau lwfans y gallant hawlio treuliau yn ei erbyn a wariwyd yn benodol fel rhan o'u dyletswyddau fel arweinydd plaid. Swm uchaf y lwfans mae modd ei hawlio mewn blwyddyn ariannol yw: £13,591 mewn perthynas â phlaid wleidyddol gofrestredig gyda phymtheg ond dim mwy na dau ddeg naw aelod; a £25,907 mewn perthynas â phlaid wleidyddol gofrestredig sydd â thri deg neu fwy o aelodau*

[58] *Gweler troednodyn 57 uchod.*

[59] *T4, Adroddiad y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion Rhif 48: review of parliamentary pay and allowances, Volume I, 2001*


ychwanegol a oedd ynghlwm wrth eu swydd ac a oedd cyflog ychwanegol wedi bod yn ffactor yn eu penderfyniad i dderbyn y swydd.

203. Dywedodd pymtheg o'r 17 o ddeiliaid swyddi a ymatebodd i'r arolwg nad oedd gan y cyflog ychwanegol fawr ddim dylanwad os o gwbl ar eu cymhelliant i dderbyn y swydd, gan ddweud eu bod wedi cael eu cymell gan:

> "the desire to serve and make a difference."
>
> "the enhanced chance to make a difference in a policy area about which I feel passionately and [...] a drive to hold the government to account."
>
> "interest in the field and in scrutiny and policy development."
>
> "it is a huge privilege to be a member of the Welsh Assembly Government."

204. Roedd hyn yn awgrymu i ni nad lefel y cyflogau ychwanegol yw'r prif reswm sy'n cymell Aelodau i dderbyn swydd. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r rheini sydd â swyddi ac a roddodd dystiolaeth i ni eu bod yn credu bod lefel y cyflog yn iawn yn eu barn nhw. Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn i Aelodau pe na baent yn dal swyddi ar hyn o bryd, beth fyddai'n eu cymell i sefyll am swydd. Roedd yr atebion a gawsom yn sôn am gymryd rhan mewn penderfyniadau a mwy o ddylanwad, nid oedd neb wedi cyfeirio at arian fel rhywbeth a oedd yn eu cymell. Roeddem wedi gofyn i Aelodau roi eu barn ynghylch a oeddent yn credu a ddylid talu cyflogau ychwanegol i ddeiliaid swyddi gwahanol, ac mae Ffigur 12 yn dangos canlyniadau hyn.

**Ffigur 12: Safbwyntiau'r Aelodau a Ymatebodd ar Gyflogau Deiliaid Swyddi Ychwanegol**




205. Roeddem wedyn wedi rhannu'r swyddi yn bedwar categori cyffredinol, ac ystyried pob un yn ei dro:

− y rheini sy'n bwysig i weithrediad y Weithrediaeth;

− y swyddi hynny sy'n bwysig o ran arweinyddiaeth wleidyddol;

− y rheini sy'n gyfrifol am weithredu'r corff corfforaethol; ac

− y rheini sy'n gyrru gweithrediad y Cynulliad fel corff deddfwriaethol a chraffu.

206. Er bod rhywfaint o dystiolaeth hanesyddol a chyfredol ar gael am gyfrifoldebau a swyddogaethau'r swyddi sy'n cynnig cyflogau ychwanegol, nid oedd llawer ohoni ac roedd yn aneglur weithiau. Nid yw'n gosod lefelau cyflog o'r fath mewn cyd-destun tâl Cymreig nac yn ystyried newidiadau posibl yn rhai o'r swyddogaethau hyn yn y Pedwerydd Cynulliad. O ganlyniad, rydym wedi gorfod penderfynu ar rai o'r cyflogau hyn ar sail dros dro, gan egluro y byddwn yn ailystyried ein penderfyniadau cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl dechrau'r Pedwerydd Cynulliad. Mewn achosion eraill rydym wedi gallu gwneud Penderfyniad terfynol, ond rydym yn cydnabod y bydd angen adolygiad llawn ar sail tystiolaeth mewn da bryd ar gyfer y Pumed Cynulliad.

### Llywodraeth Cymru

207. Yn ei adolygiadau o dâl a lwfansau yn y Cynulliad, roedd y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion wedi ystyried cyfrifoldeb pob Gweinidog dros raglenni gwario amrywiol, datblygu a gweithredu polisïau a hybu buddiannau Cymru.[60] Yn hanesyddol roedd y swyddogaethau wedi cael eu meincnodi yn ôl swyddogaethau yn San Steffan er mwyn penderfynu ar lefel y cyflog ychwanegol. Cyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006, nid oedd swydd y Cwnsler Cyffredinol yn bodoli ac roedd Dirprwy Weinidogion dim ond yn cael eu penodi ar sail gyfyngedig ac anstatudol ac felly nid oedd dim cyflogau ychwanegol yn cael eu talu ar gyfer y swyddi hynny. Fodd bynnag, ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym yn 2007, roedd angen darpariaeth ar gyfer swyddogaeth newydd y Cwnsler Cyffredinol ac roedd hyd a lled swyddogaethau'r Dirprwy Weinidogion yn gliriach a phenderfynodd y Comisiwn y byddai'n briodol rhoi cyflogau ychwanegol ar gyfer y swyddi hynny.[61]

208. Fel y mae Ffigur 12 yn dangos, roedd yr Aelodau a ymatebodd i'n harolwg yn unfrydol eu barn y dylai'r Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion gael cyflogau ychwanegol i adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol roeddent yn eu hysgwyddo. Rydym o'r un farn ag aelodau mewn perthynas â'r swyddi hyn, a gyda rhan fwyaf o'r Aelodau mewn perthynas â swydd y Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol.

209. Er bod gennym rywfaint o dystiolaeth hanesyddol ac ychydig o dystiolaeth gyfredol, nid ydym eto'n deall yn llawn yr ystod o gyfrifoldebau a sgiliau penodol y mae eu hangen ar gyfer y swyddogaethau Gweinidogol hyn, sut gallent newid yn y Pedwerydd Cynulliad, ac sut maent yn 'ffitio' yng nghyd-destun Cymru. Penderfynasom felly y byddai'n briodol cynnal lefel y cyflogau

---

[60] *Adroddiad SSRB rhif 49: National Assembly for Wales: review of pay and allowances, 2001*

[61] *Cyflogau a Lwfansau Aelodau, http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-nafw/abt-commission/abt-commission-agendas.htm?act=dis&id=62539&ds=7/2007, Cofnodion cyfarfod y Comisiwn ar 4 Gorffennaf 2007, http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-nafw/abt-commission/abt-commission-agendas.htm?act=dis&id=62618&ds=7/2007*

ar gyfer Gweinidogion ar lefel Mawrth 2011 am bedair blynedd o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen. Fodd bynnag byddwn yn gweithio gyda'r deiliaid swyddi hyn i ddatblygu fframwaith digonol ar gyfer tâl o ddechrau'r Pumed Cynulliad, gan ystyried tystiolaeth ychwanegol ar y cyfrifoldebau a'r sgiliau y mae eu hangen.

### Arweinwyr Gwleidyddol

210. Ein hail gategori o swyddi ychwanegol yw arweinwyr gwleidyddol yn y Cynulliad. Edrychom yn gyntaf ar waith y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion yn y maes hwn ar draws deddfwrfeydd y DU. Wrth ystyried tâl a lwfansau yn Senedd yr Alban, canfu Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion fod swyddogaeth arweinydd y blaid fwyaf heb swyddogaeth weithredol yn wleidyddol bwysig ac yn drwm o ran baich rheoli, ac awgrymodd y dylid rhoi tâl am ei chyflawni. [62] Roedd Senedd yr Alban o'r farn, mewn deddfwrfa a etholir yn gyfrannol, y dylai arweinwyr gwrthbleidiau dderbyn lwfans arweinydd yn lle cyflog ychwanegol, wedi'i bwyso yn ôl nifer yr Aelodau yn eu plaid.

211. Yn 2004, nid oedd y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion wedi cyflwyno argymhelliad i newid lefel y cyflog a oedd yn daladwy i Arweinydd Gwrthbleidiau, a oedd ar yr un gyfradd â Gweinidogion Cymru. Roedd adroddiad 2004 hefyd yn trafod cyflogau arweinwyr pleidiau eraill, gan awgrymu y gallai'r Cynulliad ystyried hyn gyda golwg ar osgoi polareiddio'r llywodraeth a'r gwrthbleidiau fel a geir yn Senedd y DU a chefnogi ethos cymesuredd sydd wedi'i wreiddio yn system etholiadol y Cynulliad.[63]

212. Cafodd y safbwynt hwn ei gymeradwyo gan y Panel Adolygu cyntaf yn 2008, a oedd o'r farn bod arweinwyr pleidiau yn gweithredu fel cynrychiolydd o'r blaid a'r grŵp yn y Cynulliad; yn gyfrifol am gyflogi grŵp o staff; nad yw'r Cynulliad yn seiliedig ar fodel dwy blaid; a'r protocol a sefydlir yn y Cynulliad oedd i drin pob grŵp gwleidyddol yn gyfartal.[64]

213. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd llwyr pleidiau gwrthblaid o ran dal Llywodraeth Cymru i gyfrif. Fodd bynnag, oherwydd na fydd cynrychiolaeth y pleidiau gwleidyddol yn y Pedwerydd Cynulliad yn hysbys tan ar ôl yr etholiad, ac oherwydd na chawsom ddigon o dystiolaeth am swyddogaethau a chyfrifoldebau, nid ydym eto wedi gwneud penderfyniad ar lefel y cyflog ychwanegol sydd i'w dalu i arweinwyr y gwrthbleidiau. Rydym felly'n bwriadu ailedrych ar hyn yn fuan ar ôl etholiad Mai 2011, a byddwn yn gosod lefelau priodol y cyflogau sy'n daladwy i arweinwyr gwrthbleidiau ar yr adeg honno, a chânt eu hôl-ddyddio i'r dyddiad penodi.

214. Y swyddi arweinyddiaeth wleidyddol eraill yw chwipiaid y pleidiau a'r rheolwyr busnes. Mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny roeddem unwaith eto wedi edrych i ddechrau ar ystod o ffynonellau tystiolaeth eraill gan gynnwys y sefyllfa mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU. Wrth i'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion ystyried tâl a lwfansau yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon yn 2008, dywedodd fod y swyddogaeth yn cynnwys cyfuniad o fusnes Cynulliad a

---

[62] *P7, SSRB report no. 50: Scottish Parliament: review of pay and allowances 2001*

[63] *Tud, Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion rhif 58: National Assembly for Wales: Adolygiad o dâl a lwfansau 2004*

[64] *Report of the Independent Panel on financial support for Assembly Members, 2008, http://www.assemblywales.org/firstreport-salaries.pdf*

busnes pleidiol wleidyddol, ac argymhellodd ei fod felly'n fater i'r Cynulliad bennu a ddylai chwipiaid gael cyflogau ychwanegol, ond os oeddent yn gymwys, dylai'r cyflog hwnnw fod yn swm sy'n cyfateb i hwnnw mae Cadeiryddion Pwyllgorau yn ei gael.[65]

215. Yn 2008 nododd Panel Annibynnol cyntaf y Cynulliad "that to recommend an additional salary for any of the party whips would be out of line with the other UK devolved institutions, but there is no reason that the Assembly should not follow its own path if this is suggested by the evidence". Nododd hefyd iddo glywed yn Senedd y DU bod prif chwipiaid y llywodraeth a gwrthbleidiau yn cael cyflog i gydnabod eu cyfrifoldebau ychwanegol mewn perthynas â busnes y Tŷ.[66] Fodd bynnag, daeth y Panel i'r casgliad nad oedd yn teimlo bod ganddo ddigon o dystiolaeth i argymell lefel briodol o gyflog ar gyfer chwipiaid pleidiau – gan nodi nad oedd chwipiaid pleidiau wedi cael cyflog ychwanegol cyn 1 Ebrill 2008. Roedd y Comisiwn wedi ystyried argymhellion llafar gan y Comisiynydd a oedd wedi bod ar y panel fel aelod heb bleidlais, a phenderfynodd y dylai prif chwip gwrthblaid gael cyflog sy'n cyfateb i gyflog cadeirydd pwyllgor, pan oedd y prif chwip hefyd yn rheolwr busnes, a dylai prif chwip y llywodraeth gael cyflog sy'n cyfateb i gyflog Dirprwy Weinidog.[67]

216. Mae'r rhesymwaith dros benderfyniadau'r Comisiwn mewn perthynas â chwipiaid pleidiau ym mis Ebrill 2008 a'r dystiolaeth sy'n eu hategu yn aneglur. Nid oedd y dystiolaeth a gawson – yn seiliedig gan fwyaf ar drafodaethau gydag Aelodau a'n harolwg – wedi rhoi dealltwriaeth glir i ni o gyfrifoldebau cyffredinol swyddogaeth y chwip yn y Trydydd Cynulliad, na'r cyfrifoldebau tebygol yn y Pedwerydd Cynulliad, yn enwedig gan gofio'r ffaith mai dim ond 60 Aelod sydd gyda'i gilydd. Ar ben hynny, roedd diffyg eglurder o ran pa agweddau ar swyddogaeth y chwip sydd at ddibenion busnes y Cynulliad a pha rai sy'n bleidiol wleidyddol.

217. Rydym o'r farn bod angen rhagor o dystiolaeth arnom nag oedd yn bosibl i ni ei chasglu yn yr amser a oedd ar gael, ar gyfrifoldebau'r chwipiaid y Llywodraeth a'r gwrthbleidiau cyn gallu gwneud Penderfyniad terfynol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod swyddogaeth y chwipiaid yn golygu bod rhywfaint o dâl ychwanegol yn briodol ar sail y wybodaeth a gafwyd. Ac ystyried arweinwyr pleidiau felly, nid oeddem yn gallu gwneud penderfyniad ar lefel briodol y cyflog sy'n daladwy i'r Llywodraeth a phrif chwipiaid gwrthbleidiau. Byddwn yn adolygu lefel y cyflog, a gaiff ei ôl-ddyddio i'r dyddiad penodi, ar y cyfle cyntaf ar ôl dechrau'r Pedwerydd Cynulliad, yng ngoleuni cynrychiolaeth pleidiau yn y Cynulliad ar ôl yr etholiad a rhagor o dystiolaeth a gawn ar swyddogaethau a chyfrifoldebau'r chwipiaid.

### Comisiynwyr a Llywyddion

218. Ein trydydd categori o ddeiliaid swyddi oedd y rheini sy'n gyfrifol am weithrediad effeithiol y Cynulliad fel deddfwrfa a Chomisiwn y Cynulliad fel corff corfforaethol. Ers gwahanu'r Cynulliad oddi wrth Lywodraeth Cymru yn 2007, mae Comisiwn y Cynulliad, dan gadeiryddiaeth y

---

[65] *T16, Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion rhif 67: Northern Ireland Assembly: Adolygiad o Dâl, Pensiynau a Lwfansau 2008*

[66] *Adroddiad y Panel Annibynnol ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad, 2008*

[67] *Cofnodion cyfarfod y Comisiwn ar 6 Mawrth 2008, http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-nafw/abt-commission/abt-commission-agendas.htm?act=dis&id=84095&ds=3/2008*

Llywydd, wedi bod yn gyfrifol am ddarparu staff, eiddo a gwasanaethau i'r Cynulliad er mwyn iddo allu cyflawni ei waith.

219. Mae Comisiynwyr y Cynulliad yn gyfrifol am osod y cyfeiriad strategol ar gyfer y gwasanaethau sy'n cefnogi'r Cynulliad ac sy'n ei alluogi i weithredu. Maent yn gyfrifol yn gorfforaethol am lywodraethu'r sefydliad, am reoli a defnyddio arian cyhoeddus yn gywir ac yn briodol i gefnogi'r Cynulliad, ac am arfer swyddogaethau a roddwyd i'r Comisiwn drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

220. Cawsom ein darbwyllo gan y dystiolaeth a roddwyd i ni ar swyddogaethau'r Comisiwn y dylai Comisiynwyr gael tâl ychwanegol. Mae'r dystiolaeth a gawsom gan yr Aelodau yn yr arolwg yn awgrymu nad yw pob Aelod Cynulliad o'r un farn â ni. Fodd bynnag, mae'r sylwadau naratif gan Aelodau a'r trafodaethau a gawsom yn ein colocwiwm ym mis Rhagfyr 2010, wedi awgrymu i ni nad oedd Aelodau'n glir ynghylch y swyddogaeth a gyflawnwyd gan Gomisiynwyr ac arwyddocâd eu cyfrifoldebau. Nid oedd ein hadolygiad o ddatblygu cyflogau Comisiynwyr wedi ein darbwyllo fodd bynnag bod lefel bresennol y cyflog yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Rydym felly wedi penderfynu, dros dro, y dylai cyflogau Comisiynwyr barhau i fod yn gydradd â'r cyflogau a delir i gadeiryddion y prif bwyllgorau. Gall lefel y cyflog newid o ganlyniad i'n hadolygiad o gyflogau deiliaid swyddi eraill, gan gynnwys cadeiryddion pwyllgorau.

221. Yn ogystal â'i swyddogaeth fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad mae gan y Llywydd gyfrifoldebau ychwanegol fel y pennir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ac yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad. Mae modd i'r Dirprwy Lywydd ysgwyddo'r cyfrifoldebau hyn gan fwyaf os bydd y Llywydd yn absennol neu os bydd y Llywydd yn gofyn iddo wneud hynny. Mae'r cyfrifoldebau'n cynnwys cadeirio Cyfarfodydd Llawn y Cynulliad, penderfynu ar gwestiynau ynghylch dehongli neu ddefnyddio Rheolau Sefydlog a chynrychioli'r Cynulliad fel sefydliad. Roedd hi'n gwbl amlwg bod y cyfrifoldebau hyn yn sylweddol, ac felly penderfynasom y dylai'r Llywyddion fod yn gymwys i gael cyflogau ychwanegol.


222. Am resymau tebyg i'r rheini a nodir ym mharagraff 209, rydym o'r farn ei bod yn briodol glynu wrth y sefyllfa bresennol ar gyfer y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad. Roeddem felly wedi penderfynu y dylai'r lefelau cyflog ychwanegol fel yr oeddent ar 1 Mawrth 2011 fod yn berthnasol am bedair blynedd o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen, hy £41,949 a £26,385 y naill a'r llall. Fodd bynnag yn yr un modd â swyddi yn Llywodraeth Cymru, byddwn yn gweithio i sefydlu rhagor o dystiolaeth ar gyfrifoldebau a gofynion sgiliau'r swyddogaethau hyn i gyfrannu at ein Penderfyniad ar gyflogau i ddeiliaid swyddi a ddaw i rym o ddechrau'r Pumed Cynulliad ymlaen.

### Cadeiryddion Pwyllgor

223. Y categori olaf o ddeiliaid swyddi roeddem wedi'u hystyried oedd y rheini sy'n cadeirio pwyllgorau'r Cynulliad. Mae'r pwyllgorau hyn ac yn enwedig eu cadeiryddion yn ganolog ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau strategol y Cynulliad o ran dal Llywodraeth Cymru i gyfrif a chraffu deddfwriaeth a chyllid. Fel y gwelir yn Ffigur 13, roedd y cyflogau a oedd yn cael eu talu i

gadeiryddion pwyllgor wedi codi'n sylweddol ers dechrau eu talu yn 2004, yn yr un modd â nifer y pwyllgorau y mae eu cadeiryddion yn cael cyflogau ychwanegol.

**Ffigur 13: Twf mewn Cyflogau a Dalwyd i Gadeiryddion Pwyllgor ar Ddechrau Bob Blwyddyn Ariannol**




224. Mae hanes hir yn perthyn i'r cwestiwn a ddylid rhoi tâl i gadeiryddion pwyllgor ac os felly, lefel y lwfans hwnnw, ond roedd y dystiolaeth a oedd ar gael yn awgrymu bod y system bresennol wedi esblygu heb i unrhyw egwyddorion arweiniol cadarn fod ar waith. Nid oedd cadeiryddion pwyllgor yn cael tâl yn ystod blynyddoedd cyntaf y Cynulliad, ond ar ôl adolygiad gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion pan ddywedodd "their job is clearly 'bigger' than that of an Assembly Member [and] a case could be made, therefore, for paying the chairs of subject committees an additional allowance"[68], mae cadeiryddion rhai pwyllgorau pwnc a chraffu wedi cael cyflogau ychwanegol.

225. Roedd y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion wedi ystyried taliadau i gadeiryddion pwyllgor drachefn, ac argymhellodd y dylai cadeirydd y Pwyllgor Archwilio hefyd gael cyflogau ychwanegol ar yr un lefel â chadeiryddion pwnc a chraffu.[69] O ddechrau'r Trydydd Cynulliad, ychwanegwyd cadeirydd y Pwyllgor Cyllid at restr y cadeiryddion a oedd yn gymwys i gael cyflogau ychwanegol.[70]

226. Cyflwynodd y Panel Annibynnol cyntaf ar dâl a lwfansau Aelodau Adroddiad ym mis Mehefin 2008 ac argymhellodd na ddylid ymestyn cyflogau ychwanegol i gadeiryddion pwyllgorau.[71] Fodd bynnag, er gwaethaf yr argymhelliad hwn, ar sail tystiolaeth lafar ar wahân i'r Comisiwn,

---

*[68] Corff Adolygu ar Gyflogau Uwch-swyddogion Adroddiad Rhif 49 Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Adolygiad o Dâl a Lwfansau Mai 2001*

*[69] Corff Adolygu ar Gyflogau Uwch-swyddogion Adroddiad Rhif 58 Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Adolygiad o Dâl a Lwfansau 2004*

*[70] Cyflogau a Lwfansau Aelodau, http://www.assemblywales.org/abthome/abt-nafw/abt-commission/abt-commission-agendas.htm?act=dis&id=62539&ds=7/2007, Cofnodion cyfarfod y Comisiwn - Gorffennaf 4y 2007,*

*[71] Adroddiad y Panel Annibynnol ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad, 2008 http://www.assemblywales.org/firstreport-salaries.pdf*

codwyd y cyflogau i gadeiryddion y prif bwyllgorau craffu ar 1 Ebrill 2008 o £5,934 i £11,331, ac roedd y cyflogau i rai cadeiryddion pwyllgorau eraill, nad oeddent yn cael cyflog o'r blaen, yn £5,934. Roedd y codiadau hyn yn fawr o ran lefel a chymhwysedd, ac ni chawsom ddim tystiolaeth i egluro'r sail dros wneud penderfyniadau mor bellgyrhaeddol.

227. Roedd y Panel Adolygu Annibynnol hefyd wedi ystyried cyflogau cadeiryddion pwyllgorau ym mis Gorffennaf 2009. Argymhellodd y Panel y dylai cadeiryddion pwyllgorau allweddol gael cyflog o £12,000 y flwyddyn ac y dylai cadeiryddion pwyllgorau penodol eraill gael cyflog o £8,000 y flwyddyn. Unwaith eto, nid yw'r dystiolaeth y mae safbwynt y Panel yn seiliedig arni yn amlwg yn yr adroddiad, ac ymddengys na wnaed dim gwaith gwerthuso swyddi na meincnodi.

228. Yn ein hystyriaethau, roeddem wedi edrych ar yr arferion sy'n cael eu dilyn mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU a'r seiliau a ddefnyddiodd y cyrff eraill hynny i wneud penderfyniadau ynghylch cyflogau. Ceir eithaf dipyn o groesgyfeirio a chroes ddibynnu rhwng cyflogau cadeiryddion pwyllgorau yn neddfwrfeydd y DU, gan fod gwaith y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion wedi bod yn ganolog o ran llunio systemau tâl ym mhob un o'r sefydliadau. Yn y tair deddfwrfa ddatganoledig, roedd y sefyllfa gychwynnol wedi'i meincnodi'n gyfan gwbl bron yn erbyn y sefyllfa yn Senedd y DU, gydag addasiadau'n cael eu gwneud ar sail gwerthusiad swydd/pwysau swydd.

229. Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod cadeiryddion oddeutu 11 o bwyllgorau, a nifer o ddirprwy gadeiryddion, yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon yn cael cyflogau ychwanegol. Mae cadeiryddion rhai pwyllgorau yn Senedd y DU yn cael cyflogau, yn ogystal â chwasi-gronfa sy'n cynnwys oddeutu 30 o unigolion sy'n gweithredu fel cadeiryddion, ac sy'n cael tâl ar raddfa lithr sy'n seiliedig ar gyfnod yr unigolyn fel cadeirydd. Nid yw cynullwyr (cadeiryddion) pwyllgorau yn Senedd yr Alban yn cael cyflogau ychwanegol.

230. Mae graddfa a lefel cyflogau ychwanegol mewn deddfwrfeydd eraill yn amlwg yn gyfraniad pwysig at ein hystyriaethau, ond un o'n hegwyddorion allweddol yw pwysigrwydd gosod y system o gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad yn bennaf o fewn cyd-destun Cymreig. Tystiolaeth o hyn yw torri'r ddolen awtomatig rhwng cyflogau Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol. Mae dadansoddiad llawn o swyddogaethau a chyfrifoldebau felly yn ofynnol er mwyn sefydlu lefel cyflog briodol i gadeiryddion pwyllgorau. Ni fu'n bosibl cynnal y dadansoddiad hwn cyn i ni wneud ein Penderfyniad cyntaf, ond bydd yn cyfrannu at ran o'n blaenraglen waith.

231. Yn y cyfamser, roeddem wedi penderfynu ar y lefel a'r cymhwysedd ar gyfer cyflogau ychwanegol ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i ni. Er nad yw natur swyddogaeth a chyfrifoldebau cadeiryddion pwyllgor wedi cael ei ddiffinio'n glir, rydym wedi defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion ar gyfrifoldebau ychwanegol cadeiryddion pwyllgorau, o ddisgrifiad swydd generig a luniwyd i ddewis cadeiryddion pwyllgorau yn San Steffan, o dystiolaeth o gasglwyd gan Aelodau drwy ein colocwiwm ym mis Rhagfyr 2010, o'n harolwg ac o gyfarfodydd gyda deiliaid swyddi. Fodd bynnag, wrth i themâu

cyffredin ddod i'r fei, ni ellid dweud bod dim un o'r ffynonellau hyn yn darparu tystiolaeth bendant ar swyddogaethau a chyfrifoldebau deiliaid swyddi, ac rydym yn awgrymu y dylid gosod allan ystod o gyfrifoldebau cadeiryddion pwyllgorau, a deiliaid swyddi eraill yn y Pedwerydd Cynulliad, er mwyn darparu tystiolaeth i asesu lefelau cyflog priodol.

232. Roedd y dystiolaeth a gawsom yn dangos er bod rhywfaint o dystiolaeth allanol, a ddarparwyd gan adolygiadau cynnar y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion, ar gyfer lefelau cyflog rhai cadeiryddion pwyllgor, roedd llawer o ddryswch ynghylch y rhesymwaith dros y gwahaniaeth rhwng lefelau cyflog.

233. Thema gyffredin arall a ddaeth i'r fei o'r dystiolaeth oedd gofynion strwythur pwyllgorau'r Trydydd Cynulliad ar Gynulliad nad yw ond yn cynnwys 60 Aelod.  Fel y disgrifir ym Mhennod 4, rydym yn croesawu'r diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog sy'n rhoi hyblygrwydd i'r Cynulliad nesaf weithredu system pwyllgorau syml a fydd yn ysgafnhau baich gwaith y pwyllgorau i nifer o Aelodau ac yn caniatáu iddynt ganolbwyntio ar y blaenoriaethau strategol pwysicaf i Gymru.  Er ei fod yn fater i'r Cynulliad nesaf benderfynu drosto'i hun, ein tybiaeth ar hyn o bryd felly yw y bydd y Cynulliad yn dilyn system pwyllgorau sy'n ceisio gwneud llai ond ei wneud yn well.

234. Mae ein Penderfyniad ar gyflogau ychwanegol i gadeiryddion pwyllgor yn seiliedig ar y strwythur yn y Trydydd Cynulliad, gan nad ydym eto'n gwybod sut bydd y system pwyllgorau'n gweithio yn y Pedwerydd Cynulliad.  At y diben hwn, rydym yn cydnabod bod y Trydydd Cynulliad wedi gwahaniaethu rhwng mathau o bwyllgorau, a chafodd hyn ei adlewyrchu yn y cyflogau sy'n cael eu talu i gadeiryddion.  Yn ystod ein hystyriaethau, rydym wedi dilyn gwahaniaeth debyg.  Rydym o'r farn y dylai cadeiryddion pwyllgorau sy'n hollbwysig i ddibenion strategol allweddol y Cynulliad gael cyflogau ychwanegol i adlewyrchu eu cyfrifoldebau ychwanegol.

235. Roedd yr ansicrwydd a ddisgrifir uchod a'r newidiadau a ddisgwylir i'r system pwyllgorau ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad wedi ein harwain i benderfynu, o leiaf dros dro, y dylai cadeiryddion y pwyllgorau sydd mwyaf arwyddocaol o ran diben strategol y Cynulliad o ran craffu polisïau a chyllid Llywodraeth Cymru a deddfu, gael cyflog o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen.  I ddangos hyn, byddai pwyllgorau'r Trydydd Cynulliad sy'n cael eu cynnwys yn y diffiniad hwn wedi golygu'r prif bwyllgorau craffu, y pwyllgorau deddfwriaeth, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol er ein bod yn cydnabod efallai na chaiff y pwyllgorau hyn eu dilyn yn union yn y Pedwerydd Cynulliad.

236. Nid ydym wedi cael ein darbwyllo y dylai cadeiryddion pwyllgorau nad ydynt yn diwallu'r maen prawf hwnnw gael cyflogau ychwanegol.  Pan fydd y Cynulliad wedi cytuno ar ei strwythur pwyllgorau – a phan fyddwn yn gallu penderfynu ar raddfeydd y cyfrifoldebau dan sylw – byddwn yn dychwelyd i ystyried ffordd o werthuso a yw pwyllgorau penodol yn diwallu'r prawf o fod yn ddigon arwyddocaol o ran diben strategol y Cynulliad.  Ar y sail honno bydd wedyn yn bosibl cadarnhau pa rai o bwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad ddylai gael cadeiryddion sy'n cael cyflogau ychwanegol.

237. Er mwyn penderfynu ar y lefel briodol i roi cyflog i gadeiryddion pwyllgorau, gan ddisgwyl yr adolygiad llawn a amlinellir uchod, roeddem wedi cynnal adolygiad cyfyngedig o swyddogaethau tebyg. I roi'r cyflogau ychwanegol sy'n daladwy i gadeiryddion pwyllgorau mewn cyd-destun Cymreig, roeddem wedi ystyried y lefelau cyflog i aelodau a chadeiryddion byrddau iechyd lleol, cyrff y GIG yng Nghymru, cyrff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, elusennau Cymreig, pwyllgorau archwilio a thaliadau cyrff cofrestredig yng Nghymru a restrwyd yn gyhoeddus, a nifer o gyrff cyhoeddus eraill. Roeddem hefyd wedi ystyried gwaith Panel Taliadau Annibynnol Cymru, sy'n gyfrifol am dâl a lwfansau cynghorwyr llywodraeth leol, ac sydd ar hyn o bryd yn gosod y lwfans cyfrifoldeb arbennig uchaf ar gyfer cadeirio pwyllgorau llywodraeth leol, megis pwyllgorau cynllunio a thrwyddedu, sydd yn drwm o ran amser a chyfrifoldeb, yn £9,708.

**Ffigur 14: Tâl am Swyddogaethau sy'n Weddol Debyg i Swyddogaethau Cadeiryddion Pwyllgorau'r Cynulliad**

| Sefydliad | Cadeirydd | Aelodau anweithredol y bwrdd | Nifer y cyfarfodydd[72] |
|---|---|---|---|
| Saith bwrdd iechyd lleol Cymru[73] | £353 y diwrnod | - | 15 diwrnod y mis |
| Gwasanaeth Ambiwlans Cymru | £45,000 y flwyddyn[74] | £5,000 i £10,000 y flwyddyn i 6 cyfarwyddwr anweithredol £0-£5,000 i 2 gyfarwyddwr anweithredol[75] | Heb ei bennu |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | £42,000 y flwyddyn | £5,000 - £10,000 i 5 cyfarwyddwr anweithredol £0-£5,000 i 3 cyfarwyddwr anweithredol | Heb ei bennu |
| Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | £5,207 y flwyddyn | - | 6 |
| Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro | £7,820 y flwyddyn | - | 10 |
| Parc Cenedlaethol Eryri | £8,131 y flwyddyn | - | 8 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | £0 | - | 6 |
| Amgueddfa Genedlaethol Cymru | £0 | - | 6 |

*[72] Diwrnodau cyfarfodydd go iawn (heb gynnwys amser paratoi na gwaith cysylltiedig) ac eithrio pan nodir hynny*
*[73] Mae byrddau iechyd lleol yn talu cyfradd dyddiol rhwng £249 a £388 – y ffigur a ddangosir yw cyfartaledd y cyfraddau dyddiol sy'n cael eu talu mewn gwirionedd*
*[74] Cawn ar ddeall bod hyn am 3 diwrnod yr wythnos o leiaf ac yn ymarferol ei fod yn fwy na hyn*
*[75] Cawn ar ddeall bod hyn am 4 diwrnod y mis*

| Sefydliad | Cadeirydd | Aelodau anweithredol y bwrdd | Nifer y cyfarfodydd[72] |
|---|---|---|---|
| Cyngor Celfyddydau Cymru | £421 y diwrnod | - | 6 |
| Cyngor Chwaraeon Cymru | £337 y diwrnod | - | - |
| Bwrdd yr Iaith Gymraeg | £337 y diwrnod | - | - |
| Comisiwn Cefn Gwlad Cymru | £347 y diwrnod | - | 130 diwrnod y flwyddyn |
| Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru | £11,294 y flwyddyn | - | 11 cyfarfod busnes, 2 weithdy a 25 cyflwyniad |
| Bwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru | - | £189 y diwrnod | 24 |
| Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru | £243 y diwrnod | £185 y diwrnod | 6 yn 2010-11 |
| Sampl o ddeg elusen Gymreig | £0 | - | Amrywiol, rhwng 1 a 6 |

238. Cynhaliwyd asesiad o'r ymrwymiad amser a oedd ynghlwm wrth bob un o'r swyddogaethau. Er mai dim ond un agwedd yw hyn ar adolygu taliadau, a chaiff ei gysgodi gan gyfrifoldebau a chanlyniadau swyddogaeth, roedd yn helpu i gyfrannu at yr adolygiad dros dro cyfyngedig. Ystyriwyd hyd ac amlder cyfartalog y cyfarfodydd, ynghyd ag amcan o'r amser paratoi, cyfarfodydd anffurfio, ymweliadau a gwaith rapporteur hefyd. Roeddem wedi cyfrifo cyfraddau dyddiol cyfartalog, ar sail y data yn Ffigru 14, heb gynnwys sylwadau sy'n bell oddi wrth weddill y data a'r cyfraddau blynyddol hynny pan na fu'n bosibl pennu o'r data a oedd ar gael ar gyfradd dyddiol gadarn, a oedd wedi arwain at gyfartaledd oddeutu £360.

239. Roedd ein gwaith yn dangos ar gyfartaledd bod pwyllgorau perthnasol y Cynulliad yn cwrdd 22 gwaith y flwyddyn am ddwy awr fesul cyfarfod ar gyfartaledd. Ar sail cyfradd ddyddiol gymedr o £360 a rhwng pump a saith awr o baratoi ar gyfer pob cyfarfod a chyfrifoldebau eraill cadeirydd, dylai cyflogau blynyddol ar gyfer cadeirydd pwyllgor fod rhwng £8,280 a £10,440. Wrth ystyried cyflog sylfaen a darpariaeth pensiwn Aelodau’r Cynulliad, penderfynasom felly y dylai’r cadeiryddion pwyllgor hynny sy'n cael cyflogau deiliad swydd gael cyflogau o £8,280.

240. Roedd rhywfaint o'r dystiolaeth a gawsom gan Aelodau'n awgrymu bod baich gwaith gwahanol ynghlwm wrth bob pwyllgor. Fodd bynnag, roeddem wedi penderfynu na ddylid cael graddfa lithr ar gyfer cadeiryddion pwyllgor, gan i ni gael ein darbwyllo gan rinweddau strwythur gwastad syml ar gyfer y pwyllgorau perthnasol.

## Casgliadau

241. **Mae cyfran uchel y deiliaid swyddi yn y Cynulliad wrth gymharu â deddfwrfeydd eraill o ganlyniad rhannol i'w faint bach mewn perthynas â'r strwythurau y mae wedi'u sefydlu. Mae ffactor ychwanegol yn deillio o'r strwythurau tebyg i lywodraeth leol a fabwysiadwyd ar ddechrau'r Cynulliad. Fel y disgrifir ym Mhennod 4 rydym yn cefnogi hyblygrwydd y Rheolau**

**Sefydlog diwygiedig, a fydd yn galluogi'r Pwyllgor Busnes yn y Pedwerydd Cynulliad, os bydd yn penderfynu gwneud hynny, i symleiddio strwythur y sefydliad i ganolbwyntio ar flaenoriaethau strategol a'r adnoddau y mae eu hangen ar y rhain.**

### Llywodraeth Cymru

242. **Rydym yn cytuno bod i'r swyddogaethau a ysgwyddir gan aelodau o Lywodraeth Cymru gyfrifoldebau ychwanegol, ac y dylai'r swyddogaethau hyn felly gael cyflogau ychwanegol. Mae ein Penderfyniad ynghylch lefelau cyflogau y swyddi hyn ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad yn Ffigur 15.**

**Ffigur 15: Cyflogau Deiliaid Swyddi – Swyddogaethau Gweithredol**

| Swydd | Cyflogau Deiliaid Swyddi | Cyfanswm cyflog (gan gynnwys cyflog sylfaen Aelod) |
|---|---:|---:|
| Y Prif Weinidog | £80,870 | £134,722 |
| Y Dirprwy Brif Weinidog | £41,949 | £95,801 |
| Gweinidog Cymru | £41,949 | £95,801 |
| Dirprwy Weinidog | £26,385 | £80,237 |
| Y Cwnsler Cyffredinol | £41,949 | £95,801 |

### Arweinwyr Gwleidyddol

243. **Cawsom ein darbwyllo gan y dystiolaeth bod y swyddi hynny sy'n darparu arweinyddiaeth wleidyddol sydd â swyddogaethau o ran rheoli busnes a chraffu ar ddeddfwriaeth, polisïau a chyllid yn bwysig er mwyn i'r Cynulliad weithredu'n briodol. Rydym yn cytuno y dylid talu cyflogau ychwanegol i arweinwyr gwrthbleidiau ac i chwipiaid. Fodd bynnag, nid ydym eto wedi cael digon o dystiolaeth ar gyfrifoldebau'r swyddi hynny na sut caiff cyfrifoldebau o'r fath eu rhannu rhwng dibenion y Cynulliad a dibenion plaid. Rydym hefyd yn ymwybodol y gall swyddogaethau'r deiliaid swyddi hyn newid ar ôl etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2011. Byddwn yn adolygu ein penderfyniad cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl hynny, ac, ar ôl i ni benderfynu ar lefelau'r cyflogau sy'n daladwy i arweinwyr pleidiau ac i chwipiaid, bydd y rhain yn cael eu hôl-ddyddio i'r dyddiad penodi.**

### Comisiynwyr a Llywyddion

244. **Mae trefn lywodraethu gorfforaethol y Cynulliad yn hollbwysig er mwyn gweithredu'r Cynulliad yn effeithlon a'i hygrededd. Mae Ffigur 16 yn rhoi ein Penderfyniad ynghylch y cyflogau ar gyfer y swyddi hyn o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen.**

**Ffigur 16: Cyflogau Deiliaid Swyddi Ychwanegol – Swyddogaethau Sefydliadol**

| Swydd | Cyflogau Deiliaid Swyddi | Cyfanswm cyflog (gan gynnwys cyflog sylfaen Aelod) |
|---|---|---|
| Y Llywydd | £41,949 | £95,801 |
| Y Dirprwy Lywydd | £26,385 | £80,237 |
| Comisiynydd y Cynulliad | £8,280[76] | £62,132 |

### Cadeiryddion Pwyllgor

245. **Roeddem wedi penderfynu y dylid rhoi cyflogau i gadeiryddion pwyllgor fel y nodir yn Ffigur 17, yn amodol ar ein hadolygiad cynnar o'u cyfrifoldebau, gan ystyried unrhyw strwythur pwyllgorau diwygiedig yn y Pedwerydd Cynulliad.**

**Ffigur 17: Cyflogau Deiliaid Swyddi Ychwanegol – Swyddogaethau Deddfwriaethol a Chraffu**

| Swydd | Cyflogau Deiliaid Swyddi | Cyfanswm cyflog (gan gynnwys cyflog sylfaen Aelod) |
|---|---|---|
| Cadeiryddion y prif bwyllgorau[77] | £8,280[78] | £62,132 |
| Cadeiryddion y pwyllgorau eraill | - | £53,852 |

## Ystyriaethau Eraill

246. Nid oedd gennym lawer o amser i wneud ein Penderfyniad ac nid oedd yn ddigon i ni allu cynnal adolygiad llawn o'r cyflogau ar gyfer deiliaid swyddi. Ni fydd y cyfyngiad hwn wrth gwrs yn berthnasol i Benderfyniadau yn y dyfodol. Felly daw ein Penderfyniad dros dro i rym ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad, gan ddisgwyl am adolygiad o rai o'r swyddi a'r swyddogaethau yn fuan ar ôl dechrau'r Pedwerydd Cynulliad – hynny yw, yng ngoleuni canlyniadau'r etholiad a rhagor o dystiolaeth ar swyddogaethau a chyfrifoldebau. Bydd rhai o'r symiau a ddangosir felly yn berthnasol am y pedair blynedd o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ond efallai y caiff rhai eraill (fel y nodir) eu haddasu i ystyried yr adolygiad interim yn fuan ar ôl dechrau'r Pedwerydd Cynulliad. Pan fydd lefelau cyflog yn cael eu haddasu o ganlyniad i'r adolygiad hwn, bydd taliadau'n cael eu hôl-ddyddio.

247. Ar ben hynny, rydym yn cynnig cynnal adolygiad mwy, cyn y Pumed Cynulliad, a fydd yn archwilio tâl ar gyfer yr ystod lawn o swyddogaethau deiliaid swyddi, ond taliadau yn ei ystyr ehangach hefyd, gan gynnwys tâl sylfaen, lwfansau i ddeiliaid swyddi a lwfansau tebyg, pensiynau a buddion tebyg.

---

*[76] Os ceir rhagor o dystiolaeth am swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Comisiynydd, mae'n bosibl yr addasir y lefel yn sgil y trafodaethau hynny ac adolygiad ond ni fydd yn is na'r swm a ddangosir*

*[77] At ddibenion dangosol, edrychwch ar baragraff 235 i weld enghreifftiau o'r pwyllgorau hynny yn y Trydydd Cynulliad a fyddai wedi cael eu cynnwys fel prif bwyllgorau*

*[78] Os ceir rhagor o dystiolaeth am swyddogaethau a chyfrifoldebau'r cadeiryddion pwyllgorau o fewn strwythyr y Pedwerydd Cynulliad, mae'n bosibl yr addasir y lefel yn sgil y trafodaethau hynny ac adolygiad ond ni fydd yn is na'r swm a ddangosir*

# Cymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad

*Yn y bennod hon rydym yn ymdrin â'r lwfansau a ddarperir i Aelodau'r Cynulliad ar gyfer cyflawni'u cyfrifoldebau. Rydym hefyd yn nodi'r penderfyniadau yr ydym wedi'u cymryd ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad sy'n ymadael.*

248. Mae gan Aelodau'r Cynulliad hawl i dderbyn cymorth ariannol yng nghyswllt eu dyletswyddau fel Aelodau'r Cynulliad. Mae'r lwfansau'n berthnasol i:

- **gostau staff**[79];
- **llety preswyl**;
- **costau swyddfa**; a
- **theithio**.

249. Pwrpas y cymorth ariannol a ddarperir i Aelodau'r Cynulliad yw eu cefnogi i gyflawni'u dyletswyddau fel Aelodau'r Cynulliad. Mae'r lwfans llety preswyl yn darparu llety dros nos lle bydd angen y llety hwnnw i alluogi'r Aelodau i gyflawni'u rolau fel Aelodau'r Cynulliad. Mae'r lwfans costau swyddfa'n galluogi'r Aelodau i redeg swyddfa yn eu hetholaeth neu ranbarth. Mae'r lwfans teithio ar gyfer costau'r Aelodau wrth iddynt deithio i'r Cynulliad ac yn ôl, ac ar draws eu hetholaeth neu ranbarth i gyfarfod ag unigolion, sefydliadau a busnesau.

250. Wrth ystyried y cymorth ariannol sydd ar gael i'r Aelodau, rydym wedi ystyried ein hamcan o ddarparu adnoddau digonol i Aelodau'r Cynulliad er mwyn iddynt gyflawni'u dyletswyddau'n effeithiol. Roeddem yn cytuno â'r dystiolaeth a ddarparwyd gan un Aelod bod cyfrifoldebau a rôl amldasgio Aelodau'r Cynulliad yn gofyn am adnoddau priodol ac rydym yn fodlon bod y dibenion y darperir cymorth ariannol ar eu cyfer, fel y nodir uchod, yn briodol. Ystyriwyd gennym hefyd ein dyletswydd i sicrhau na ddylai ein penderfyniadau atal, ar sail ariannol, unigolion sydd â'r gallu a'r ymrwymiad gofynnol rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad.

251. Adolygasom y darpariaethau presennol ar gyfer cymorth ariannol, a chanmolwn y Cynulliad am yr arferion da a oedd eisoes ar waith ganddo, gan gynnwys y gofyniad y dylai pob hawliad gael ei gefnogi dan dystiolaeth ddogfennol ac, ers Mehefin 2009, y dylid cyhoeddi holl hawliadau Aelodau'r Cynulliad ar wefan y Cynulliad yn fisol.

---

[79] *Darperir gwybodaeth am staff cymorth ar wahân, ym Mhennod 8.*

252. Ym mis Gorffennaf 2009 gwnaeth y Panel Adolygu Annibynnol nifer o argymhellion mewn perthynas â'r lwfansau yr oedd Aelodau'n cael eu hawlio. Rydym wedi rhoi ystyriaeth briodol i’r rhain yn ystod ein gwaith. Ceir crynodeb o'n hymateb i bob argymhelliad yn Atodiad F.

## Egwyddorion Cymorth Ariannol

253. Mae’r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau’r Cynulliad yn nodi’r egwyddorion ymddygiad personol y mae’n rhaid i Aelodau gydymffurfio â nhw.[80] Mae’r egwyddorion hyn yn seiliedig ar egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan sef anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

254. Cytunwn y dylai system cymorth ariannol y Cynulliad gynrychioli gwerth am arian; dylai fod yn gadarn, yn glir ac yn dryloyw; a dylai fod yn seiliedig ar set o egwyddorion y bydd yn rhaid i unrhyw Aelod Cynulliad sydd am wneud hawliad gydymffurfio â nhw. Bwriedir i'r egwyddorion, a nodir isod, ategu y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

### Gwariant

255. Ni chaiff Aelod Cynulliad ond hawlio am wariant sy'n ofynnol i sicrhau y gall gyflawni'i ddyletswyddau’n briodol fel Aelod Cynulliad.

### Defnydd

256. Rhaid i'r hawliadau fod yn gywir ac adlewyrchu'n briodol y defnydd gwirioneddol o'r adnoddau sy'n cael eu hawlio.

### Pleidiau Gwleidyddol

257. Bydd lwfansau’n cael eu had-dalu dim ond lle mae’r gwariant yn ymwneud â dyletswyddau a gyflawnwyd gan Aelod yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Cynulliad. Ni cheir gwneud hawliadau sy’n ymwneud â gweithgarwch gwleidyddol pleidiau.

### Budd Personol

258. Rhaid i Aelodau sicrhau nad yw hawliadau’n arwain, neu’n ymddangos fel petaent yn arwain, at fudd ariannol personol uniongyrchol neu anuniongyrchol amhriodol iddynt hwy eu hunain nac i unrhyw un arall, gan gynnwys sefydliadau gwleidyddol.

### Bod yn agored

259. Rhaid i’r Aelodau fod yn ymrwymedig i egwyddorion bod yn agored a thryloywder. Bydd hawliadau’n cael eu cyhoeddi ar y system Cyhoeddi Lwfansau er mwyn hysbysu'r cyhoedd (yn amodol ar ystyriaethau gwarchodaeth a diogelu data) am y gwariant sydd wedi codi ac at ba ddiben.

[80] *http://www.assemblywales.org/memhome/mem-commissioner-standards/cod-ymddygiad.htm*

### Cyfrifoldeb Personol

260. Rhaid i bob Aelod Cynulliad gymryd cyfrifoldeb personol dros yr holl wariant a geir, a thros wneud hawliadau a chadw cofnodion, hyd yn oed os yw'r gwaith o weinyddu hawliadau yn cael ei ddirprwyo i eraill ganddynt.

### Gwerth am Arian a Bod yn Rhesymol

261. Rhaid i Aelodau'r Cynulliad sicrhau mai'r opsiwn mwyaf cost effeithiol yw unrhyw wariant a ddaw i'w rhan. Rhaid i'r Aelodau geisio sicrhau bod gwariant o'r fath yn darparu gwerth am arian i'r trethdalwr ac nad yw'n niweidio enw da'r Cynulliad na'i Aelodau. Rydym yn derbyn, yn amodol ar dderbyn cyfiawnhad, nad yr opsiwn rhataf bob amser fydd yr opsiwn mwyaf cost effeithiol.

### Dogfennau

262. Rhaid i hawliadau gael eu hategu gan dystiolaeth ddogfennol berthnasol a phriodol.

## Llety Preswyl

263. Mae gan Aelodau'r Cynulliad hawl i ad-daliad am y costau y mae'n rhaid iddynt eu talu wrth aros dros nos oddi wrth eu prif gartrefi mewn perthynas â'u dyletswyddau fel Aelodau. Er mwyn i'r Cynulliad weithredu'n effeithiol, rydym yn cydnabod y bydd angen prif gartref ar yr Aelodau yn eu hetholaeth neu ranbarth ac y byddant yn gorfod cyfrannu at fusnes y Cynulliad yng Nghaerdydd.

264. Dan drefniadau blaenorol, roedd Aelodau'n gallu hawlio "Lwfans Costau Ychwanegol", lle roedd y rheini â phrif gartref mewn ardal gymwys (sef Ardal Allanol) yn gallu hawlio swm hyd at £13,430 y flwyddyn am lety preswyl. Gellid defnyddio'r swm hwn un ai i dalu costau rhentu neu log morgais ar eiddo. Roedd Aelodau cymwys hefyd yn gallu hawlio ad-daliad ar gyfer rhai costau cysylltiedig, er enghraifft, treth gyngor a biliau cyfleustodau.

265. Roedd yr Aelodau Cynulliad hynny a'u prif gartref mewn ardaloedd yn nes at Gaerdydd (o fewn yr Ardal Fewnol) yn gallu hawlio lwfans is, hyd at £4,234 y flwyddyn, am gostau aros dros nos oddi cartref. Nid oedd Aelodau yn yr Ardal Fewnol yn cael defnyddio'r lwfans ar gyfer llog morgais na thaliadau rhent.

266. Argymhellodd y Panel Adolygu Annibynnol y dylid dileu'r "Lwfans Costau Ychwanegol" ac na ddylai Aelodau mwyach gael hawlio llog morgais ar ail gartrefi; y dylai nifer yr Aelodau sy'n gymwys i gael unrhyw lwfans preswyl newydd gael ei leihau; ac na ddylai Aelodau gael hawlio am ddodrefn a gosodiadau ar gyfer eu hail gartrefi.

267. Ystyriasom argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol ar y mater hwn a chredwn eu bod yn gamau doeth a phriodol sy'n mynd i'r afael â'r pryder ymysg y cyhoedd mewn perthynas â'r maes hwn gan sicrhau yr un pryd y gwerth gorau am arian cyhoeddus heb darfu ar effeithiolrwydd y Cynulliad. Mae gan y Cynulliad reolau ar waith eisoes ynghylch defnyddio

arian cyhoeddus at ddibenion o'r fath a hyderwn y bydd ein Penderfyniad yn rhoi hyder i bobl Cymru bod trefniadau'r Cynulliad yn gadarn, yn briodol ac yn dryloyw.

### Lwfans Llety Preswyl – y Prif Ystyriaethau

268. Rydym yn cytuno â’r egwyddor na ddylai Aelodau'r Cynulliad gael hawlio llog morgais o hyn ymlaen. Mae’r system newydd yn galluogi'r Aelodau sy’n byw mewn ardal gymwys i gael ad-daliad am gostau rhentu eiddo wedi ei ddodrefnu oddi wrth asiant cymeradwy. Bydd eiddo o’r fath wedi'i leoli o fewn pum milltir i'r Cynulliad. Ni fydd aelodau sy’n dewis prynu ail gartref neu rentu oddi wrth asiant nad yw wedi’i gymeradwyo yn gymwys i hawlio’r lwfans llety, er y byddant yn cael eu had-dalu am y costau cysylltiedig a nodir ym mharagraff 272.

269. Rydym yn ategu argymhelliad y Panel Adolygu Annibynnol i gyfyngu ar faint yr ardal gymwys, gan leihau drwy hynny nifer yr Aelodau sy’n gymwys i hawlio am rentu eiddo. Dan y trefniadau newydd, dim ond Aelodau sy’n byw yn rhanbarthau Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru y Cynulliad sy’n gymwys i gael ad-daliad am gostau rhentu eiddo. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod nifer yr Aelodau sy'n gymwys i hawlio am rentu eiddo wedi lleihau o 51 i 25.

270. Bydd Aelodau’r Cynulliad nad ydynt yn gymwys i hawlio costau rhentu, yn gymwys i hawlio am hyd at 20 arhosiad dros nos yng Nghaerdydd y flwyddyn, hyd at derfyn o £95 ar y swm y gellir ei hawlio y noson, gan gynnwys parcio, ac £20 y noson am bryd nos. Ni chaiff Aelodau eu had-dalu am unrhyw alcohol.

### Costau Rhentu

271. Ystyriasom y mater hwn yn fanwl a chytuno y dylid rhoi cap o £700 ar gost rhentu misol. Roedd ein penderfyniad yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd gan swyddogion y Comisiwn ar gostau rhentu nodweddiadol ar gyfer cartrefi addas yn yr ardal. Cynhaliwyd yr ymchwil rhwng Ebrill a Mehefin 2010 i bennu cyfradd y farchnad ar gyfer eiddo dwy ystafell wely wedi’i ddodrefnu o fewn yr ardal bum milltir.

### Costau Cysylltiedig

272. Cytunasom y dylai Aelodau’r Cynulliad gael eu had-dalu am gostau biliau cyfleustodau, treth gyngor, band eang, yswiriant a thrwydded deledu. Ni cheir rhoi ad-daliad am waith atgyweirio, dodrefn, gosodiadau a ffitiadau nac unrhyw agwedd arall ar gynnal a chadw neu ddodrefnu'r llety. Mae costau rhent daear a chostau cynnal a chadw ar gyfer eiddo rhent yn cael eu cynnwys yn y cap misol o £700.

273. Cytunasom y dylai unrhyw hawliadau gan Aelodau ar gyfer treth gyngor gael eu capio ar y swm sy'n daladwy ar gyfer eiddo ym mand F. Rhaid i’r Aelod dalu unrhyw swm uwchben y cap.

### Trefniadau Trosiannol

274. Rydym wedi ymrwymo i roi terfyn ar dalu llog morgais i Aelodau. Ond, cawsom dystiolaeth fod naw Aelod Cynulliad, a fyddai'n gymwys i hawlio costau rhentu eiddo - yn amodol ar gael eu hailethol yn etholiad 2011 y Cynulliad - yn hawlio costau llog morgais ar hyn o bryd sy'n llai na'r

cap rhentu o £700. O wybod y gallai caniatáu i'r trefniadau hyn barhau arwain at arbedion posibl o hyd at £46,000 y flwyddyn, yn ôl y dystiolaeth a gawsom, rydym yn fodlon gadael i'r Aelodau hynny – os cânt eu hailethol - ddewis parhau i hawlio llog morgais.

275. Gan fod cyn lleied o Aelodau'r Cynulliad yn gymwys ar gyfer y trefniadau trosiannol hyn, mae'r Bwrdd yn fodlon y bydd y trefniadau yn gwywo'n naturiol nes y bydd y trefniadau wedi darfod.

## Lwfans Costau Swyddfa

276. Mae gan Aelodau'r Cynulliad hawl i hawlio lwfans costau swyddfa i ad-dalu'r holl gostau rhesymol sy'n gysylltiedig â chynnal swyddfa yn eu hetholaeth neu ranbarth. Gellir defnyddio'r lwfans ar gyfer nifer o ddibenion yng nghyswllt dyletswyddau Aelod Cynulliad, gan gynnwys:

- costau rhentu swyddfa;
- rhentu/prynu cyfarpar swyddfa; a
- costau sy'n gysylltiedig â rhedeg swyddfa.

### Pwrpas a Swm

277. Pwrpas y lwfans costau swyddfa yw galluogi Aelodau'r Cynulliad i redeg swyddfa yn eu hetholaeth neu ranbarth. Roedd Aelodau a'u staff, yn eu tystiolaeth i ni, yn glir bod y cyfleuster hwn yn hollbwysig ar gyfer ymgysylltu'n briodol â'u hetholwyr. Mae presenoldeb yn eu hetholaethau neu ranbarthau'n galluogi'r Aelodau i gadw mewn cysylltiad â'r bobl y maent yn eu cynrychioli ac i sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael mynediad hwylus at eu cynrychiolwyr etholedig. Mae rhai aelodau staff wedi'u lleoli fel arfer yn y swyddfeydd hyn i gynorthwyo'r Aelodau ag unrhyw fusnes sydd ganddynt â'r cyhoedd, gan gynnwys gwaith achos.

278. Cytunasom fod lefel y lwfans costau swyddfa, wedi'i gynyddu yn ôl y twf blynyddol ym Mynegai Prisiau Manwerthu'r DU i £16,242, yn briodol. Cytunasom hefyd y dylid parhau i gynyddu'r swm yn flynyddol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ym mis Ebrill, yn unol â'r twf blynyddol ym Mynegai Prisiau Manwerthu'r DU dros y cyfnod o ddeuddeng mis yn dod i ben yn y mis Rhagfyr blaenorol, yn amodol ar unrhyw adolygiad y byddwn o bosibl am ei gynnal yn y cyfamser.

279. Bwriadwn barhau i adolygu'r swm hwn i sicrhau y ceir gwerth am arian a bod Aelodau'n cael adnoddau ariannol digonol i fod ar gael yn hwylus i'w hetholwyr. Yn benodol, mae'r amrywiad yng nghostau rhentu swyddfeydd ac ardrethi busnes ar draws etholaethau a rhanbarthau yng Nghymru wedi cael ei ddwyn i'n sylw. Er nad ydym yn cynnig gwneud newidiadau yn syth yn y maes hwn, byddwn yn parhau i fonitro'r mater.

280. Yn ystod y Trydydd Cynulliad, roedd yr aelodau'n cael trosglwyddo symiau heb eu gwario o'r lwfans costau swyddfa i'r lwfans cyflogau staff ac fel arall. Penderfynasom y dylai'r arfer hwn ddod i ben, gan na chawsom ein darbwyllo y dylai tanwariant ar lwfansau a ddarperir ar gyfer mathau cwbl wahanol o gefnogaeth gael ei drosglwyddo yn y ffordd hon. Amlinellir ein penderfyniadau ynghylch y lwfans cyflogau staff ym Mhennod 8.

### Costau Rhentu Swyddfa

281. Rydym yn cydnabod y bydd yn rhaid i Aelodau'r Cynulliad, ymhob achos bron, rentu swyddfa yn eu hetholaeth neu ranbarth. Rhaid i'r broses hon fod yn rhwym wrth ragofalon i sicrhau y ceir gwerth am arian. Mae ein Penderfyniad yn cyflwyno rhai cyfyngiadau o ran defnyddio'r lwfans hwn ar gyfer rhentu swyddfa, yn arbennig o ran rhentu swyddfeydd gan neu i undebau llafur a mudiadau pleidiau gwleidyddol, a chan bartner, aelodau teulu, cymdeithion busnes Aelod Cynulliad, neu unrhyw sefydliad gan gynnwys ymddiriedolaeth, y mae gan yr Aelod, partner, aelod o'r teulu neu gydymaith busnes fudd ariannol ynddo; gydag eithriadau ar gyfer daliadau bychain iawn mewn cwmnïau rhestredig a buddiolwyr cronfeydd pensiwn mawr.

282. Mewn amgylchiadau lle mae Aelodau'r Cynulliad am rentu swyddfa gan, neu is-osod rhan o'u swyddfa i, fudiad plaid wleidyddol, undeb llafur neu unrhyw sefydliad neu fusnes arall, rhaid iddynt gael prisiad annibynnol gan asesydd, a ddewisir gan y Cynulliad, a rhaid i'r trefniadau fod yn dryloyw.

283. Os ceir cymeradwyaeth ymlaen llaw, caiff Aelodau ddewis rhannu'u swyddfeydd ag Aelodau Seneddol neu Aelodau o Senedd Ewrop. Os bydd Aelod yn dewis gwneud hyn, rhaid cael cytundeb ffurfiol yn nodi'r trefniadau arfaethedig ac yn gwahanu'r costau.

284. Os bydd Aelod Cynulliad yn penderfynu peidio â rhentu swyddfa leol, ond yn dewis cyflawni'i ddyletswyddau etholaethol neu ranbarthol o swyddfeydd y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd, yna dylai'r ddarpariaeth ar gyfer costau swyddfa gael ei lleihau 75 y cant. Byddwn yn parhau i adolygu'r penderfyniad hwn i sicrhau nad effeithir yn anghymesur ar yr Aelodau Cynulliad hynny.

### Iechyd a Diogelwch, Gwarchodaeth a Mynediad i Bobl Anabl

285. Rydym yn cydnabod mai un o'r prif problemau y mae Aelodau'r Cynulliad yn ei hwynebu yng nghyswllt rhentu swyddfa yw cadw cydbwysedd rhwng y lleoliad a chost yr eiddo. Mewn ymateb i'n harolwg, dywedodd un Aelod:

> "For many Members there is a serious problem in obtaining an office without appearing to break the law (Disability Discrimination Act for example). I do fear that […] Members will either be forced to close their offices and their constituents would lose that service, which cannot be provided by anyone else, or they will have to take on unsuitable and possibly unlawful premises."

286. Yn aml bydd Aelodau'n ceisio sicrhau bod eu swyddfa mewn lleoliad amlwg megis ar brif stryd mewn tref, er mwyn ei gwneud yn hawdd i'r etholwyr ddod yno. Ond, o wybod am y costau cysylltiedig, efallai y bydd yn rhaid i Aelodau rentu swyddfa na fydd yn hwylus i'w holl etholwyr.

287. Rydym wedi cytuno ar ddarpariaethau lle bydd Aelodau'n gallu gwario ar faterion iechyd a diogelwch, gwarchodaeth a mynediad i bobl anabl yn eu swyddfeydd. Caiff Aelodau ddefnyddio hyd at £1,000 o'u cyllideb costau swyddfa mewn unrhyw un flwyddyn ariannol ar gyfer costau o'r fath. Efallai y bydd Comisiwn y Cynulliad yn talu am unrhyw gostau dros £1,000 at ddibenion

o'r fath, ar ôl cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan dîm Cymorth Busnes yr Aelodau. Bwriadwn barhau i adolygu'r materion hyn.

### Rhentu/Prynu Cyfarpar Swyddfa

288. Cytunasom y dylai Aelodau gael cyfarpar, dodrefn a chyflenwadau swyddfa yn ganolog lle bo hynny'n ymarferol. Dylai Comisiwn y Cynulliad hefyd ddarparu enwau cyflenwyr cyfarpar swyddfa cymeradwy i Aelodau sy'n barod i gynnig gwerth am arian a lefelau priodol o wasanaeth mewn gwahanol rannau o Gymru, ni waeth lle maent wedi'u lleoli.

289. Rhaid cyfeirio unrhyw eitem unigol a fydd yn costio mwy na £750 at dîm Cymorth Busnes yr Aelodau i'w gymeradwyo, cyn yr ysgwyddir y gost. Mae'r ddarpariaeth hon yn berthnasol hefyd i werth oes gyfan unrhyw rwymedigaethau contractiol y bydd Aelodau'n ymgymryd â nhw.

290. Dylai pob eitem unigol o gyfarpar swyddfa sy'n costio £100 neu fwy gael ei gofnodi ar restr eitemau. Dylai pob eitem ar y rhestr eitemau gael ei dychwelyd i Gomisiwn y Cynulliad pan fydd yr Aelod yn rhoi'r gorau i'w sedd - oni wneir cytundeb lle bydd yr Aelod yn cynnig prynu'r eitemau am bris y cytunir arno - neu eu trosglwyddo i ofal yr Aelod sydd i ddod, a ddylai lofnodi'r rhestr eitemau wrth eu cymryd i'w feddiant.

291. Argymhellodd y Panel Annibynnol y dylai Aelodau a etholir am y tro cyntaf gael grant gwerth £5,000 i ddodrefnu swyddfa yn ystod y deuddeng mis cyntaf ar ôl etholiad. Rydym wedi penderfynu nad yw hyn yn cynrychioli gwerth am arian nac yn ymrwymiad i gaffael cynaliadwy. Rydym felly wedi penderfynu y caiff y cyfryw Aelodau wneud archeb un-tro am ddodrefn swyddfa o restr ganolog er mwyn dodrefnu swyddfa. Bydd cost yr eitemau a gymeradwyir yn cael ei thalu o stociau neu gronfeydd canolog, hyd at uchafswm lwfans o £5,000.

### Costau Swyddfa Ychwanegol

292. Mae'n briodol y dylai Aelodau'r Cynulliad gael hawlio am nifer o gostau sy'n gysylltiedig â rhedeg swyddfa, gan gynnwys hysbysebu'r cymorthfeydd a chost galwadau busnes. Rydym yn gwahodd y Comisiwn i baratoi arweiniad clir i helpu Aelodau i asesu a oes modd cael ad-daliad am gostau penodol.

## Teithio

293. Caiff Aelodau hawlio ad-daliad am wariant ar deithio dim ond pan fyddant wedi gwneud siwrneiau sy'n ofynnol mewn perthynas â'u dyletswyddau fel Aelodau'r Cynulliad a rhaid i'r trefniadau fod yn seiliedig ar egwyddorion cost effeithiolrwydd a chynaliadwyedd.

294. Rydym wedi ceisio annog teithio cynaliadwy drwy gynnwys darpariaethau yn ein Penderfyniad sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth gyhoeddus a rhannu ceir. Ond, rydym yn cydnabod bod Aelodau'n aml yn gorfod teithio'n bell o gwmpas eu hetholaethau neu ranbarthau wrth gyflawni'u dyletswyddau. Mewn amgylchiadau o'r fath, rydym yn derbyn mai'r opsiwn mwyaf cost effeithiol yn aml, gan gofio'r gofynion ar amser Aelod, fydd teithio â char.

## Trefniadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad sy'n Rhoi'r Gorau i fod yn AC

295. Mae gan Aelodau'r Cynulliad sy'n gadael eu swydd hawl i gymorth ariannol. Rydym o'r farn y dylai hyn gael ei gydbwyso â'n hamcan o sicrhau bod cymorth o'r fath sy'n cael ei ddarparu gan y Cynulliad yn deg yn y cyd-destun Cymreig ac yn darparu gwerth am arian.

### Grant Ailsefydlu

296. Pan fydd Aelodau'n rhoi'r gorau i fod yn Aelod Cynulliad, mae ganddynt hawl i grant ailsefydlu. Mae'r grant hwn yn debyg i daliad dileu swydd ac, o dan y trefniadau blaenorol, fe'i cyfrifwyd yn ôl fformiwla a oedd yn seiliedig ar oed a hyd gwasanaeth yr Aelod. O'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen, dim ond Aelodau a fydd yn cael eu trechu mewn etholiad fydd â hawl i wneud cais am grant ailsefydlu. Ni fydd Aelodau'n sy'n sefyll i lawr, yn ymddeol neu'n penderfynu peidio ag ailsefyll yn gymwys i hawlio'r grant hwn.

297. Yn unol ag argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol, cytunasom i gyflwyno dull o gyfrifo'r grant ailsefydlu sy'n seiliedig ar hyd gwasanaeth yn unig. Felly, cafwyd gwared â'r cysylltiadau ag oed yr Aelod Cynulliad perthnasol. Bydd y grant ailsefydlu ar gyfer Aelodau a fydd yn cael eu hethol yn etholiadau 2011 y Cynulliad yn seiliedig ar hyd eu gwasanaeth yn unig ac yn cael ei gyfrifo ar sail un mis ar gyfer pob blwyddyn lawn o wasanaeth, gyda chap o gyflog chwe mis.

298. Dim ond i'r Aelodau hynny a gafodd eu hethol am y tro cyntaf yn yr etholiadau ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad y bydd y trefniadau hyn yn berthnasol, a bydd y rheolau blaenorol yn dal yn berthnasol i Aelodau â gwasanaeth parhaus o'r Trydydd Cynulliad. Ond, os dymunant, caiff unrhyw Aelod sydd wedi'i ethol yn flaenorol benderfynu dod o dan y rheolau newydd.

### Grant Ymddeol Oherwydd Salwch

299. Pwrpas y grant hwn yw darparu cymorth ariannol i Aelodau nad ydynt, oherwydd rhesymau iechyd, yn gallu parhau yn Aelod Cynulliad. Credwn ei bod yn gwbl briodol bod grant o'r fath ar gael i Aelodau. Cytunasom y bydd y dull o gyfrifo'r grant ymddeol oherwydd salwch yn seiliedig ar hyd gwasanaeth, a'i gyfrifo yn yr un modd â'r grant ailsefydlu.

### Lwfans Dirwyn i Ben

300. Pwrpas y lwfans dirwyn i ben yw galluogi Aelodau'r Cynulliad i roi trefn derfynol ar eu gwaith pan fyddant yn rhoi'r gorau i fod yn Aelod Cynulliad, gan gynnwys trefniadau a rhwymedigaethau contractiol sy'n ymwneud â'u swyddfeydd rhanbarthol neu etholaethol.

301. Buom yn ystyried a oedd lefel y lwfans dirwyn i ben yn briodol gan nodi bod y Panel Adolygu Annibynnol wedi argymell y dylid ei leihau. Roeddem yn cytuno â'r Panel ac felly wedi penderfynu y bydd yr uchafswm sy'n daladwy yn y dyfodol yn un chwarter y lwfans costau swyddfa. Darperir ar gyfer taliadau dileu swydd i staff cymorth gan gyllideb ar wahân sydd dan law'r Comisiwn.

## Casgliadau

302. **Yn ein barn ni, mae'n rhaid darparu cymorth ariannol er mwyn i Aelodau gyflawni'u dyletswyddau craidd oherwydd, heb gymorth o'r fath, byddai'r costau sylweddol sy'n gysylltiedig yn atal pobl rhag sefyll yn etholiadau'r Cynulliad.**

303. **Yn unol â'r egwyddorion sy'n sail i'n gwaith, ac i sicrhau bod systemau ariannol y Cynulliad yn darparu gwerth am arian ac yn gadarn, rydym wedi cyflwyno nifer o newidiadau i'r rheolau sy'n ymwneud â chymorth ariannol. Hyderwn y bydd y newidiadau hyn yn cryfhau'r system cymorth ariannol ac y gall pobl Cymru fod yn hyderus fod gan y Cynulliad system glir a theg sy'n galluogi Aelodau'r Cynulliad i'w cynrychioli'n effeithiol.**

# Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad

*Yn y bennod hon, rydym yn ymdrin â'n Penderfyniad ar recriwtio staff cymorth Aelodau'r Cynulliad a thalu iddynt.*

304. Yn ogystal â'u rolau eraill, mae holl Aelodau'r Cynulliad yn gyflogwyr unigol. Caiff y 60 Aelod gyflogi hyd at 180 o staff cyfwerth ag amser llawn, tra mae grwpiau'r pleidiau'n cyflogi oddeutu 20 aelod o staff. Mae'r staff yn cyflawni nifer o rolau gwahanol a byddant wedi'u lleoli mewn swyddfa ranbarthol neu etholaethol, neu yn y Cynulliad. Mae'r mathau o swyddi'n cynnwys gweithwyr achos, ymchwilwyr, rheolwyr swyddfa a swyddogion y wasg. Mae grwpiau plaid yn cael cymorth staffio, yn seiliedig ar nifer yr Aelodau yn y grŵp.

305. Mae gan staff yr Aelodau rôl bwysig yn hybu a chryfhau gwaith strategol y Cynulliad drwy ddarparu cymorth ymchwil i Aelodau ar gyfer y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau, delio â gwaith achos, a hybu ymgysylltiad â phobl Cymru. Yn wir, i lawer o etholwyr, bydd eu hymwneud dechreuol â'r Cynulliad yn dod drwy gysylltiad ag un o'r aelodau staff cymorth.

306. Fel y disgrifir ym Mhennod 4, mae gan Aelodau'r Cynulliad dair brif swyddogaeth strategol: craffu ar bolisïau a chyllid Llywodraeth Cymru; craffu a deddfu; a chynrychioli etholwyr. Rydym wedi derbyn tystiolaeth sylweddol fod angen i Aelodau'r Cynulliad gydbwyso'r rolau hyn yn ôl eu blaenoriaethau'u hunain a blaenoriaethau'u hetholwyr, a darparu adnoddau ar gyfer y rolau hynny. Rydym felly wedi ceisio cyflwyno mwy o hyblygrwydd i drefniadau staffio'r Aelodau, i'w galluogi i strwythuro'u swyddfeydd er mwyn gallu darparu cymorth mewn ffordd sy'n briodol iddynt hwy yn unigol.

## Cymorth Staff yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru

307. Ar ddechrau'r Trydydd Cynulliad, roedd yr Aelodau'n cael cyflogi hyd at 2.5 aelod staff cyfwerth ag amser llawn. Ym mis Gorffennaf 2007, penderfynodd Comisiwn y Cynulliad y dylid cynyddu hyn i 3 aelod staff cyfwerth ag amser llawn, un ar bob un o'r tri band cyflog gwahanol, a hynny oherwydd y baich gwaith a'r cyfrifoldebau ychwanegol yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

308. Fel ym mis Hydref 2010, byddai cyflogi tri aelod staff ar bwynt uchaf pob band cyflog yn cyfateb i uchafswm o £80,244. Hefyd, roedd Aelodau'r Cynulliad yn cael hawlio lwfans ychwanegol o hyd at £5,882 ar gyfer cost goramser, hyfforddiant, teithio a thaliadau bonws staff.

309. Mewn cymhariaeth, roedd Aelodau Seneddol yn cael hawlio hyd at £109,548 ar gyfer cyflogau sylfaenol eu staff, tra gallai Aelodau Senedd yr Alban hawlio hyd at £59,500. Yng Nghynulliad

Gogledd Iwerddon, roedd costau staff Aelodau o'r Cynulliad Deddfwriaethol yn cael eu talu o gyllideb gyfun ar gyfer staff a chostau swyddfa, sef cyfanswm o £72,660.

310. Mae Ffigur 18 yn dangos faint a wariwyd am bob mil o'r boblogaeth ar ddarparu cymorth i Aelodau'r Cynulliad ar ffurf staff cymorth o'i gymharu â Senedd y DU a Senedd yr Alban. Nid yw Cynulliad Gogledd Iwerddon wedi'i gynnwys gan nad yw'n bosibl pennu cyfran y gyllideb gyfun a werir ar staff.

**Ffigur 18: Gwariant ar Staff Cymorth yr Aelodau am bob Mil o'r Boblogaeth (2010-11)[81]**

| | Nifer yr Aelodau etholedig | Poblogaeth (miloedd) | Swm a ddyrennir ar gyfer cymorth staff am bob Aelod etholedig | Swm a ddyrennir ar gyfer cymorth staff am bob mil o'r boblogaeth (£) |
|---|---|---|---|---|
| Cymru | 60 | 2,980 | 80,244 | 1,615 |
| Yr Alban | 129 | 5,144 | 59,500 | 1,492 |
| Senedd y DU | 650 | 60,769 | 109,548 | 1,172 |

311. Er bod y Cynulliad yn fychan o ran nifer y cynrychiolwyr etholedig, mae'n amlwg o'r ffigurau hyn bod yr Aelodau'n derbyn adnoddau cymharol dda mewn perthynas â staffio, gan fod y swm a werir ar gymorth o'r fath ar sail poblogaeth berthnasol yn y Cynulliad yn fwy na'r hyn a werir yn Senedd yr Alban a Senedd y DU.

312. Roedd y trefniadau a oedd ar gael yn y Trydydd Cynulliad yn gosod nifer o gyfyngiadau ar Aelodau'r Cynulliad o ran sut y maent yn strwythuro'u swyddfeydd. Nid oedd Aelodau'n cael cyflogi mwy na thri aelod staff cymorth cyfwerth ag amser llawn, a dim mwy nag un aelod staff cyfwerth ag amser llawn o bob un o'r tri band cyflog.

313. Lleisiodd nifer o Aelodau'r Cynulliad a'u staff bryderon am y diffyg hyblygrwydd yng nghyswllt cyflogi staff cymorth. Er na chodwyd materion ynghylch y cyfyngiad ar nifer y staff cyfwerth ag amser llawn, ar wahân i'r pryderon na ddylid lleihau hyn, roeddynt yn ansicr a fyddai'r cyfyngiad o ran cyflogi un aelod staff cyfwerth ag amser llawn ymhob band cyflog yn briodol.

## Cefnogi Diben Strategol

### Swm

314. Edrychasom ar lefel y staff cymorth sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad ac roeddem yn fodlon bod y gwariant uwch yn y maes hwn nag, er enghraifft, yn Senedd yr Alban, yn briodol. Oherwydd maint bychan y Cynulliad mae'n rhaid i'r holl Aelodau amldasgio'n gyson ac, o'r herwydd, mae angen cymorth eang arnynt gan eu staff.

315. Cytunasom y dylid cynyddu'r swm a ddyrennir i Aelodau'r Cynulliad ar gyfer staffio o uchafswm o £80,244 yn 2010-11 i uchafswm o £89,000 ar gyfer 2011-12. Mae'r ffigur hwn yn ystyried y cynnydd yng nghyflogau'r staff cymorth a nodir ym Mhennod 9. Yn ogystal, cytunasom y dylai

[81] *Nid yw'r tabl yn cynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol na phensiwn ar gyfer staff*

Aelodau'r Cynulliad allu defnyddio balans y cyfanswm hwn ar gyfer nifer o gostau sy'n gysylltiedig â staffio. Rydym yn fodlon fod y lefel hon o gefnogaeth yn briodol.

### Hyblygrwydd

316. Credwn ei bod yn briodol y dylai Aelodau gael mwy o hyblygrwydd wrth benderfynu sut i strwythuro'u swyddfeydd. Rydym felly wedi cael gwared â'r cyfyngiad o gyflogi dim ond un aelod staff cyfwerth ag amser llawn o bob band cyflog. O fewn uchafswm penodedig, teimlwn y bydd yr hyblygrwydd gwell hyn yn golygu y bydd Aelodau'n gallu penderfynu ar strwythurau staffio ar gyfer eu swyddfeydd sy'n addas i'w hanghenion a'u blaenoriaethau hwy.

317. O dan y trefniadau newydd, bydd Aelodau'n dal wedi'u cyfyngu i gyflogi tri aelod staff cyfwerth ag amser llawn yn unig, ond fe fyddant yn cael cyflogi staff o unrhyw gyfuniad o fandiau cyflog sy'n briodol i'r rolau, cyn belled nad yw cyfanswm posib cost eu staff, wedi'i gyfrifo fel petai'r holl staff yn cael eu talu ar lefel uchaf eu band cyflog, yn fwy na chyfanswm y lwfans costau staff o £89,000.

318. Bydd Aelodau'r Cynulliad hefyd yn cael defnyddio'r hyn sy'n weddill o'r lwfans gwariant staff ar gyfer nifer o ddibenion megis costau goramser a theithio staff (hyd at uchafswm o £2,000), y 'gronfa ymgysylltu' (gweler paragraff 324), costau staff a brofwyd yn sgil ailstrwythuro neu ddileu swyddi, ac i drosglwyddo arian i'w Grwpiau Plaid, yn amodol ar gael cytundeb tîm Cymorth Busnes yr Aelodau.


### Cronni adnoddau gydag Aelodau eraill neu Gymorth Grŵp

319. Er mwyn gwella'r hyblygrwydd sydd ar gael i Aelodau, cytunasom hefyd y dylid caniatáu i ddau neu fwy o Aelodau 'gronni' rhannau, neu yn wir y cyfan, o'u cyllideb ar gyfer cyflogi tri aelod staff cyfwerth ag amser llawn i gryfhau'r cymorth. Yn ogystal, caiff Aelodau ddewis 'trosglwyddo' rhan o'u lwfans staffio i'w grŵp er mwyn rhoi hwb i'r cymorth a ddarperir yn ganolog.

### Capasiti Ymchwil

320. Ym mis Gorffennaf 2007, cytunodd Comisiwn y Cynulliad i gryfhau'r cymorth uniongyrchol sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad drwy gyfrwng aelod staff cyfwerth â hanner swydd amser llawn (o 2.5 i 3 aelod staff cyfwerth ag amser llawn yr Aelod). Y rhesymeg y tu ôl i'r newid hwn oedd er mwyn darparu cymorth yn benodol ar gyfer y dyletswyddau deddfwriaethol a chraffu ychwanegol y byddai angen i Aelodau ymgymryd â nhw oherwydd Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae arolwg o gontractau staff cymorth Aelodau presennol y Cynulliad yn awgrymu nad oedd y gofyniad hwn o bosibl yn cael ei adlewyrchu yn rolau'r holl staff a gyflogwyd wedyn. Mae Ffigur 19 yn dangos niferoedd y staff cymorth a oedd yn cael eu cyflogi mewn rolau amrywiol.

**Ffigur 19: Rolau Staff Cymorth yr Aelodau – Ionawr 2011**




321. Rydym yn derbyn nad yw teitlau swydd staff cymorth o anghenraid yn adlewyrchu eu rolau'n llawn, ac y bydd staff cymorth mewn swyddfa fel arfer yn cyflawni nifer o wahanol rolau ac yn helpu'u cydweithwyr i gwblhau tasgau nad ydynt ar eu disgrifiad swydd. Ond, er mwyn cefnogi diben strategol y Cynulliad - yn arbennig yng nghyswllt y swyddogaethau craidd o graffu ar bolisïau, cyllid a deddfwriaeth - rydym yn glir bod angen rhoi mesurau penodol ar waith i wella capasiti'r Cynulliad o ran ymchwil a chymorth ar gyfer busnes ffurfiol y Cynulliad.

322. Rydym felly wedi penderfynu y dylai pob Aelod Cynulliad newydd gyflogi o leiaf un aelod cyfwerth ag amser llawn yn bennaf i'w cefnogi ym musnes ffurfiol cyfarfodydd llawn a phwyllgorau'r Cynulliad ac ag elfen ymchwil sylweddol. Rydym yn cydnabod hefyd y gellid defnyddio rôl o'r fath, fel eilbeth, i ddarparu cymorth ymchwil ar gyfer gwaith achos etholaethol / rhanbarthol.

323. Bydd yn rhaid i Aelodau'r Cynulliad a ddychwelir yn y Pedwerydd Cynulliad ddangos bod capasiti o'r fath yn bodoli ymysg eu staff cyn gwneud unrhyw benodiadau newydd neu weithio tuag at sicrhau bod lefel gyffelyb o gapasiti ymchwil penodol yn bodoli ymysg y staff presennol. Bydd hyfforddiant a datblygiad yn cael ei ddarparu hefyd i'r aelodau staff hynny sydd am ailhyfforddi i ymgymryd â'r cyfryw rôl (gweler Pennod 10).

## Y Gronfa Ymgysylltu

324. Fel y disgrifiwyd ym Mhennod 4, mae rôl Aelod Cynulliad yn eang ac amrywiol. Efallai y bydd disgwyl i Aelodau graffu ar rai meysydd polisi neu ddarnau o ddeddfwriaeth nad oes ganddynt hwy na'u staff brofiad ohonynt neu arbenigedd ynddynt. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, dylai Aelodau allu manteisio ar arbenigedd allanol i'w helpu. Cytunasom felly y caiff Aelodau yn y Pedwerydd Cynulliad ddefnyddio hyd at uchafswm o £2,000 y flwyddyn o'u lwfans gwariant staff i brynu arbenigedd allanol o'r fath, am gyfnod penodol, i'w cefnogi gyda thasg neu ddarn gwaith penodol.

### Cymorth i Grwpiau

325. Dan y trefniadau blaenorol, roedd grwpiau o dri neu fwy o Aelodau'r Cynulliad yn cael cyflogi aelodau staff ychwanegol i'w helpu yn eu rôl fel grŵp yn y Cynulliad. Roedd nifer y staff y gallai grŵp eu cyflogi'n cael ei bennu gan fformiwla a oedd yn seiliedig ar nifer yr Aelodau yn y grŵp ac a oedd unrhyw Aelodau o'r grŵp yn aelodau o Lywodraeth Cymru. Gallai grwpiau hefyd hawlio lwfans ychwanegol ar gyfer cost goramser, hyfforddiant, teithio a thaliadau bonws staff.

326. Ni chawsom dystiolaeth nad oedd y gefnogaeth i grwpiau ar lefel briodol ac felly rydym yn fodlon â'r trefniadau presennol. Mae'r trefniadau ar gyfer cymorth i grwpiau o dri neu fwy o Aelodau ym Mawrth 2011 i'w gweld yn Ffigur 20.

**Ffigur 20: Lwfansau Cymorth i Grwpiau'r Pleidiau 2011-12**

| Nifer yr Aelodau yn y grŵp plaid | Lwfans ychwanegol |
|---|---:|
| Tri neu fwy (os oedd y blaid yn cael ei chynrychioli yn Llywodraeth Cymru) | £127,390 |
| Tri i ddeg Aelod (os nad oedd y blaid yn cael ei chynrychioli yn Llywodraeth Cymru) | £199,048 |
| Mwy na deg Aelod (os nad oedd y blaid yn cael ei chynrychioli yn Llywodraeth Cymru) | £199,048 a £30,866 yn ychwanegol ar gyfer pob pump Aelod ychwanegol |

327. Rydym yn cydnabod bod nifer y staff a ddyrennir i grwpiau sydd yn Llywodraeth Cymru yn llai na'r hyn a ddyrennir i grwpiau'r gwrthbleidiau, ond bod y gwaith o ddatblygu polisïau, yn rhannol o leiaf, yn cael ei wneud i bleidiau Llywodraeth Cymru gan y gwasanaeth sifil. Dyma fater y byddwn o bosibl am ei adolygu yn y dyfodol.

328. Rydym yn cydnabod mai mater i'r grwpiau eu hunain ddylai fod strwythur swyddfeydd y grwpiau, gan y bydd gan grwpiau gwahanol flaenoriaethau gwahanol. Rydym felly wedi cynyddu'r hyblygrwydd i grwpiau, drwy gael gwared â'r cyfyngiad bod yn rhaid i grwpiau gyflogi niferoedd penodol o staff mewn bandiau cyflog penodol.

329. Hefyd, bydd y trefniant newydd lle caiff Aelodau drosglwyddo arian o'u lwfans staffio i'w grwpiau yn roi rhagor o hyblygrwydd i'r grwpiau.

## Recriwtio

330. Credwn yn gryf y dylai recriwtio staff cymorth fod yn seiliedig ar egwyddorion tegwch, bod yn agored, cyfle cyfartal a thryloywder, ac y dylai'r polisïau ar recriwtio gefnogi Aelodau'r Cynulliad fel cyflogwyr i ddangos a hyrwyddo arferion da.

### Recriwtio Agored

331. Penderfynasom y dylai egwyddorion cystadleuaeth allanol agored a theg ar sail teilyngdod fod yn berthnasol i bob swydd, gan gynnwys swyddi a symudiadau ar draws yn swyddfa pob Aelod neu grŵp. O ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen, rhaid hysbysebu pob swydd o'r fath ar wefan y Cynulliad fel isafswm. Yr eithriad fyddai swyddi dros dro yn llwyr o lai na 6 mis, er

enghraifft, ar ôl etholiad. Argymhellwn fod tîm Cymorth Busnes Aelodau'r Cynulliad yn cadw rhestr aros o ymgeiswyr â'r cymwysterau priodol.

### Cyflogi Aelodau'r Teulu

332. Ar ddiwedd y Trydydd Cynulliad, roedd 17 Aelod yn cyflogi cyfanswm o 18 aelod o'u teuluoedd. Buom yn adolygu'r mater hwn a chytuno y gallai'r trefniadau cyflogi presennol ar gyfer aelodau teulu Aelodau'r Cynulliad barhau. O'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen, fodd bynnag, dim ond ar ôl cystadleuaeth agored ar sail sgiliau a phrofiad ymgeiswyr y dylid caniatáu penodiadau o'r fath. Mewn achosion o'r fath, bydd y broses penodi yn y dyfodol yn cael ei thywys gan dîm Adnoddau Dynol Comisiwn y Cynulliad. Rhaid gallu dangos mai'r aelod teulu, os caiff ei benodi, oedd yr ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd o ran sgiliau, gallu a phrofiad.

### Contract Cyflogaeth

333. Buom yn ystyried mater contract safonol ar gyfer staff cymorth yr Aelodau a'r angen i ddod o hyd i gydbwysedd priodol rhwng hyblygrwydd i Aelodau fel cyflogwyr ac amodau teg ar gyfer staff yr Aelodau ar draws y Cynulliad.

334. Derbyniasom dystiolaeth a ddangosai bod amrywiaeth sylweddol yn nifer yr oriau y mae staff dan gontract i weithio. Mewn rhai contractau, diffinnid wythnos waith lawn fel wythnos 36 awr, tra oedd yr wythnos waith mewn eraill yn 42 awr. Rydym yn cydnabod mai mater o degwch yw hyn, gan y telir staff yn ôl bandiau ac yn cael cyflog blynyddol.

335. Derbyniasom dystiolaeth hefyd am amrywiaeth yn y gwyliau blynyddol y mae gan staff cymorth hawl iddynt. Roedd rhai staff yn gymwys i gael 20 diwrnod o wyliau'r flwyddyn, tra oedd eraill yn gallu cymryd 35 diwrnod y flwyddyn. Yn ogystal, roedd yr hyn a dalwyd i staff am oramser yn amrywio o dâl amser sengl i wahanol luosyddion o amser plaen (amser a hanner neu amser dwbl), ac mewn rhai achosion â chyfraddau ad-dalu penodol yr awr.

336. Penderfynasom y dylai holl staff cymorth Aelodau'r Cynulliad gael eu cyflogi gan ddefnyddio telerau ac amodau safonol er mwyn sicrhau tegwch i'r holl staff. Cytunasom y dylid llunio contract safonol cyn etholiadau'r Pedwerydd Cynulliad yn seiliedig ar wythnos waith (cyfwerth ag amser llawn) 37 awr, 27 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn a goramser yn cael ei dalu ar 1.5 gwaith yr amser safonol neu 2 waith yr amser safonol ar gyfer gweithio ar wyliau banc.

337. O ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad, bydd y contract safonol newydd yn berthnasol i bob penodiad newydd. Dim ond â chaniatâd yr aelod staff cymorth a'r Aelod Cynulliad sy'n ei gyflogi y bydd aelodau staff cymorth sydd â gwasanaeth parhaus ag un Aelod neu grŵp o'r Trydydd Cynulliad yn gallu symud i'r contract safonol newydd, heb i'r gwasanaeth parhaus gael ei dorri.

338. Bydd staff a fydd yn cael eu recriwtio o'r newydd yn cael eu penodi ar lefel isaf y raddfa dâl berthnasol oni bai, mewn amgylchiadau eithriadol, bod rhesymau cryf dros gyfiawnhau cyflog cychwynnol uwch.

### Trosiant Staff

339. Fe gododd nifer o Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth fater trosiant staff gyda ni, a chawsom dystiolaeth fod y gyfradd drosiant yn 18.9 y cant yn 2009-10. Gobeithio y bydd y newidiadau yr ydym wedi'u cyflwyno'n lleihau hyn yn y dyfodol ond byddwn yn parhau i adolygu'r mater hwn. Awgrymwn y dylai ti, Adnoddau Dynol y Comisiwn gynnal cyfweliadau ymadael gydag aelodau'r staff cymorth sy'n gadael. Bwriadwn fonitro'r wybodaeth hon yn y dyfodol.

## Casgliadau

340. **Cytunasom fod lefelau'r gefnogaeth staffio i Aelodau Cynulliad unigol ac i grwpiau'r pleidiau'n briodol. Rydym yn fodlon y gellir cyfiawnhau'r gwariant uwch yn y maes hwn nag, er enghraifft, yn Senedd yr Alban. Oherwydd maint bychan y Cynulliad mae'n rhaid i'r holl Aelodau amldasgio'n gyson ac, o'r herwydd, mae angen cymorth sylweddol arnynt.**

341. **Rydym wedi ceisio gwella'r hyblygrwydd sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad fel bod ganddynt fwy o ryddid i strwythuro'u swyddfeydd fel y teimlant hwy sy'n briodol.**

342. **Rydym hefyd wedi ceisio cyflwyno mesurau penodol i gryfhau'r cymorth strategol sydd ar gael i Aelodau, gan gynnwys hyblygrwydd i Aelodau i drosglwyddo cyllidebau staffio i grwpiau'r pleidiau a chyflwyno peirianwaith i alluogi Aelodau i dderbyn arbenigedd allanol. Rydym wedi cyflwyno gofyniad y bydd o leiaf un aelod staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir gan bob Aelod Cynulliad wedi'i neilltuo i darparu cymorth ac ymchwil ar gyfer busnes ffurfiol y Cynulliad.**

343. **Rydym wedi cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer recriwtio staff cymorth a fydd, gobeithio, yn arwain at broses fwy agored a thryloyw, a thelerau ac amodau safonol ar gyfer staff cymorth, er mwyn gwella tegwch a chydraddoldeb.**

# Cyflogau a Phensiynau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad

*Yn y bennod hon, rydym yn disgrifio'n dull ar gyfer gwerthuso lefel y taliadau sydd ar gael i staff cymorth yr Aelodau ar gyfer 2011-13.*

344. Yn unol ag Adran 14 y Mesur, mae'n rhaid inni wneud Penderfyniad ar ad-dalu i Aelodau, neu i grwpiau o Aelodau, y costau a ysgwyddwyd ganddynt wrth gyflogi staff. Buom yn ystyried pob agwedd ar daliadau i staff cymorth, gan gynnwys taliadau bonws a threfniadau contractiol. Ond, penderfynasom ohirio ystyried trefniadau pensiwn staff cymorth. Roedd hyn yn rhannol oherwydd cymhlethdod a goblygiadau ariannol tymor hirach pensiynau, sy'n gofyn am ddadansoddiad manylach, ond hefyd oherwydd bod y Comisiwn Annibynnol ar Bensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus, a gadeirir gan yr Arglwydd Hutton, yn cynnal adolygiad ehangach o bensiynau'r sector cyhoeddus, a disgwylir adroddiad ganddo yn ddiweddarach eleni.

345. Ystyriasom ein penderfyniadau ar amodau a thelerau safonol wrth inni ystyried lefelau cyflogau, gan ein bod o'r farn y dylai staff cymorth mewn band penodol – ac ar yr un pwynt yn y band hwnnw - a chan ragdybio y ceir proses recriwtio gadarn, fod â phrofiad a sgiliau eithaf tebyg, ac yn gwneud swyddi sydd â chyfrifoldeb a phwysiad cymharol.

## Egwyddorion

346. Mae adran 3 o'r Mesur yn gosod dyletswydd arnom i sicrhau bod Aelodau'n "cael adnoddau sy'n ddigonol i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau fel Aelodau o'r Cynulliad, a sicrhau priodolder, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwariant cyllid cyhoeddus". Yn y cyswllt hwn, rydym yn cydnabod pwysigrwydd ansawdd a brwdfrydedd y staff cymorth a gyflogir gan yr Aelodau. Yn eu tystiolaeth i ni, roedd yr Aelodau'n glir ynghylch mantais cyflogi'u staff eu hunain, a chymaint yr oeddynt yn gwerthfawrogi'u hymrwymiad a'u hymroddiad.

347. Cyn 2005, pan gyflwynwyd tri band cyflog a bennid ar sail cyfrifoldeb, nid oedd taliadau i staff cymorth yn systematig nac yn gyson (cyflwynwyd pedwerydd band, a oedd ar gael i staff grwpiau'n unig, yn ddiweddarach). Ategodd y Panel Adolygu Annibynnol y strwythur bandiau cyflog fel ffordd o sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon tra'i fod hefyd yn diogelu buddiannau staff. Fel ffordd arall hefyd o sicrhau gwerth am arian cyhoeddus, argymhellodd y Panel y dylai "cyflogau cychwynnol adlewyrchu swyddogaethau, cyfrifoldebau a phrofiad staff". Defnyddiwyd hwn gennym fel y sail ar gyfer unioni cyflogau staff cymorth a darparu rhywfaint o gysondeb iddynt, yn arbennig o'i ystyried ar y cyd ag elfennau di-gyflog

pecyn taliadau cyfan, yr ydym wedi mynd i'r afael ag ef drwy gyflwyno contract safonol (gweler paragraff 336).

348. Mae argymhelliad 56 y Panel Adolygu Annibynnol yn datgan "y bydd cyflogau staff yn parhau i godi bob blwyddyn yn unol â'r rheolau presennol ynghylch codiadau graddol a dyfarniadau 'costau byw'". Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei adlewyrchu yn y Penderfyniad o ran Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau[82] a gymeradwywyd gan Gomisiwn y Cynulliad ym mis Medi 2010, a oedd yn cysylltu cyflogau staff cymorth â Mynegai Enillion Wythnosol Cyfartalog y DU. Felly, derbyniwyd hwn gennym fel ein man cychwyn.

## Methodoleg

### Cyflog Sylfaen

349. Ar ôl derbyn y dylid parhau i strwythuro cyflogau staff cymorth yn ôl pedwar band cyflog, a'r band uchaf wedi'i neilltuo ar gyfer staff a gyflogir gan grwpiau'r pleidiau, gwnaethom asesiad wedyn o'r lefelau priodol ar gyfer pob band.


350. I ddechrau, ystyriasom y newidiadau hanesyddol yn lefel cyflogau'r staff cymorth ers cyflwyno'r bandiau cyflog yn 2005 hyd at 2010-11. Cododd y pwyntiau uchaf ac isaf ar bob band cyflog 17.4 y cant rhwng 2005-06 a 2010-11. Cymharwyd y cynnydd hwn â'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Manwerthu a'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr dros yr un cyfnod, lle gwelwyd cynnydd 16.3 y cant a 14.5 y cant.

351. Dengys yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) 2009, i enillion canolrifol Cymru godi 10.5 y cant rhwng 2005-06 a 2009-10 ac i enillion cymedrig Cymru godi 11.2 y cant dros yr un cyfnod[83]. Cododd pwyntiau cyflog staff cymorth Aelodau'r Cynulliad 15.8 y cant dros yr un cyfnod, sy'n cynrychioli sefyllfa ychydig yn well iddynt mewn termau real ac o'i gymharu â gweithwyr Cymru yn gyffredinol.

352. Mae Ffigur 21 yn dangos sut mae'r staff cymorth wedi'u dosbarthu ar draws pum pwynt y tri phrif fand cyflog. Dim ond i nifer cyfyngedig o staff grwpiau y mae band 4 ar gael, ac felly cafodd lai o ddylanwad ar ein penderfyniadau. Dengys y data fod canran uchel o'r staff, 63 y cant o'r cyfrif pennau, a 65 y cant o'r staff cyfwerth ag amser llawn, ar bwynt uchaf eu band cyflog. Mae'r sefyllfa'n wahanol ar draws y tri band cyflog, gyda 76 y cant o staff band 1 ar y pwynt uchaf a dim ond 47 y cant o staff band 3 ar ben y raddfa gyflog. Efallai fod hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad oes angen gweithwyr mor brofiadol ar gyfer swyddi band 3 sydd, mae'n debyg, yn cychwyn ar bwynt 2, neu o leiaf o dan bwynt 5. Efallai hefyd ei fod yn adlewyrchu lefel trosiant uwch y staff cymorth ym mand 3, a oedd yn 42.9 y cant yn 2009 o'i gymharu â 26.5 y cant ym mand 2 a 24.5 ym mand 1.

[82] *http://www.assemblywales.org/nafw_consolidated_determinations_on_members__pay_and_allowances_22_sept_2010.pdf*
[83] *http://www.statistics.gov.uk/StatBase/Product.asp?vlnk=15313*

**Ffigur 21: Dosbarthiad Staff Cymorth ar draws y Pwyntiau Cyflog ym mis Ionawr 2011**




353. Roedd y data ar ddosbarthiad staff ar draws y bandiau cyflog yn codi nifer o gwestiynau, gan gynnwys a yw'r graddfeydd cyflog a nifer y pwyntiau cyflog yn briodol ar gyfer recriwtio staff cymorth ar lefel sydd hefyd yn darparu'r potensial i gael dilyniant mewn swydd; a yw mater gosod cap ar ben y bandiau cyflog yn achos pryder; ac a yw'r staff cymorth yn cael eu recriwtio ar hyn o bryd ar bwynt cyflog priodol yn y bandiau cyflog.

354. Er mwyn mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn, penderfynasom gymharu rolau'r staff cymorth â chymaryddion rhesymol yng Nghymru gan ddefnyddio data ASHE 2010[84]. Dylid nodi bod peth ansicrwydd mewn cymariaethau o'r fath o ran y rolau penodol a gyflawnir gan staff cymorth, ac felly mae'r canlyniadau'n ddangosol yn hytrach nag yn bendant. Mae Ffigur 22 yn nodi'r grwpiau cymaryddion a gasglwyd at ei gilydd gennym i greu tri chategori y gellid cymharu tâl y staff cymorth â nhw.


**Ffigur 22: Categorïau Meincnodi ASHE**

| Band staff cymorth | Disgrifiad |
|---|---|
| 1 | Rheolwyr swyddfa |
| 2 | Swyddogion gweithredol y gwasanaeth sifil, cynorthwywyr a swyddogion gweinyddol y gwasanaeth sifil, cynorthwywyr a swyddogion clercyddol llywodraeth leol, ysgrifenyddion meddygol, ysgrifenyddion cyfreithiol, ysgrifenyddion ysgol, cynorthwywyr personol ac ysgrifenyddion eraill |
| 3 | Clercod/cynorthwywyr ffeilio a chofnodion eraill, swyddi gweinyddol (cyffredinol), clercod/cynorthwywyr swyddfa cyffredinol, derbynyddion |
| 4 | Gweithwyr ymchwil proffesiynol |

[84] *http://www.statistics.gov.uk/statbase/Product.asp?vlnk=1951*


355. Mae Ffigur 23 yn dangos sut mae cyflogau cyfartalog staff cymorth ymhob band yn berthnasol i gymaryddion ASHE, gan ddangos bod cyflogau staff cymorth, at ei gilydd, yn cyd-fynd â chyflogau'r farchnad - er ei fod yn awgrymu nad yw'r mwyafrif o staff cymorth ym mandiau 1 a 3, o'i gymharu â chymheiriaid, yn gwneud gystal â staff cymorth ym mandiau 2 a 4.

**Ffigur 23 Cyflogau Cyfartalog Staff Cymorth o'i gymharu â Chymaryddion ASHE**[85]




356. Yn ogystal â'n gwaith meincnodi yn erbyn data ASHE, gwnaethom gymhariaeth gyfyngedig hefyd o swyddi dethol yn y sector cyhoeddus a phreifat sydd fel petaent yn cyfateb, yn eang iawn, i ddisgrifiadau swydd y staff cymorth ymhob band. Dangosir y canlyniad yn Ffigur 24. Roedd angen arfer crebwyll wrth ystyried cywerthedd swyddi neilltuol, ond mae'r data fel petai'n awgrymu bod uchafsymiau ac isafsymiau bandiau cyflog staff cymorth yn cymharu'n eithaf â'r cymaryddion yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.


**Ffigur 24: Uchafsymiau ac Isafsymiau Cyflogau Cymharol yn y Sector Preifat a Chyhoeddus**




[85] *Nodyn – Daw cymedr band 1 o ddata 2009, gan nad oedd data 2010 ar gael*

357. Gwnaethom hefyd gymharu cyflogau staff cymorth â chyflogau staff cymorth Aelodau Seneddol, heb gynnwys y staff hynny sy'n gweithio'n Llundain. Er nad yw'r cymaryddion hyn yn uniongyrchol berthnasol i gyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, gan nad ydynt yn canolbwyntio ar Gyd-destun Cymreig, maent yn darparu cymharydd defnyddiol o ran rôl swydd. Nid oedd data ar gael ar gyfer Senedd yr Alban na Chynulliad Gogledd Iwerddon, gan nad oes graddfeydd cyflog penodol ar gyfer staff cymorth yn y sefydliadau hynny. Dengys Ffigur 25 uchafsymiau ac isafsymiau rolau sy'n weddol debyg ar gyfer staff Aelodau Seneddol o'i gymharu â'r pwyntiau uchaf ac isaf ar bob band cyflog yn y Cynulliad.

**Ffigur 25: Cyflogau Staff Cymorth yn Senedd y DU ac yn y Cynulliad**





358. Roedd y gwaith a wnaethom yn cymharu a meincnodi cyflogau yn dangos nad yw'r bandiau cyflog a'r pwyntiau cyflog ar gyfer staff cymorth yn sylweddol wahanol i unigolion sy'n debyg o fod yn gwneud swyddi tebyg yng Nghymru.

## Taliadau Bonws

359. Troesom wedyn at fater taliadau bonws. Yn 2009-10, cafodd 130 aelod staff daliadau bonws, sef oddeutu hanner yr holl staff cymorth. Roedd lefelau'r taliadau bonws a dalwyd i staff yn amrywiol iawn, yn amrywio o £0 i £4,000, gyda chymedr o £1,051 a chanolrif o £865. Dangosir y taliadau bonws a dalwyd i staff cymorth dros y tair blynedd ariannol lawn diwethaf yn Ffigur 26.

**Ffigur 26: Taliadau Bonws Staff Cymorth**



360. Nid oeddem yn gallu gweld unrhyw resymeg amlwg dros ddyraniad y taliadau bonws o'r ffigurau a oedd ar gael i ni, ac ni chawsom unrhyw wybodaeth am y rhesymeg dros ddethol y rhai a dderbyniodd y taliadau bonws na swm y taliadau bonws unigol. Rydym yn derbyn y bydd gan Aelodau unigol o bosibl eu rhesymau eu hunain dros ddewis staff ar gyfer cael taliadau bonws a gosod lefelau'r taliadau bonws, ond mae'r dulliau sydd wedi cael eu defnyddio ar draws y Cynulliad wedi bod yn wahanol iawn, gyda diffyg eglurder ynghylch beth ddylai'r taliadau bonws ei wobrwyo. Felly daethom i'r casgliad fod talu taliadau bonws drwy gyfrwng y system bresennol yn tanseilio'r egwyddorion o degwch ar gyfer staff cymorth sy'n gwneud rolau tebyg a thryloywder cadarn yn y defnydd o arian cyhoeddus.

361. Edrychasom am gymaryddion yng Nghymru o ran taliadau bonws ar gyfer staff sy'n gwneud rolau tebyg i rolau'r staff cymorth, a chanfod nad oes llawer o wybodaeth ar gael a bod talu taliadau bonws yn amrywio – dim taliadau bonws yn cael eu talu o gwbl; taliadau bonws yn daladwy ar sail ddetholus wedi'i gysylltu â chyflawni targedau neu berfformiad; a thaliadau bonws yn daladwy i boblogaeth staff eang. Felly, ni ddaethom o hyd i sail resymegol gref yn cael ei gyrru gan y farchnad o blaid neu yn erbyn taliadau bonws i staff cymorth.

362. Edrychasom wedyn ar yr hyn sy'n digwydd yn neddfwrfeydd eraill y DU. Mae'r Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol (IPSA) wedi datgan na chaiff Aelodau Seneddol ariannu taliadau bonws i'w staff o'u cyllidebau, ni waeth a ellid fforddio taliadau bonws o'r fath o fewn y gyllideb.[86] Mae'r un sefyllfa'n bodoli yn Senedd yr Alban. Yng Ngogledd Iwerddon, caiff Aelodau o'r Cynulliad Deddfwriaethol dalu taliadau bonws i'w staff o fewn terfynau a ddiffinnir yn gaeth.

363. Rhoesom sylw dyledus hefyd i argymhelliad 55 y Panel Adolygu Annibynnol, a ganfu fod taliadau bonws i staff wedi "peri rhwyg yn y gorffennol ac wedi bod yn wrthgynhyrchiol. Defnyddiwyd hwy gan rai hefyd fel ffordd o sicrhau eu bod yn gwario'u lwfans cyflogau staff i gyd". Felly penderfynasom na fydd talu taliadau bonws yn cael ei ganiatáu yn y dyfodol, ond y dylid cynnwys yr arian a oedd yn cael ei ddefnyddio'n flaenorol i ariannu'r taliadau bonws yng nghyflogau'r staff cymorth.

## Taliadau Dileu Swydd

364. Buom hefyd yn ystyried taliadau dileu swydd ar gyfer staff cymorth yr Aelodau. Roedd Argymhelliad 69 y Panel Adolygu Annibynnol yn datgan y dylid "cyfrifo taliadau dileu swyddi staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn unol â'r cynllun taliadau dileu swyddi statudol ynghyd â thaliad ychwanegol o 50 y cant". Ar ôl cymharu'r argymhelliad hwn â thaliadau dileu swyddi sydd wedi'u gwneud gan gyrff eraill yng Nghymru, penderfynasom fod yr argymhelliad yn eithaf hael, ond heb fod yn amhriodol o gofio am ansicrwydd swyddi staff cymorth mewn Cynulliad cylchol.

---

[86] *IPSA Guidance Note to MPs: Staffing Expenditure and Employment of Staff* http://www.ipsa-home.org.uk/docs/Guidance%20note%20to%20MPs.pdf

### Pensiynau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad

365. Cytunasom y dylai'r Aelodau barhau i gael hawlio lwfans ar gyfer cost cyfraniadau a wneir i gynlluniau pensiwn personol eu staff. Bydd y swm uchaf sy'n daladwy wedi'i gyfyngu i 10 y cant o'r cyflog gwirioneddol a delir i'r aelod staff perthnasol. Nid yw'r lwfans hwn yn cyfrif yn erbyn y lwfans treuliau staff na'r lwfans costau swyddfa a chaiff ei dalu o gronfa ganolog ar wahân.

## Casgliadau

366. **Roedd ein gwaith meincnodi yn awgrymu bod lefel tal staff cymorth at ei gilydd yn debyg i lefelau tâl rolau tebyg eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Ystyriasom lefelau cyflog yn erbyn cefndir o rewi ar gyflogau yn y sector cyhoeddus ar gyfer y rheini sy'n ennill mwy na £21,000, ond gan gydnabod bod y mwyafrif o'r staff cymorth ym mand 3 a rhai staff cymorth ym mand 2 yn ennill llai na'r ffigur hwn. Ystyriasom hefyd y ffaith bod staff cymorth wedi cael ymrwymiad, fel yr amlinellwyd yn y Penderfyniad blaenorol[87], y byddai cyflogau'n cael eu cynyddu 2.3 y cant ym mis Ebrill 2011 yn unol â Mynegai Enillion Wythnosol Cyfartalog y DU ym mis Rhagfyr 2010. Rhoddwyd hwn ar waith cyn i'n Penderfyniad cyntaf gael ei wneud ac nid oeddwn yn credu ei bod yn briodol newid y penderfyniad hwnnw.**

367. **Roeddem yn teimlo nad oedd unrhyw resymeg clir yn gysylltiedig â'r patrwm blaenorol o daliadau bonws, nid oedd yn dryloyw, ac o bosibl yn annheg ac yn fympwyol. Felly penderfynasom na chaniateir talu dim taliadau bonws o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen.**

368. **Er mwyn sicrhau tegwch i staff cymorth, ac i sicrhau bod yr holl lefelau cyflog yn cyfateb i lefelau cyflog rolau tebyg, penderfynasom y bydd yr arian a ddefnyddir ar hyn o bryd i ariannu taliadau bonws yn cael ei gynnwys yng nghyflogau staff cymorth o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen. Ar sail yr arian ar gyfer y flwyddyn lawn ddiwethaf, 2009-10, ac ar raniad cyfatal ar draws yr holl bwyntiau cyflog, mae hyn yn arwain at £550 o godiad i bob pwynt cyflog.**

369. **Gan ystyried y codiad cyflog a bennwyd gan y Comisiwn ar gyfer Ebrill 2011 a chynnwys y taliadau bonws ar draws yr holl gyflogau, rydym wedi penderfynu rhewi'r graddfeydd cyflog ar y lefelau a ddangosir yn Ffigur 27 ar gyfer staff cymorth tan o leiaf Ebrill 2013.**

**Ffigur 27: Graddfeydd Cyflog y Staff Cymorth o Ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad**

| | Pwynt 1 | Pwynt 2 | Pwynt 3 | Pwynt 4 | Pwynt 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth grŵp ychwanegol | £30,404 | £31,961 | £33,600 | £35,323 | £37,138 |
| Band 1 | £22,594 | £24,620 | £26,833 | £29,249 | £31,890 |
| Band 2 | £19,296 | £21,225 | £23,353 | £25,698 | £28,287 |
| Band 3 | £17,472 | £18,826 | £20,285 | £21,861 | £23,563 |

[87] *http://www.assemblywales.org/nafw_salaries__allowances_determination_2009.pdf*

370. **Er mwyn cydnabod natur cyflogaeth staff cymorth, yn arbennig y risgiau sy'n gysylltiedig â swydd gyda chynrychiolydd etholedig, ac yn unol ag argymhelliad y Panel Adolygu Annibynnol, penderfynasom y dylai'r taliadau dileu swyddi a wneir i staff cymorth gyfateb i'r taliad dileu swydd statudol a thaliad ychwanegol o 50 y cant.**

371. **Cytunasom y dylai'r cyfraniad pensiwn ar gyfer staff cymorth, sy'n cael ei dalu o gronfa ganolog ar wahân, gael ei gyfyngu i 10 y cant o'r cyflog.**

## Ystyriaethau yn y Dyfodol

372. Yn ystod ein gwaith rydym wedi rhoi ystyriaeth briodol i dâl staff cymorth yng nghyswllt lefel y bandiau cyflog sylfaen o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen. Ni fydd y graddfeydd hyn yn cael eu cynyddu yn 2012 a byddwn yn adolygu'r sefyllfa cyn Ebrill 2013. Bydd yr adolygiad hwnnw'n cynnwys gwerthusiad mwy cynhwysfawr o ddisgrifiadau swydd a chyfrifoldebau nag a oedd yn bosibl yn yr amser a oedd ar gael ar gyfer yr adolygiad hwn, effeithiolrwydd (drwy fonitro argymhellion eraill yr ydym wedi'u gwneud ynghylch gwella capasiti strategol y Cynulliad), darpariaeth o ran pensiynau a chyfraddau trosiant yn ogystal â phriodoldeb bandiau cyflog a phwyntiau cyflog.

373. Byddwn yn hefyd yn rhoi rhagor o sylw i fater pensiynau staff cymorth cyn y Pumed Cynulliad, fel rhan o adolygiad llawn o'r pecyn tâl sydd ar gael i staff cymorth, ac yng ngoleuni argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Bensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus, a gadeirir gan yr Arglwydd Hutton.

# Cymorth Strategol a ddarperir gan Gomisiwn y Cynulliad

*Yn y bennod hon, rydym yn ymdrin â'r cymorth a ddarperir i Aelodau'r Cynulliad gan y Comisiwn. Rydym hefyd yn rhoi sylw i fater darparu hyfforddiant a datblygiad i Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth.*

374. Wrth ymgymryd â'u swyddogaethau yn y Cynulliad, mae'r Aelodau'n cael cymorth gan nifer o arbenigwyr proffesiynol a gyflogir gan y Comisiwn. Mae'r rhain yn cynnwys clercod sy'n cefnogi busnes ffurfiol y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ac yn y pwyllgorau, cyfreithwyr, cyfathrebwyr proffesiynol ac eraill. Yr hyn sy'n berthnasol iawn i fater diben strategol yw'r rôl a gyflawnir gan y staff cymwysedig iawn yng Ngwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, sy'n darparu dadansoddiad, gwybodaeth ac ymchwil arbenigol a diduedd. Ar hyn o bryd, oherwydd adnoddau cyfyngedig, mae'n rhaid i'r Gwasanaeth daro cydbwysedd rhwng swyddogaethau craffu a deddfwriaethol y Cynulliad a chefnogi Aelodau'r Cynulliad sy'n delio â materion penodol a godir gan etholwyr unigol.

## Ad-drefnu'r Gwasanaeth Ymchwil

375. Yn ystod y Trydydd Cynulliad, gwelwyd twf yn nifer yr ymholiadau a gyflwynwyd i'r Gwasanaeth Ymchwil sy'n gymharol hawdd eu hateb - er enghraifft, cael cyngor am ffynonellau cyllid, gwybodaeth am grantiau sydd ar gael, neu geisiadau am wybodaeth sydd ar gael yn hwylus i'r cyhoedd.

376. Mae dadansoddiad o hapsampl o ymholiadau am faterion etholaethol a gyflwynwyd i'r Gwasanaeth Ymchwil gan Aelodau a'u staff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn dangos y gallai staff cymorth yr Aelodau fod wedi delio ag oddeutu 20 y cant o'r holl ymholiadau ac oddeutu 45 y cant o'r ymholiadau'n ymwneud â materion etholaethol, a hynny heb ddim neu fawr ddim mewnbwn gan staff y Gwasanaeth Ymchwil. Mae cyfran uchel o'r ymholiadau hyn eisoes yn cael sylw'n gyflym drwy gyfeirio Aelodau a'u staff at ffynonellau gwybodaeth priodol. Mae'r Gwasanaeth wedi darparu gwybodaeth sylweddol ar dudalennau mewnrwyd y Cynulliad ac yn y man bydd yn cyhoeddi 'pecyn cymorth etholaethol' ar dudalennau gwe'r Cynulliad Cenedlaethol i helpu staff cymorth i ddelio ag ymholiadau yn y lle cyntaf.

377. Mater i Gomisiwn y Cynulliad a rheolwyr y Gwasanaeth fydd cyfeiriad a ffocws y Gwasanaeth Ymchwil yn y Cynulliad nesaf. Ond, yng ngoleuni'n harchwiliad o'r ystod lawn o adnoddau sydd

ar gael i Aelodau, rydym yn annog y Comisiwn i sicrhau bod y Gwasanaeth yn gallu blaenoriaethu'i waith ac yn gwrthod ceisiadau lle mae modd dod o hyd i'r wybodaeth yn hwylus yn y parth cyhoeddus neu lle mae'r gwaith o gasglu a dadansoddi gwybodaeth yn galw am ormod o ymdrech ac amser. Bwriad ein penderfyniad i fynnu bod elfen sylweddol o'r adnodd staff cymorth a gyflogir yn uniongyrchol gan yr Aelodau yn cael ei defnyddio ar ymchwil yw ategu dull gweithredu o'r fath. Credwn y bydd y gefnogaeth ar gyfer diben strategol y Cynulliad yn cael ei darparu'n well os bydd gwaith ymchwil syml, yn arbennig yng nghyswllt gwaith achos yn yr etholaethau, yn cael ei wneud fel rhan o rôl y rheini a gyflogir gan yr Aelodau fel cynorthwywyr ymchwil yn hytrach na chael ei gyfeirio at y Gwasanaeth Ymchwil. Wedyn byddai mwy o ymdrech yr arbenigwyr pwnc a gyflogir yn y Gwasanaeth Ymchwil ar gael i gefnogi Aelodau yn eu rolau craffu a deddfwriaethol strategol.

## Mynediad at Wybodaeth

378. Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 4, er mwyn cyflawni ei swyddogaethau craffu craidd yn effeithiol, mae'r Cynulliad yn dibynnu ar gydweithrediad Llywodraeth Cymru. Roedd y Panel Adolygu Annibynnol yn cydnabod na all y Cynulliad weithredu heb lif gwybodaeth briodol ac argymhellodd bod Aelodau unigol angen cael gwell cysylltiad â swyddogion Llywodraeth Cymru a'r wybodaeth sydd ganddynt, drwy Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

379. Mae'r trefniadau sydd ar gael yn y Trydydd Cynulliad, a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru yn 2007, yn golygu bod yn rhaid i bob cais am wybodaeth oddi wrth y Gwasanaeth Ymchwil gael ei gyfeirio, yn ysgrifenedig, drwy Swyddfeydd Preifat y Gweinidogion. Ni chaniateir i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau gael cyswllt uniongyrchol â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru.

380. Roedd tystiolaeth a gawsom am ddarparu gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn dangos:

- bod oddeutu 75 y cant o ymholiadau a anfonwyd i Swyddfeydd Preifat y Gweinidogion heb gael ymateb o fewn pum niwrnod gwaith;

- mai'r amser ymateb ar gyfartaledd oedd 17 diwrnod gwaith. Roedd ugain y cant o'r ymatebion wedi cymryd mwy na'r 20 diwrnod gwaith a bennir yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Yr amser ymateb hiraf hyd yma yw 290 diwrnod gwaith; ac

- o dan y trefniadau hyn, gwaherddid staff y Gwasanaeth Ymchwil rhag cyfathrebu'n uniongyrchol â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru ac felly â mynediad mwy cyfyngedig na staff eraill Comisiwn y Cynulliad neu gydweithwyr yng ngwasanaethau ymchwil cyfatebol Senedd y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

381. Mae cefnogi diben strategol y Cynulliad yn ganolog i'n gwaith ac, yn ein barn ni, mae craffu ar bolisïau a chyllid Llywodraeth Cymru yn un o swyddogaethau strategol craidd y Cynulliad. Os yw'r Aelodau i gyflawni'r swyddogaeth honno'n effeithiol, mae'n rhaid iddynt allu cael gafael yn hwylus ar wybodaeth ffeithiol sydd ym meddiant Llywodraeth Cymru. Mae'r Pedwerydd

Cynulliad yn rhoi cyfle i ailddiffinio'r berthynas hon a sicrhau bod staff Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Ymchwil yn gweithio'n fwy effeithiol â'i gilydd gan hefyd fod yn gwbl ymwybodol ac yn barchus o'r cyd-destunau gwahanol y maent yn gweithredu ynddynt. Rydym felly'n ategu'n gryf argymhelliad y Panel Adolygu Annibynnol bod angen i Aelodau unigol gael cysylltiad gwell a mwy uniongyrchol â swyddogion Llywodraeth Cymru a'r wybodaeth sydd ganddynt, drwy Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

382. I'r diben hwn, rydym yn argymell y dylai Comisiwn nesaf y Cynulliad weithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu trefniadau sy'n cyfateb i'r rheini sydd ar gael yn sefydliadau seneddol eraill y DU, sef gwasanaeth sy'n seiliedig ar yr egwyddorion bod yn rhaid i Aelodau unigol a phwyllgorau gael hawl mynediad wedi'i flaenoriaethu i wybodaeth ffeithiol sydd gan Lywodraeth Cymru ac y dylai staff y Gwasanaeth Ymchwil allu cyfathrebu'n uniongyrchol â swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru.

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus

383. Yn ystod ein gwaith, cawsom wybod bod Comisiwn y Cynulliad yn ddiweddar wedi cynnal ailstrwythuriad strategol o'r gwasanaethau y mae'n eu darparu i Aelodau i baratoi ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad.

384. Un o'r prif resymau dros yr ailstrwythuro hwnnw oedd cynyddu'r ffocws ar anghenion penodol yr Aelodau a'u staff, gyda swydd uwch newydd yn cael ei sefydlu i hyrwyddo'u datblygiad proffesiynol parhaus.

385. Croesawn y ffaith fod y Comisiwn yn cydnabod pa mor bwysig yw datblygiad proffesiynol yr Aelodau a'r staff cymorth i weithrediad effeithiol y Cynulliad fel sefydliad seneddol strategol.

386. Dywedwyd wrthym hefyd y bydd datblygiad proffesiynol Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth yn cael llawer mwy o flaenoriaeth yn y Pedwerydd Cynulliad nag yn y gorffennol. Bydd y Comisiwn yn darparu cyllideb o £125,000 yn 2011-12 i ariannu gweithgarwch datblygu o'r fath. Rydym yn cefnogi'r camau hyn a fydd yn cydategu ein ffocws ar gyflawni strategol.

## Casgliadau

387. **Mae gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau rôl allweddol yn cefnogi diben strategol y Cynulliad. Rydym yn ategu argymhelliad y Panel Adolygu Annibynnol y dylid gwella'r llif gwybodaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru ac yn annog y Comisiwn i geisio cytundeb â Llywodraeth Cymru a fydd yn caniatáu i'r Gwasanaeth Ymchwil weithredu mewn ffordd debyg i'w gyrff cyfatebol ymhob deddfwrfa arall yn y DU.**

388. **Rydym yn ategu'r pwyslais cynyddol gan y Comisiwn ar ddatblygiad proffesiynol parhaus yr Aelodau ac, yn benodol, eu staff, gan y gwelwn hyn fel cyfle i wneud y gorau posibl o gapasiti'r Cynulliad, ac i sicrhau bod yr Aelodau'n gallu darparu'r gwasanaeth gorau posibl i bobl Cymru.**

# Rhagamcan o'r Costau

*Yn y bennod hon rydym yn ymdrin â'r rhagamcan o'r costau sy'n codi o'n Penderfyniad ar gyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad, a thaliadau i staff, ar gyfer 2011-12.*

389. Fel y disgrifiwyd ym Mhennod 1, rydym wedi gwneud ein Penderfyniad cyntaf yn erbyn cefndir o amgylchiadau ariannol anodd. Cytunasom na ddylai costau ariannol ein Penderfyniad fod yn fwy na chyllideb yr Aelodau y cytunwyd arni ar gyfer 2011-12 a dylai fod yn bosibl, hyd y bo modd o ran y rhagamcanion y gellir eu gwneud, ei gyflawni o fewn cyllideb ddangosol yr Aelodau ar gyfer 2012-13.

## Rhagamcan o Gyfanswm Cost ein Penderfyniad

390. Mae Ffigur 28 yn rhoi'r rhagamcan o gost ein Penderfyniad yn erbyn cyllideb yr Aelodau y cytunwyd arni ar gyfer 2011-12 a'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2012-13. Mae ffigur y gyllideb ar gyfer 2010-11 wedi'i gynnwys er gwybodaeth.

391. Bydd y rhagamcan o gost y penderfyniadau yr ydym wedi'u cymryd oddeutu £12.7 miliwn yn 2011-12, gostyngiad 7.1 y cant o dan y gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer 2010-11.[88] Canlyniad hyn yw y bydd arian dros ben o fewn y gyllideb ar gyfer 2011-12 o 2.3 y cant. Dyma ddull darbodus o weithredu, o gofio ein bod wedi gwneud nifer o newidiadau i'r system cymorth ariannol a rhai penderfyniadau dros dro yng nghyswllt lwfansau deiliaid swyddi a lwfansau cysylltiedig, na allwn ond amcangyfrif eu heffaith ar hyn o bryd.

**Ffigur 28: Costau Cyffredinol 2011-12 a 2012-13**

| Gwariant refeniw | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| Cyllideb yr Aelodau | 13,380 | 13,034 | 13,041 |
| Ein Penderfyniad (rhagamcan o'r costau) | - | 12,734 | 12,889 |
| Dros ben | | 300 | 152 |

## Rhagamcanion Cost Penodol

392. Mae Ffigur 29 yn dangos rhagamcan o'r costau yn ôl meysydd cost penodol.

---

[88] *Defnyddir tybiaethau Trysorlys EM - 2011-12 2.5 y cant, 2012-13 2.2 y cant, a 2013-14 2.7 y cant fel ar 29 Tachwedd 2010 (cyrchwyd 9 Mawrth 2011).*

**Ffigur 29: Rhagamcan o'r Costau yn ôl Maes Cost Penodol 2011-12 a 2012-13 (£000)**

| Gwariant refeniw | 2011-12 | 2012-13 |
|---|---:|---:|
| Costau cyflog sylfaen yr Aelodau | 4,079 | 4,073 |
| Costau cyflogau deiliaid swyddi | 1,001 | 1,027 |
| Costau cyflogau staff cymorth | 6,240 | 6,350 |
| Teithio | 259 | 259 |
| Teithio a chynhaliaeth staff cymorth | 40 | 40 |
| Lwfans costau swyddfa | 821 | 846 |
| Lwfans costau preswyl | 289 | 289 |
| Teithio a Chynhaliaeth y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd | 4 | 4 |
| Treuliau Comisiynydd y Cynulliad | 1 | 1 |
| Ein Penderfyniad (rhagamcan o'r costau) | 12,734 | 12,889 |
| Cyllideb yr Aelodau | 13,034 | 13,041 |

### Costau Cyflogau Aelodau'r Cynulliad

393. O ganlyniad i rewi cyflogau Aelodau'r Cynulliad ar lefel Mawrth 2011, sef £53,852, a hynny am bedair blynedd o ddechrau'r Cynulliad nesaf, rydym yn amcangyfrif y bydd y costau sy'n gysylltiedig â chyflogau Aelodau'r Cynulliad yn £4.079 miliwn yn 2011-12 a £4.073 miliwn in 2012-13.

394. Mae'r ffigur hwn yn ystyried y cynnydd un y cant yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol Comisiwn y Cynulliad o fis Ebrill 2011, sy'n arwain at ragamcanion o £294,000 ar gyfer 2011-12 a £300,000 ar gyfer 2012-13. Ar gyfer 2012.13, rydym yn amcangyfrif y ceir gostyngiad yng nghyfraniad pensiwn y Comisiwn i gronfa bensiwn yr Aelodau o ganlyniad i symud o'r Mynegai Prisiau Manwerthu i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer cyfrifo codiadau pensiwn blynyddol. Felly rydym yn amcangyfrif y bydd y gost pensiwn ar gyfer cyflogau Aelodau'r Cynulliad yn £727,000 yn 2011-12 a £647,000 yn 2012-13.

### Costau Cyflogau Deiliaid Swyddi

395. Rydym yn amcangyfrif y bydd y costau sy'n gysylltiedig â chyflogau deiliaid swyddi'n £1.001 miliwn yn 2011-12 a £1.027 miliwn yn 2012-13. Mae hyn yn cynnwys rhagamcanion ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol o £100,000 yn 2011-12 a £105,000 yn 2012-13. Rydym yn amcangyfrif y bydd costau pensiwn ar gyfer cyflogau deiliaid swyddi yn £173,000 yn 2011-12 a £158,000 yn 2012-13.

396. Fel y disgrifir ym Mhennod 6, bwriadwn adolygu cyflogau ychwanegol i gadeiryddion pwyllgorau, Comisiynwyr, arweinwyr plaid a chwipiaid cyn gynted â phosibl ar ôl yr etholiad. Bydd hyn yn effeithio ar y rhagamcanion ym mharagraff 395.

### Costau Cyflogau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad

397. Rydym yn amcangyfrif y bydd costau cyflogau staff cymorth yn £6.240 miliwn yn 2011-12. Mae'r rhagdybiaeth hon yn seiliedig ar y lefelau cyflog a nodir ym Mhennod 9; gostyngiad a amcangyfrifir yng nghostau cyflogau yn sgil diddymu'r Cynulliad cyn y Pedwerydd Cynulliad ac,

oherwydd nifer sylweddol yr Aelodau Cynulliad newydd y rhagwelir eu hethol i'r Pedwerydd Cynulliad, nifer mawr o staff newydd yn dechrau ar waelod eu graddfeydd cyflog. Mae'r swm hefyd yn ystyried y cynnydd un y cant yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr o fis Ebrill 2011.

### Costau Swyddfa

398. Rydym yn amcangyfrif y bydd y lwfans costau swyddfa yn £821,000 yn 2011-12. Mae'r swm hwn yn seiliedig ar y penderfyniad mai'r uchafswm a fydd ar gael ar gyfer pob Aelod Cynulliad yn 2011-12 fydd £16,242, a rhagdybiaeth y bydd 84 y cant o'r cyfanswm yn cael ei hawlio, ar sail data hanesyddol.

### Costau Llety Preswyl

399. Rydym yn amcangyfrif y bydd costau llety preswyl yn £289,000 yn 2011-12. Mae hyn yn seiliedig ar ein penderfyniad mai dim ond 25 Aelod Cynulliad fydd yn cael hawlio lwfans rhentu, ac y bydd y lwfans rhentu'n cael ei gapio ar £700 am bob mis calendr. Rydym hefyd wedi rhagdybio y bydd y costau ar gyfer y cyfleustodau a ganiateir, ar gyfartaledd, yn £2,600 y flwyddyn ar gyfer pob Aelod Cynulliad cymwys.

### Costau Teithio

400. Rydym yn amcangyfrif y bydd y lwfans teithio yn £259,000 yn 2011-12. Rydym wedi rhagdybio, oherwydd y gostyngiad yn nifer yr Aelodau Cynulliad a fydd yn gymwys i gael llety rhent yng Nghaerdydd, y bydd y swm a hawlir gan Aelodau Cynulliad am y milltiroedd a deithir yn eu cerbydau personol yn cynyddu £50,000 yn 2011-12 o'i gymharu â ffigurau'r blynyddoedd blaenorol.

## Costau ein Gwaith

401. Y gost unionyrchol a wynebwyd gan y Bwrdd Taliadau wrth lunio ein Penderfyniad cyntaf oedd £28,995. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys taliadau aelodau'r Bwrdd a'r treuliau a brofwyd yn ystod ein gwaith, ac mae'n cwmpasu chwe chyfarfod ffurfiol, chwe diwrnod o ymgynghori gan y cadeirydd, 33.5 diwrnod o waith paratoi, a 34.5 diwrnod o ymchwil arbenigol gan aelodau'r Bwrdd â phrofiad proffesiynol o faterion yn ymwneud â thaliadau. Ceir dadansoddiad llawn o'r costau hyn ar ein gwefan.[89]

[89] *http://www.assemblywales.org/memhome/mem-allow-pay-pensions/remuneration_board.htm*

# Aelodaeth a Chylch Gwaith y Bwrdd Taliadau

Sefydlwyd y Bwrdd Taliadau, yn unol ag argymhelliad y Panel Adolygu Annibynnol ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau'r Cynulliad yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2009, gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

Mae’r Bwrdd yn gorff statudol annibynnol sy’n gyfrifol am y canlynol:

- darparu lefel o daliadau i Aelodau’r Cynulliad sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y mae disgwyl iddynt eu cyflawni a lefel nad yw'n rhwystro unigolion sy'n meddu ar yr ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag sefyll mewn etholiad ar gyfer y Cynulliad, am resymau ariannol;
- darparu adnoddau digonol i Aelodau’r Cynulliad er mwyn eu galluogi i arfer eu swyddogaethau fel Aelodau; a
- sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn ffordd sy'n sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder.

Wrth ymgymryd â’i gylch gwaith, mae'n rhaid i'r Bwrdd weithredu'n agored ac yn dryloyw a, lle teimla'r Bwrdd fod hynny'n briodol, ymgynghori â'r rheini y mae'n debygol yr effeithir arnynt wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

Penodwyd y Bwrdd ar sail proses recriwtio agored a theg ac mae’n cynnwys Cadeirydd a 4 aelod Bwrdd.



**Y Gwir Anrhydeddus George Reid**
(Cadeirydd)
Gwleidydd, newyddiadurwr ac academydd o’r Alban. Aelod o’r Cyfrin Gyngor, cyn AS, Aelod o Senedd yr Alban, Llywydd Senedd yr Alban a Chadeirydd ei Chorff Corfforaethol. Bu’n gweithio am 15 mlynedd mewn rhyfeloedd a thrychinebau fel cyfarwyddwr y Groes Goch Ryngwladol/Cilgant Coch. Mae ei benodiadau presennol yn cynnwys: Comisiynydd Etholiadol y DU, Cynghorydd Annibynnol ar God Gweinidogol yr Alban, ac athro gwadd ym Mhrifysgolion Glasgow a Stirling. Yn ddiweddar, bu'n arwain adolygiadau strategol ar lywodraethu yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Alban.



**Sandy Blair CBE**

Cyn gyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CLlLC (ymddeolodd yn 2004). Bu'n brif weithredwr awdurdod lleol am 16 mlynedd cyn cael ei benodi i CLlLC, ac yn Llywydd SOLACE yn 1999/2000. Mae wedi cael ei gyflogi mewn nifer o swyddi cyhoeddus ac wedi bod yn ymddiriedolwr cyrff cyhoeddus megis cyfarwyddwr anweithredol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cadeirydd Bwrdd Cyllid Esgobaeth Mynwy a swyddi o fewn yr Eglwys yng Nghymru. Mae wedi bod yn aelod o Bwyllgorau Taliadau UWIC a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.



**Mary Carter**

Ymddeolodd fel Partner yn KPMG ym mis Medi 2008 ac ar hyn o bryd mae'n aelod o Gorff Adolygu Cyflogau'r Lluoedd Arfog sy'n gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn ar gyflogau milwrol, lwfansau a thaliadau digolledu, yn ogystal ag ymgynghorydd rhan amser i KPMG. Mae'n gyfreithiwr ac wedi arbenigo ers dros 20 mlynedd ar gynghori cwmnïau yn y DU a thu hwnt ar daliadau a chymhellion i gyfarwyddwyr/uwch reolwyr a materion trethiant a llywodraethu cysylltiedig.



**Stuart Castledine**

Cyfrifydd siartredig sydd wedi dal nifer o swyddi rheoli ariannol a chyffredinol gydag Allied Dunbar, Chartered Trust a Chymdeithas Adeiladu Bristol & West cyn dod yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol cyntaf Tesco. Yn fwy diweddar, mae wedi ymgymryd â nifer o aseiniadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan helpu i sefydlu cynghreiriau a mentrau ar y cyd, yn ogystal â bod yn gyfarwyddwr sy'n gwyrdroi nifer o sefydliadau gwasanaethau ariannol sy'n methu. Ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Cyllid Bluestone Resorts Ltd ac yn cyfarwyddwr anweithredol Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.



**Yr Athro Monojit Chatterji**

Ac yntau'n academydd sydd â phrofiad ym maes polisi cyhoeddus, mae wedi cyhoeddi gwaith ymchwil mewn meysydd megis y ffactorau sy'n pennu cyflogau'r sector cyhoeddus. Ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd Cydgyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achosion Brys y DU (y corff negodi tâl). Cyn hynny bu'n aelod o gorff Adolygu Athrawon Ysgol sy'n gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau ar gyflogau ac amodau, a threfniadau llywodraethu hefyd ar gyfer athrawon ysgol a phenaethiaid ysgol yng Nghymru a Lloegr. Mae hefyd yn gyn aelod o'r Grŵp Economegwyr, Swyddfa Economeg y Gweithlu, yn ystyried materion trawsbleidiol yn ymwneud â thâl yn y sector cyhoeddus.

# Cyfarfodydd y Bwrdd

| Dyddiad | Cyfarfod |
|---|---|
| 1 Hydref 2010 | Cyfarfod Bwrdd ffurfiol: cyflwyniad; tystiolaeth gan gyn aelod o'r PAA; rôl a phwrpas y Cynulliad a'r Aelodau; cynnydd ar weithredu argymhellion y PAA; cytuno ar raglen waith ddrafft |
| 13 Hydref 2010 | Cyfarfodydd rhagarweiniol rhwng y Cadeirydd a chynrychiolwyr/arweinyddion y pleidiau; sesiwn galw heibio'r Cadeirydd ar gyfer Aelodau |
| 14 Hydref 2010 | Cyfarfod Bwrdd ffurfiol: tystiolaeth gan Aelodau'r Cynulliad o bob plaid; cyn aelod o'r PAA; Cadeirydd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn yr Aelodau; staff cymorth yr Aelodau; a chynrychiolwyr undebau llafur y staff cymorth |
| 10 Tachwedd 2010 | Cyfarfodydd anffurfiol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf rhwng y Cadeirydd a chynrychiolwyr/arweinyddion y pleidiau; sesiwn galw heibio'r Cadeirydd ar gyfer Aelodau |
| 11 Tachwedd 2010 | Cyfarfod ffurfiol o'r Bwrdd: cyflog sylfaen yr Aelodau; argymhellion y PAA y mae angen ystyried rhagor arnynt; capasiti a diben strategol y Cynulliad |
| 8 Rhagfyr 2010 | Cyfarfodydd anffurfiol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf rhwng y Cadeirydd a chynrychiolwyr/arweinyddion y pleidiau, staff cymorth yr Aelodau a chynrychiolwyr undebau llafur staff cymorth yr Aelodau; sesiwn galw heibio'r Cadeirydd ar gyfer Aelodau; y Cadeirydd wedi mynychu cyfarfod o'r grŵp Ceidwadwyr |
| 9 Rhagfyr 2010 | Cyfarfodydd gyda deiliaid swyddi; colocwiwm |
| 10 Rhagfyr 2010 | Cyfarfod Bwrdd ffurfiol: diben strategol y Cynulliad; cyflogau staff cymorth yr Aelodau; cyflogi staff cymorth; Pensiynau'r Aelodau |
| 11 Ionawr 2011 | Y Cadeirydd wedi mynychu cyfarfodydd grwpiau Plaid Cymru, Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol; cyfarfodydd anffurfiol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf rhwng y Cadeirydd a chynrychiolwyr/arweinyddion y pleidiau; sesiwn galw heibio'r Cadeirydd ar gyfer Aelodau |
| 12 Ionawr 2011 | Cyfarfodydd anffurfiol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf rhwng y Cadeirydd a staff cymorth yr Aelodau |
| 13 Ionawr 2011 | Cyfarfod Bwrdd ffurfiol: y diweddaraf am y gyllideb; capasiti strategol yn y Cynulliad; cyflogau deiliaid swyddi; staff cymorth yr Aelodau; Pensiynau Aelodau |
| 25 Chwefror 2011 | Cyfarfod Bwrdd ffurfiol: y diweddaraf am y gyllideb; cyflogau deiliaid swyddi; cydraddoldebau; capasiti strategol; Penderfyniad; Pensiynau'r Aelodau |

Mae agenda a chofnodion holl gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd ar gael ar wefan y Bwrdd yn:
http://www.assemblywales.org/memhome/mem-allow-pay-pensions/members-remunerationboard/meetings-board.htm

# Ymgynghori

Drwy gydol ei waith, ac yn unol ag Adran 2 o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, bu'r Bwrdd yn ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid. Mae'r Bwrdd yn arbennig o ddiolchgar i'r canlynol am fod yn fodlon darparu tystiolaeth i'w gefnogi yn ei waith, boed hynny drwy fynychu cyfarfodydd gyda'r Bwrdd, cyfrannu at ei golocwiwm, ymateb i'w arolwg neu ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig.

**Aelodau'r Cynulliad:**
Leighton Andrews AC
Mohammed Asghar AC
Lorraine Barrett AC
Peter Black AC
Nick Bourne AC
Eleanor Burnham AC
Angela Burns AC
Rosemary Butler AC
Christine Chapman AC
Jeff Cuthbert AC
Alun Davies AC
Andrew RT Davies AC
Paul Davies AC
Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Elis-Thomas Aelod o'r Cyfrin Gyngor AC
Nerys Evans AC
Chris Franks AC
Veronica German AC
Brian Gibbons AC
William Graham AC
Janice Gregory AC
John Griffiths AC
Lesley Griffiths AC
Mark Isherwood AC
Bethan Jenkins AC
Alun Ffred Jones AC
Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Elin Jones AC
Gareth Jones AC
Helen Mary Jones AC
Dai Lloyd AC
Val Lloyd AC
David Melding AC
Jonathan Morgan AC
Y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan AC
Nick Ramsay AC
Jenny Randerson AC
Gwenda Thomas AC
Rhodri Glyn Thomas AC
Kirsty Williams AC
Leanne Wood AC

**Staff Cymorth yr Aelodau:**
Chris Binding, *Llafur Cymru a chynrychiolydd y GMB*
Anthony Cooper, *Llafur Cymru*
David Costa, *Llafur Cymru a chynrychiolydd Unsain*
Kelly Davies, *Plaid Cymru a chynrychiolydd y PCS*
Joanne Foster, *Democratiaid Rhyddfrydol Cymru*
Mark Major, *Ceidwadwyr Cymru*
Jackie Radford, *Democratiaid Rhyddfrydol Cymru*
Karen Roberts, *Democratiaid Rhyddfrydol Cymru*
Carole Willis, *Plaid Cymru*

**Ymgyngoreion Allanol:**
Yr Athro Laura McAllister, *Prifysgol Lerpwl*
Gerard Elias CF, *Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru*
Gwion Evans, *Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru*
Ruth Fox, *Cymdeithas Hansard*
Richard Wyn Jones, *Canolfan Llywodraethiant Cymru*
Andy Klom, *Comisiwn Ewropeaidd*
Keith Masson, *Ysgrifenyddiaeth Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion*
Jackie Nickson, *aelod o'r Panel Adolygu Annibynnol*
Dr Diana Stirbu
Martyn Taylor, *Ysgrifenyddiaeth yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol*
Peter Tyndall, *Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru*
Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Wigley, *Aelod o'r Cyfrin Gyngor, aelod o'r Panel Adolygu Annibynnol*

# Dogfennau Cefndir

## Dogfennau Perthnasol Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: *Cyllideb Comisiwn y Cynulliad 2011-12*
Cynulliad Cenedlaethol Cymru: *Determination of Members' Pay and Allowances 2010*

## Taliadau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad SSRB rhif 42: *Initial Pay, Allowances, Pensions and Severance Arrangements for: Members of the Scottish Parliament, National Assembly for Wales, Northern Ireland Assembly*, 1999
Adroddiad SSRB rhif 49: *Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Review of Pay and Allowances*, 2001
Adroddiad SSRB rhif 58: *Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Review of Pay and Allowances*, 2004
Cynulliad Cenedlaethol Cymru: *Adroddiad y Panel Annibynnol ar Gymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad*, 2008
Cynulliad Cenedlaethol Cymru: *Yn Gywir i Gymru: Adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau*, 2009

## Taliadau yn Neddfwrfeydd Eraill y DU

IPSA Guidance Note to MPs: *Staffing Expenditure and Employment of Staff*, 2010
Scottish Parliament, SPCB: *Report to the Scottish Parliamentary Corporate Body on the Reimbursement of Expenses for Members of the Scottish Parliament*, Syr Alan Langlands, 2008
Scottish Parliament, SPCB: *A Report on the Scheme for the Reimbursement of Members' Expenses*, Syr Neil McIntosh, Corporate Body, 2009
Scottish Parliament, SPICe: *The Edinburgh Accommodation Allowance – An International Comparison*, D Oag and S Wakefield, 2007
Scottish Parliament, SPICe: *Parliamentary Pay and Expenses*, Murray Earle, 2007
Adroddiad SSRB Rhif 48: *Review of Parliamentary Pay and Allowances*, Volume I, 2001
Adroddiad SSRB Rhif 48: *Review of Parliamentary Pay and Allowances*, Volume II, 2001
Adroddiad SSRB Rhif 50: *Scottish Parliament: Review of Pay and Allowances*, 2001
Adroddiad SSRB Rhif 57: *Review of Parliamentary Pay and Allowances*, Volume 1, 2004
Adroddiad SSRB Rhif 57: *Review of Parliamentary Pay and Allowances*, Volume 2, 2004
Adroddiad SSRB Rhif 67: *Northern Ireland Assembly: Review of Pay, Pensions and Allowances*, 2008
SSRB: *Review of Parliamentary Pay and Pensions*, Syr John Baker, 2008
SSRB: *Determination of MPs' Salary Increases for 2009*
SSRB: *Determination of MPs' Salary Increases for 2010*
SSRB: *Determination of MPs' Salary Increases for 2011*
SSRB: *Review of the Parliamentary Contributory Pension Fund*, 2010

## Deddfwriaeth

*Deddf Llywodraeth Cymru 1998*, http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/38/contents
*Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/contents

*Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010*,
http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/mwa2010/mwa_20100004_en_1

## Gwybodaeth Ystadegol

*Annual Survey of Hours and Earnings 2009*,
http://www.statistics.gov.uk/StatBase/Product.asp?vlnk=15313
*Annual Survey of Hours and Earnings 2010*,
http://www.statistics.gov.uk/statbase/Product.asp?vlnk=1951

## Erthyglau Cefndir Cyffredinol

Andrews, J and Bradbury, R (2010), *State Devolution and National Identity: Continuity and Change in the Politics of Welshness and Britishness in Wales*, Parliamentary Affairs, 63, 2, p229.

Ashworth, R E, Boyne, G A and Walker, R M (2001), *Reducing the Democratic Deficit? Devolution and the Accountability of Public Organisations in Wales*, Public Policy and Administration, 16, p1-17.

Bogdanor, V, (2001), *Devolution in the United Kingdom*, Chapters 5 & 7, Oxford: Oxford University Press.

Bogdanor, V, (2009), *Devolution In The New British Constitution*, Chapter 4, London: Hart.

Bradbury, J, Gay, O, Hazell, R and Mitchell, J (2003), *Local Representation in a Devolved Scotland and Wales: Guidance for Constituency and Regional Members: Lessons from the First Term*. (Policy Paper: no.9), Birmingham: ESRC Devolution Programme.

Bradbury, J (2008), *Devolution in Wales: an Unfolding Process*, in J. Bradbury, ed. *Devolution, Regionalism and Regional Development: the UK Experience*, Chapter 3, London: Routledge.

Chaney, P (2001), *New Governance, New Democracy? Post-devolution Wales,* Cardiff: University of Wales Press.

Cole, A, Jones, J B and Storer, A (2003), *Inside the National Assembly for Wales: the Welsh Civil Service Under Devolution*, Political Quarterly, 74 (2), p223-232.

Cooke, P and Clifton, N (2005), *The Welsh Assembly and Economic Governance in Wales*, Cardiff: University of Wales.

Crompton, A (2009), *Infant parliament*, Agenda, Winter 2009, p24-26.

Curtice, J (2005), *Public Opinion and the Future of Devolution*; in Trench, A (ed.) *The Dynamics of Devolution: the State of the Nations 2005*, Chapter 6. Exeter: Imprint Academic.

Davies, R (1999), *Devolution: a Process Not an Event*, Cardiff: Institute of Welsh Affairs.

Deacon, R and Sandry, A (2007), *Devolution in the United Kingdom*, Edinburgh: University Press.

George, A and Crompton, A (2004), *Wales' National Assembly: Analysing the Progress of a First Legislature*, Parliamentarian, 85 (3), p242-245.

Hazell, R and Trench, A (eds.) (2005), *The State of the Nation 2000-2005*, London: UCL.

Hunter, J (2004), *The Politics of Identity: Wales*, in O'Neill, M (ed.) *Devolution and British Politics*, Chapter 5. London: Longman.

Jenkins, S (2003), *Welsh Devolution Through London Eyes*, Transactions, Honourable Society of Cymmrodorion, 2003, p175-184.

Jones, R W (2007), *Diogelu'r deyrnas*, Barn, 537, p12-15.

Jones, R W and Scully, R (2004), *Devolution in Wales: What Does the Public Think?*, Devolution Briefings; no.7, Birmingham: ESRC Devolution Programme.

Jones, R W and Scully, R (2009), *Welsh Devolution: the End of the Beginning and the Beginning of..?*, in Trench, A (ed.) *The state of the Nations 2008*, Chapter 3, Exeter: Imprint.

McAllister, L and Stirbu, D (2008), *Influence, impact and legacy: assessing the Richard Commission's contribution to Wales's evolving constitution*, Representation, April 2008.

McAllister, L and Stirbu, D (2007), *Developing Devolution's Scrutiny Potential: a Comparative Evaluation of the National Assembly for Wales's Subject Committees*, Policy & Politics, 35(2), 289-309.

Melding, D (2009), *Will Britain Survive Beyond 2020?*, Cardiff: Institute of Welsh Affairs.

Mitchell, J (2009), *Devolution is a Process: Wales*, in Devolution in the UK, Chapter 7, Manchester: Manchester University Press.

Morgan, K and Mungham, G (2000), *Redesigning Democracy: the Making of the Welsh Assembly*, Cardiff: Seren.

Morgan, K et al (2009), *Devolution Dividend*, Agenda, Spring 2009, p10-15.

Morgan, R (2000), *Variable Geometry UK*, Cardiff: Institute of Welsh Affairs.

Murphy, P (2002), *Devolution: the View from Whitehall and Torfaen*, Annual St. David's Day Lecture, 11 March 2002. Cardiff: Welsh Governance Centre.

Nairn, T (2006), *Gordon Brown: Bard of Britishness,* Cardiff: Institute of Welsh Affairs.

Osmond, J (2002), *The Future of Welsh Devolution*, Cardiff: Institute of Welsh Affairs.

Osmond, J (2003), *From Corporate Body to Virtual Parliament: the Metamorphosis of the National Assembly for Wales*, in Hazell, R (ed.), *The State of the Nations 2003: the Third Year of Devolution in the United Kingdom*, Chapter 3, Exeter: Imprint Academic.

Osmond, J and Jones, J B (2003), *Birth of Welsh Democracy: the First Term of the National Assembly for Wales*, Cardiff: Institute of Welsh Affairs.

Osmond, J (2004), *Conclusion: the Unfinished Business of Devolution: Whither Wales*, in Trench, A (ed.) *Has Devolution Made a Difference?: the State of the Nations 2004*, Chapter 11. Exeter: Imprint Academic.

Osmond, J (2004), *Nation Building and the Assembly: the Emergence of a Welsh Civic Consciousness*, in Trench, A (ed.) *Has Devolution Made a Difference?: the State of the Nations 2004*, Chapter 3. Exeter: Imprint Academic.

Perryman, M (ed.) (2009), *Breaking Up Britain: Four Nations After a Union*, London: Lawrence & Wishart.

Pilkington, C (2002), *Devolution in Britain Today*, ii (4), iii (7), London: Politico.

Rawlings, R (2005), *Hastening Slowly: the Next Phase of Welsh Devolution*, Public Law 2005, p824-852.

Rawlings, R (2003) *Towards a Parliament: Three Faces of the National Assembly for Wales*, Contemporary Wales, 15, p1.

Royles, E (2005), *Devolution in the UK and Mobilizing Democracy: Civil Society in Post-devolution Wales*, American Political Science Association, p1-22.

Schumann, W R (2009), *Towards an Anthropology of Government: Democratic Transformation and Nation Building in Wales*, Palgrave MacMillan: London.

Shipton, M (2011), *Poor Man's Parliament: Ten Years of the Welsh Assembly,* Seren: Bridgend

Sullivan, M and Clutton, S (2005), *The State of the Nation or Welsh Devolution Comes of Age: a Reflective Commentary on Four Devolution Essays*, Wales Journal of Law and Policy, 4 (1), p54-65.

Trench, A (ed.) (2007), *Devolution and Power in the United Kingdom*, Manchester: Manchester University Press.

Trench, A (ed.) ( 2007), *State of the Nations 2007: Into the Third Term of Devolution in the UK*, Exeter: Imprint Academic.

Trench, A (2008), *Scotland and Wales: the Evolution of Devolution*, in Hazell, R (ed.) *Constitutional Futures Revisited: Britain's Constitution to 2020*, Chapter 2, Hampshire: Palgrave MacMillan.

Waters, L (2006), *A Parliament by Stealth?* Planet, 175, p68-72.

# Sgrinio'r Effaith ar Gydraddoldeb

1. O dan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, rhaid i'r Bwrdd Taliadau arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar gyflawni nifer o amcanion. Yr amcanion perthnasol yw:

   - darparu adnoddau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad sy'n ddigonol i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau fel Aelodau'r Cynulliad; a

   - darparu lefel taliadau ar gyfer yr Aelodau nad yw, ar sail ariannol, yn atal personau y mae ganddynt ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad.

2. Dylai'r Penderfyniad hefyd alluogi'r Aelodau i gyflawni'u dyletswyddau fel cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau yng nghyswllt darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010.

3. Mae'r Bwrdd Taliadau am sicrhau bod ei Benderfyniad ar gyfer 2011-12 yn deg, ac yn nad yw'n rhoi neb dan anfantais yn anfwriadol nac yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn unigolion â nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion gwarchodedig yn cynnwys oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd a chred; cyfeiriadedd rhywiol; a rhywedd.

4. Ceir cyfle hefyd i hybu cydraddoldeb a dangos i'r Aelodau Cynulliad presennol a darpar Aelodau'r Cynulliad a'u staff bod y Penderfyniad yn deg a bod ystyriaethau cydraddoldeb wedi'u hystyried wrth ffurfio'r Penderfyniad hwnnw. Pennir ac eir i'r afael ag unrhyw rwystrau sy'n atal yr Aelodau rhag cyflawni'u rolau'n effeithiol o ran y nodweddion gwarchodedig.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Chwefror 2011)

5. Arf yw asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb sy'n helpu awdurdodau cyhoeddus i sicrhau nad yw eu polisïau, a'r ffordd y maent yn arfer eu swyddogaethau, yn effeithio'n andwyol ar unrhyw grwpiau penodol o bobl.

6. Wrth gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, asesir yn systematig effeithiau tebygol a gwirioneddol y polisïau ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn cynnwys chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb a all fod wedi'u methu'n flaenorol neu y gellid eu defnyddio'n well, yn ogystal ag effeithiau negyddol neu niweidiol y gellir cael gwared â nhw neu eu lliniaru, lle bo modd. Os oes unrhyw effeithiau negyddol neu niweidiol yn cyfateb i wahaniaethu anghyfreithlon, mae'n rhaid gwared â nhw.

## Gwybodaeth a Thystiolaeth sydd ar gael am Amrywiaeth yn y Gynrychiolaeth

7. Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael am sut y gallai cynllun treuliau seneddol effeithio ar amrywiaeth yn y gynrychiolaeth. Mae ffactorau eraill yn gweithio ochr yn ochr â chynllun treuliau teg i lunio amgylchedd cynhwysol ac mae'r rhain yn cynnwys: diwylliant sefydliadol/trefniadol cadarnhaol a pholisïau ac arferion gweithio ategol a theg.

### Adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol (Gorffennaf 2009)[90]

8. Yn ei Grynodeb Gweithredol, dywedodd y Panel:

> "Mae'r Panel yn credu'n gryf y bydd ei argymhellion yn helpu i gryfhau'r broses ddemocrataidd yng Nghymru, a hynny drwy ddenu trawsdoriad eang o'r boblogaeth i sefyll mewn etholiadau, a thrwy roi'r adnoddau i'r rheini a etholir i gyflawni eu gwaith yn effeithiol."

### Adroddiad Cynhadledd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin ar Gynrychiolaeth Seneddol (Ionawr 2010)[91]

9. Sefydlwyd y Gynhadledd yn ystod y Senedd ddiwethaf i ystyried y rhesymau pam nad yw pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y Senedd. Daeth y Gynhadledd i'r casgliad bod sawl rheswm posibl dros hyn, gan gynnwys rhwystrau cyllidol tybiedig, y diwylliant Seneddol, oriau eistedd, diwylliant yn y pleidiau gwleidyddol, diffyg darpariaeth gofal plant a phrosesau dethol y pleidiau.

### Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol (IPSA) (Mai 2010)[92]

10. Mae IPSA wedi cynnal asesiad sgrinio cyntaf o'r effaith ar gydraddoldeb ar y rheolau sy'n llywio treuliau Aelodau Seneddol, a oedd yn canolbwyntio ar y materion a godwyd gan Adroddiad Cynhadledd y Llefarydd ar Gynrychiolaeth Seneddol. Mae IPSA wedi penderfynu peidio â chynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar hyn o bryd.

### Tystiolaeth gan Aelodau'r Trydydd Cynulliad

11. Darparodd Aelodau'r Trydydd Cynulliad adborth ar effeithiau posibl y Penderfyniad ar gydraddoldeb, gan godi'r materion canlynol:

- Roedd Aelodau'n pryderu y gallai rhai Aelodau a'u teuluoedd brofi anfantais oherwydd y cap o £700 y mis ar rentu os oedd arnynt angen math neu faint penodol o adeilad ar gyfer diwallu anghenion eu teuluoedd.

---

[90] *http://www.assemblywales.org/irp-reportjuly09-e.pdf*
[91] *http://www.publications.parliament.uk/pa/spconf/239/23902.htm*
[92] *http://www.ipsa-home.org.uk/EqualiytandImpact.html*

- Roedd Aelodau'n croesawu'r trefniadau cymorth ar gyfer gwella hygyrchedd daearyddol ac ergonomig y swyddfeydd rhanbarthol ac etholaethol. Nododd Aelodau nad oedd swyddfa ganolog a oedd yn hwylus i bawb o ran mynediad bob amser ar gael nac yn fforddiadwy.

- Teimlai Aelodau na ddylent gael eu rhoi o dan anfantais oherwydd costau swyddfa uwch petaent yn gorfod ymgysylltu'n aml ag etholwyr y mae angen cymorth i gyfathrebu arnynt, ac felly roedd darpariaeth ar gyfer gwybodaeth i etholwyr mewn fformatau amgen (gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain) yn cael ei chroesawu.

- Roedd Aelodau'n croesawu'r diweddaru a oedd wedi'i wneud i'r iaith sy'n ymwneud â chydraddoldeb a ddefnyddiwyd yn y Penderfyniad (e.e. cyd-riant).

- Dywedodd Grŵp Plaid Cymru y byddai'n gofyn am ragor o drafodaethau gyda'r Tîm Cydraddoldeb ar ddarpariaeth gofal plant/gofalu.

## Ystyried yr Effeithiau Negyddol neu Niweidiol Posibl ar Grwpiau o Bobl â Nodweddion Gwarchodedig

12. Ystyriwyd yn yr asesiad hwn y nodweddion gwarchodedig a allai o bosibl wynebu effeithiau negyddol neu niweidiol.

### Anabledd

13. Cyfrifoldeb Comisiwn y Cynulliad yw gwneud addasiadau rhesymol, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, er mwyn rhoi cymorth i Aelodau anabl i'w galluogi i gyflawni'u gwaith. Gallai costau o'r fath gynnwys:

- addasiadau/newidiadau i adeiladau Aelodau'r Cynulliad yn ystâd y Cynulliad a/neu yn eu swyddfeydd etholaethol;

- cymorth cyfathrebu ar gyfer trafodion y Cynulliad a chymorthfeydd;

- prynu a chynnal a chadw cyfarpar; a

- costau cynorthwyydd personol (a allai gynnwys gofal personol) a chostau teithio cysylltiedig.

14. Mae'r Penderfyniad yn cyfeirio at Lwfans Anabledd i Aelodau'r Cynulliad. Gellid gwella hwn drwy gynnwys datganiad am y cymorth sydd ar gael. Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol darparu diffiniad o anabledd (gan gynnwys salwch hirdymor) yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, i sicrhau bod Aelodau a darpar Aelodau'n glir ynghylch a ydynt yn gymwys. Efallai yr hoffai'r Bwrdd ystyried ailenwi'r Lwfans Anabledd a'i alw'n 'Lwfans Mynediad' i hybu cynhwysiant.

### Staff Cymorth Anabl Aelodau'r Cynulliad

15. Mae'n rhaid i Aelodau'r Cynulliad hefyd gydymffurfio fel cyflogwyr â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Gallai hyn olygu gwneud addasiadau rhesymol neu ddarparu cymorth parhaus i'w staff anabl. Yr hyn sy'n hollbwysig yw peidio â chreu rhwystrau i Aelodau'r

Cynulliad sy'n cyflogi staff anabl neu rwystrau a fydd yn atal staff anabl rhag cyflawni'u swyddogaethau'n effeithiol.

### Darparu Gwasanaeth i Etholwyr Anabl

16. Mae angen i Aelodau'r Cynulliad (a'u staff) gydymffurfio â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel darparwyr gwasanaeth i'w hetholwyr.  Gallai hyn gynnwys:

    - addasu eu swyddfeydd er mwyn gwella mynediad i etholwyr a/neu dalu am fan cyfarfod gwahanol/darparu mannau parcio;
    - darparu cymorth cyfathrebu yn ystod cymorthfeydd; a
    - darparu gwybodaeth sydd ar gael mewn fformatau gwahanol i etholwyr lle bo'n briodol.

17. Efallai fod rhai Aelodau Cynulliad yn cael cyswllt rheolaidd â chyfran uwch o etholwyr anabl mewn ardal boblog ac felly'n wynebu costau sy'n gysylltiedig â darparu cymorth ychwanegol nad ydynt yn gymesur â chostau Aelodau Cynulliad eraill.

18. Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gosodir dyletswydd ar Aelodau i fod yn rhagweithiol yng nghyswllt gwneud addasiadau rhesymol a pheidio â disgwyl tan y gwneir cwyn am addasiadau rhesymol.

19. Efallai y bydd y Bwrdd am ystyried a ddylid cael Cronfa Mynediad ganolog i Aelodau ar gyfer cael y cymorth angenrheidiol h.y. addasiadau etc na fydd yn rhaid talu amdanynt o gostau'r swyddfa.  Gallai cronfa o'r fath fod ar gael i'r holl Aelodau os bydd angen iddynt ymgysylltu ag etholwyr amrywiol neu os bydd angen cymorth cyfathrebu/iaith ar etholwyr.   Gallai'r gronfa hon efallai ddod o dan law Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau.

20. Yn ôl Penderfyniad y Bwrdd mae'n rhaid i'r Aelodau dalu'r £1,000 cyntaf tuag at unrhyw addasiadau ffisegol i'w swyddfeydd o'u lwfans costau swyddfa.  Mae'n bosibl y bydd y Bwrdd am adolygu hyn i sicrhau nad yw'n atal Aelodau rhag ymgysylltu â grwpiau amrywiol sydd â gofynion penodol, oherwydd y dybiaeth bod hynny'n gostus.

### Absenoldeb Beichiogrwydd, Mamolaeth, Gofalu a Chyd-riant[93]

21. Yn y Senedd ddiwethaf, gwnaeth Cynhadledd y Llefarydd ar Gynrychiolaeth Seneddol argymhelliad bod y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion a, lle bo'n briodol, yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol, yn ystyried cyflwyno trefniadau absenoldeb mamolaeth, tadolaeth/cyd-riant a gofalu ffurfiol ar gyfer Aelodau Seneddol.  Argymhellodd y Cynhadledd hefyd y dylai pleidiau gwleidyddol, fel isafswm, gyhoeddi datganiad polisi ffurfiol ar eu trefniadau ar gyfer absenoldeb beichiogrwydd, mamolaeth, cyd-riant a gofalu.

22. Er bod Aelodau'r Cynulliad yn ddeiliaid swyddi ac yn cael eu hystyried yn hunangyflogedig, byddai'n ddefnyddiol i ddarpar Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd wybod pa drefniadau sydd ar

[93] *Cyd-riant: mae'n cynnwys rhieni o'r un rhywedd*

gael ar gyfer absenoldeb beichiogrwydd, mamolaeth, cyd-riant a gofalu h.y. bod Aelodau'n negodi'r amserlenni â'u pleidiau.

### Hyblygrwydd o ran Tai

23. Roedd adborth gan Aelodau'r Cynulliad yn awgrymu bod rhai Aelodau'n bryderus y gallai rhai Aelodau a'u teuluoedd fod dan anfantais oherwydd y cap rhentu o £700 y mis ar gyfer eiddo preswyl. Nododd Aelodau y gallai fod teuluoedd mwy gan rai Aelodau a/neu bod angen llety arnynt ag addasiadau ar gyfer anabledd ac efallai na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu mewn llety yn y categori £700 y mis Gallai hyn arwain at drefniadau byw annigonol ar gyfer yr Aelodau ac aelodau'u teulu. Efallai y bydd y Bwrdd am ystyried yn ei Benderfyniadau yn y dyfodol pa hyblygrwydd y gellid ei roi ar gyfer gwariant ar lety preswyl.

### Darpariaeth/Talebau Gofal Plant

24. Argymhellodd Cynhadledd y Llefarydd y dylid ystyried cynllun a fyddai'n caniatáu i Aelodau Seneddol gymryd cyfran o'u cyflog ar ffurf talebau gofal plant. Mae gan Aelodau'r Cynulliad hawl i'r budd hwn yn barod, ond byddai'n ddefnyddiol petai'n cael ei nodi yn y Penderfyniad gan y gallai diffyg cymorth tybiedig atal pobl rhag sefyll mewn etholiad.

### Oed

25. Dylid ystyried y mater hwn ar wahân fel rhan o adolygiad y Bwrdd o Gynllun Pensiwn yr Aelodau.

### Hil – Pobl sydd â Gofynion o ran Cefnogi Iaith

26. Efallai hefyd fod gan rai Aelodau'r Cynulliad gyfran uchel o etholwyr yn eu hardaloedd nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Felly gallai hyn olygu y bydd yn rhaid, ar brydiau, gyfieithu gwybodaeth/llenyddiaeth i ieithoedd cymunedol a'u dosbarthu yn y cymunedau hynny. Efallai y byddai angen dehonglydd hefyd.

27. Oherwydd hyn gallai rhai Aelodau wynebu costau swyddfa anghymesur o'i gymharu ag Aelodau eraill. Efallai y bydd y Bwrdd am ystyried 'Cronfa Mynediad' ganolog.

### Cyfeiriadedd Rhywiol

28. O ran cyfeiriadedd rhywiol, rhagdybir na fyddai partneriaid o'r un rhyw i Aelodau'r Cynulliad o dan anfantais yn sgil unrhyw ddarpariaethau yn y Penderfyniad e.e. buddiolwyr pensiwn.

### Meysydd lle nad yw Effeithiau Negyddol neu Niweidiol wedi'u Pennu

29. O ran nodweddion gwarchodedig hunaniaeth o ran rhywedd a chrefydd/cred, nid oes dim effeithiau negyddol/niweidiol wedi cael eu pennu.

## Monitro ac Adolygu

30. Awgrymir bod y materion cydraddoldeb mewn perthynas â'r Penderfyniad yn cael eu hadolygu pan fydd y Penderfyniad ei hun yn cael ei adolygu nesaf. Doeth o beth fyddai cynnal asesiad

arall o'r effaith ar gydraddoldeb ar y cam hwn i sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth cydraddoldeb newydd yn cael ei hystyried.

## Gwneud Penderfyniadau

31. Bydd y Bwrdd Taliadau yn gwneud y penderfyniadau am y camau y mae am eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau cydraddoldeb posibl sydd wedi'u pennu.

## Cynllun Gweithredu

32. Roedd y Bwrdd Taliadau'n fodlon nad oedd unrhyw bryderon sylweddol y byddai ei Benderfyniad yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw grwpiau, a gofynnodd am i dîm Cymorth Busnes yr Aelodau weithio gyda'r tîm Cydraddoldeb ar  benodau perthnasol y Penderfyniad, i sicrhau bod yr agweddau perthnasol ar gydraddoldeb yn cael eu hystyried.

# Argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol

Mae Adran 15 o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn gosod nifer o ddyletswyddau ar y Bwrdd, gan gynnwys:

> (1) Rhaid i'r Bwrdd, y tro cyntaf y mae'n bwriadu gwneud Penderfyniad mewn perthynas ag unrhyw fater, roi sylw i argymhellion Panel Adolygu Annibynnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar drefniadau ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad a gyhoeddwyd ar 6 Gorffennaf 2009, i'r graddau y mae'r argymhellion hynny'n berthnasol i'r mater hwnnw
>
> (2) Os bydd y Bwrdd, wrth wneud Penderfyniad y mae is-adran (1) yn berthnasol iddo, yn cynnwys yn y Penderfyniad hwnnw ddarpariaeth sydd, mewn unrhyw fodd, yn wahanol i'r argymhellion hynny, rhaid i'r Bwrdd ddatgan mewn ysgrifen ei resymau dros wneud hynny gan gyfleu'r datganiad hwnnw i Gomisiwn y Cynulliad yr un pryd â'r Penderfyniad y mae'n ymwneud ag ef.

Yn ystod ei drafodaethau, bu’r Bwrdd yn ystyried bob un o’r 108 o argymhellion, y mae rhestr lawn ohonynt ar gael yn adroddiad 2009 y Panel Adolygu Annibynnol.[94]

Cafodd yr argymhellion canlynol eu hategu'n llawn gan y Bwrdd, ac fe'u hadlewyrchir yn y Penderfyniad lle bo'n briodol:

> 2, 3, 8, 9, 10, 12, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 30, 32, 34, 36, 37, 38, 39, 40, 43, 44, 45, 46, 47, 48, 49, 53, 54, 55, 58, 60, 61, 63, 64, 66, 67, 68, 69, 70, 71, 79, 83, 84, 86, 87, 88, 89, 90, 91, 92, 94, 95, 96, 97, 98, 99, 100, 101, 102, 103, 104, 105, 106, 107, 108

[94] *http://www.assemblywales.org/irp-reportjuly09-e.pdf*

## Argymhellion y Tu Allan i Gylch Gwaith y Bwrdd

Penderfynodd y Bwrdd bod yr argymhellion canlynol gan y Panel Adolygu Annibynnol y tu allan i'w gylch gwaith:

| Argymhelliad | Sylw | Cyfeirnod |
|---|---|---|
| 1. Dylai cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad gael ei seilio ar set o egwyddorion i'w llunio gan Gomisiwn y Cynulliad. Dylai'r egwyddorion hyn fod yn gyson â'r 'saith egwyddor mewn bywyd cyhoeddus': anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweiniad. Dylai Aelodau'r Cynulliad lofnodi'r Cod Ymddygiad wrth dyngu'r Llw. | Ategodd y Bwrdd elfen gyntaf yr argymhelliad, a seilio ei Benderfyniad ar y cyfryw egwyddorion. Mater i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad oedd cael yr Aelodau i lofnodi'r Cod Ymddygiad wrth dyngu'r llw. | Paragraffau 65, 66 a 253 i 262 |
| 4. Dylai'r Comisiwn, drwy drafodaethau gyda Gweinidogion Cymru, geisio hwyluso llif esmwythach o ran gwybodaeth a briffio, yn arbennig wrth gefnogi gwaith pwyllgorau. | Yn ei ddadansoddiad o ddiben strategol y Cynulliad, ategodd y Bwrdd yr argymhelliad ac argymell y dylai'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru gymryd camau i wella'r llif gwybodaeth. | Paragraffau 378 i 382 |
| 5. Dylai'r Pwyllgor Busnes gynyddu'r amser eistedd i uchafswm o 36 wythnos y flwyddyn, er mwyn sicrhau bod digon o amser ar gyfer craffu ar y rhaglen ddeddfwriaethol. | Nododd y Bwrdd y byddai'r Pwyllgor Busnes yn ystyried yr argymhelliad hwn wrth drefnu'i fusnes. | Amh |
| 6. Dylai grwpiau'r pleidiau gofnodi gwyliau Aelodau'r Cynulliad. | Nododd y Bwrdd mai mater i grwpiau'r pleidiau oedd hyn. | Amh |
| 15. Yn ogystal â chofnodi gwybodaeth am gyflogaeth arall ar y Gofrestr Buddiannau, dylai fod yn ofynnol i Aelodau'r Cynulliad nodi manylion yr amser y maent yn ei dreulio yn y gyflogaeth ychwanegol hon. | Nododd y Bwrdd fod y Rheolau Sefydlog ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad yn cynnwys y ddarpariaeth hon. | Amh |
| 72. Dylai annog grwpiau'r pleidiau i lunio proffiliau swydd ar gyfer eu Haelodau Cynulliad a'u defnyddio'n adeiladol er mwyn nodi bylchau sgiliau ac anghenion datblygu. | Penderfynodd y Bwrdd mai mater i Aelodau'r Cynulliad oedd penderfynu sut i gyflawni'u rolau orau. Nododd y Bwrdd y bydd grwpiau'r pleidiau o bosibl am ystyried yr argymhelliad hwn, ond nad oedd yn fater i'r Bwrdd. | Paragraffau 149 a 150 |
| 73. Dylai pob un o grwpiau'r pleidiau lunio adroddiad byr, unwaith y flwyddyn, yn rhoi crynodeb o gyflawniadau hyfforddiant ei Aelodau, a'i gyhoeddi ar wefan y Cynulliad. | Penderfynodd y Bwrdd i beidio â bwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn, gan gredu mai mater i grwpiau'r pleidiau oedd cyfrannu at hyfforddiant neu ddatblygiad proffesiynol parhaus. | Pennod 10 |
| 74. Dylai pob grŵp plaid benodi 'hyrwyddwr hyfforddiant' er mwyn rhoi cefnogaeth ac annog dysgu a datblygu parhaus ymysg yr Aelodau a'u staff. | Ategodd y Bwrdd yr egwyddor o bwysigrwydd hyfforddiant a datblygiad i Aelodau a'u staff, gan groesawu dull arfaethedig y Comisiwn o weithredu ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad. Ond, cytunodd mai mater i bob grŵp plaid benderfynu arno ei hun oedd rheoli hyfforddiant a datblygiad o fewn y grwpiau. | Pennod 10 |
| 75. Yn y mis cyntaf ar ôl cael eu hethol, dylai | Nid oedd y Bwrdd yn cytuno bod cwrs | Pennod 10 |

| Argymhelliad | Sylw | Cyfeirnod |
|---|---|---|
| pob Aelod Cynulliad newydd fynd ar gwrs wythnos i gael hyfforddiant cynefino. | cynefino wythnos o hyd yn ymarferol, ond croesawai gynlluniau'r Comisiwn ar gyfer rhaglen gynefino wedi'i thargedu i gefnogi Aelodau. | |
| 76. Dylai grwpiau'r pleidiau gytuno i neilltuo un prynhawn bob mis ar gyfer hyfforddiant (er enghraifft, ar brynhawn dydd Llun neu brynhawn dydd Iau) a sicrhau bod pob Aelod Cynulliad yn bresennol yn y sesiynau ar feysydd allweddol, y meysydd a ddaeth i'r amlwg ar ôl dadansoddi'r anghenion hyfforddi, a'r meysydd a bennwyd gan yr 'hyrwyddwr hyfforddiant', a thrwy'r broses hunanasesu. | Penderfynodd y Bwrdd mai mater i bob grŵp plaid benderfynu arno ei hun oedd rheoli hyfforddiant a datblygiad o fewn y grwpiau. | Pennod 10 |
| 78. Ynghyd â chael hyfforddiant a ddarperir gan grŵp y blaid ac unrhyw hyfforddiant arbenigol angenrheidiol, dylai staff Aelodau'r Cynulliad allu manteisio ar unrhyw hyfforddiant perthnasol sydd ar gael ar hyn o bryd i staff y Cynulliad Cenedlaethol. | Nododd y Bwrdd y bydd hyfforddiant ar gyfer Aelodau a'u staff cymorth yn cael ei reoli gan swydd newydd sef Rheolwr Cyswllt a Datblygu Proffesiynol yr Aelodau. | Paragraffau 383 i 386 |
| 80. Dylid cynyddu cyllideb hyfforddiant Aelodau'r Cynulliad a'u staff yn sylweddol a'i phennu ar gyfer pob cyfnod o bedair blynedd. | Nododd y Bwrdd fod y gyllideb hyfforddi ar gyfer yr Aelodau a'u staff wedi'i chynnwys yng nghwmpasiad cyllideb gwasanaethau'r Comisiwn ac felly y tu allan i'w gylch gwaith. | Paragraff 386 |
| 81. Dylai'r gyllideb hyfforddi fod yn uwch yn y flwyddyn gyntaf gan mai dyna pryd y bydd angen y mwyaf o hyfforddiant ar Aelodau newydd y Cynulliad a'u staff. Argymhellwn gyfanswm o £350,000 yn y flwyddyn gyntaf, a £200,000 ym mhob un o'r tair blynedd ddilynol. | Nododd y Bwrdd fod y gyllideb hyfforddi ar gyfer yr Aelodau a'u staff wedi'i chynnwys yng nghwmpasiad cyllideb gwasanaethau'r Comisiwn ac felly y tu allan i'w gylch gwaith. | Paragraff 386 |
| 82. Dylai Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau sefydlu system lle bydd grwpiau'r pleidiau'n gwneud cais am arian o'r gyllideb hyfforddi, er mwyn darparu hyfforddiant penodol i Aelodau'r Cynulliad a'u staff. | Ategodd y Bwrdd y dull amgen a gymerir gan y Comisiwn i ddarparu hyfforddiant i'r Aelodau a'u staff. | Paragraff 383 i 386 |

## Gwyro oddi wrth Argymhellion y Panel

Penderfynodd y Bwrdd wyro oddi wrth yr argymhellion canlynol, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ar ôl rhoi ystyriaeth briodol iddynt:

| Argymhelliad | Sylw | Cyfeirnod |
|---|---|---|
| 7. Dylai Comisiwn y Cynulliad ystyried ar unwaith y ffordd orau o wella capasiti strategol y Cynulliad drwy gyflwyno arbenigedd ychwanegol o'r ddewislen o opsiynau a nodir ym mharagraff 4.46 adroddiad y Panel. | Gwnaeth y Bwrdd waith manwl ar gefnogaeth i gapasiti strategol y Cynulliad. Er bod y Bwrdd yn ategu egwyddor yr argymhelliad, cytunodd y Bwrdd ar ddull amgen. | Penodau 8 a 10 |
| 11. Dylid pennu cyflogau Aelodau Cynulliad am dymor pedair blynedd y Cynulliad. Dylai Corff Adolygu Annibynnol gyfarfod o leiaf chwe mis cyn y Cynulliad nesaf i benderfynu ar y materion hyn (gweler argymhelliad 12). Bydd lefel sylfaenol y cyflog hwn yn cael ei phennu yn unol â'r newid canrannol yn y mynegai enillion cyfartalog ar gyfer Cymru. Rhoddir ystyriaeth i chwyddiant ac fe ychwanegir cynnydd tybiannol at y cyflog sylfaenol. Byddai'r cyflog hwn yn cael ei bennu hyd ddiwedd tymor y Cynulliad oni cheir amgylchiadau eithriadol; er enghraifft newid sylweddol ym mhwerau'r Cynulliad Cenedlaethol. | Roedd y Mesur yn gosod dyletswydd ar y Bwrdd i bennu cyflogau'r Aelodau am dymor llawn y Pedwerydd Cynulliad. Rhoddodd y Bwrdd sylw priodol i'r peirianwaith ar gyfer codiadau a chysylltiad â chwyddiant a oedd yn cael ei awgrymu gan y Panel, Ond, ar ôl gwneud gwaith manwl yn y maes hwn, cytunwyd bod cyflog sefydlog pedair blynedd ar lefelau Ebrill 2010 yn briodol. Mabwysiadodd y Bwrdd yr egwyddor o wreiddio tâl a chymorth ariannol yn y cyd-destun Cymreig fel un o'r egwyddorion allweddol ar gyfer ei holl waith. | Pennod 5 |
| 13. Dylai cadeiryddion pwyllgorau dderbyn tâl atodol swydd-ddeiliaid o naill ai £12,000 y flwyddyn neu £8,000 y flwyddyn. Dylai Comisiwn y Cynulliad benderfynu pa dâl atodol sy'n berthnasol i bob cadeirydd pwyllgor, a hwnnw'n berthnasol am weddill tymor y Cynulliad. Dylai deiliaid swyddi ychwanegol sydd ar hyn o bryd â hawl i'r un tâl atodol â chadeiryddion pwyllgorau ddal i fod yn gyfartal â hwy. | Nododd y Bwrdd fod yr argymhelliad hwn wedi'i roi ar waith yn ystod y Trydydd Cynulliad, ond yn dilyn gwaith manwl ar dâl deiliaid swyddi ychwanegol, yn seiliedig ar yr egwyddor y dylai'r swyddi hynny sydd â'r cyfrifioldeb pennaf dros hyrwyddo diben a chyfeiriad strategol y Cynulliad gael tâl ar lefel briodol. | Pennod 6 |
| 14. Yn dilyn etholiad nesaf y Cynulliad, dylai deiliaid swyddi ychwanegol dderbyn taliadau atodol ar ben eu cyflog sylfaenol yn ôl yr un gyfran â'r un a fydd yn berthnasol yn dilyn yr addasiadau a ddisgrifir yn argymhelliad 13. Bydd y cyfrannau hyn yn cael eu hadolygu gan y Corff Adolygu Annibynnol o bryd i'w gilydd. | Gwnaeth y Bwrdd waith manwl ar dâl deiliaid swyddi ychwanegol, yn seiliedig ar yr egwyddor y dylai'r swyddi hynny sydd â'r cyfrifioldeb pennaf dros hyrwyddo diben a chyfeiriad strategol y Cynulliad gael tâl ar lefel briodol. | Pennod 6 |
| 16. Dylai Comisiwn y Cynulliad ac Ymddiriedolwyr y Gronfa gymryd cyngor cyfreithiol ac actiwaraidd gyda golwg ar gadw cyfradd y cyfraniadau safonol a ariennir gan y Comisiwn ar lefel sy'n ddim uwch na'r lefel gyfredol, sef 23.8 y cant, ac y dylid adolygu'r lefel hon o bryd i'w gilydd er mwyn ystyried | Gwnaeth y Bwrdd rywfaint o waith dechreuol ar bensiynau, ond penderfynodd ohirio cynnal adolygiad llawn tan haf 2011 pan fyddai adroddiad terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Bensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Hutton, ac asesiad actiwaraidd o Gynllun | Paragraffau 80, 81, 176 i 183 a 188 |

| Argymhelliad | Sylw | Cyfeirnod |
|---|---|---|
| yr hyn sy'n digwydd mewn cynlluniau pensiwn mewn sefydliadau eraill. | Pensiwn yr Aelodau 2011 ar gael. Yn y cyfamser, ni fyddai'r cyfraniad a ariennir gan y Comisiwn yn ddim uwch na'i lefel bresennol o 23.8 y cant. | |
| 17. Yn dilyn etholiad nesaf y Cynulliad, dylid gostwng y Lwfans Dirwyn i ben i uchafswm o chwarter y Lwfans Costau Staff Eraill a'r Lwfans Costau Swyddfa ac ni ddylai gynnwys taliadau dileu swyddi i staff cymorth, y bwriedir darparu ar eu cyfer mewn cyllideb ar wahân. | Cytunodd y Bwrdd y dylid gostwng y lwfans dirwyn i ben i chwarter y lwfans costau swyddfa. Cafodd y lwfans costau staff ychwanegol ei gyfuno â'r lwfans gwariant staff, ac ni fydd yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo'r lwfans dirwyn i ben. | Paragraffau 300 a 301 |
| 31. Dylai'r lwfans costau swyddfa barhau ar y lefel bresennol ar gyfer costau swyddfa lleol a hysbysebu cymorthfeydd. | Penderfynodd y Bwrdd y dylid cynyddu'r lwfans costau swyddfa'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu. | Paragraff 278 |
| 33. Dylai grant o £5,000 fod ar gael tuag at eitemau unwaith-ac-am-byth sy'n angenrheidiol i ddarparu offer mewn swyddfa etholaeth neu swyddfa ranbarthol yn ystod y deuddeg mis cyntaf yng nghyfnod Aelod Cynulliad newydd yn y swydd. Dylai'r swm hwnnw ostwng i £2,000 os darperir y swyddfa mewn adeilad sy'n eiddo cyhoeddus. | Ystyriodd y Bwrdd yr argymhelliad, a'r egwyddor sylfaenol y dylai Aelodau allu sefydlu swyddfeydd etholaethol neu ranbarthol. Penderfynodd y Bwrdd y byddai Aelodau newydd, yn hytrach, yn cael cyfarpar swyddfa'n ganolog. | Paragraff 291 |
| 35. Gyda chymeradwyaeth Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau, gall Aelodau'r Cynulliad hawlio darpariaeth Lwfans Costau Swyddfa ychwanegol o ran y swm dros £2,000 mewn unrhyw flwyddyn ariannol a gaiff ei wario yn eu swyddfeydd lleol ar ddiogelwch o bob math a mynediad i bobl anabl; a chaiff y swm gormodol hwn ei ad-dalu yn ychwanegol at y Lwfans Costau Swyddfa sylfaenol. | Ategodd y Bwrdd egwyddor yr argymhelliad hwn ond, ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd oddi wrth Aelodau, penderfynodd y dylai'r swm gormodol sydd i'w ariannu o gostau'r Aelodau gael ei ostwng i £1,000. | Paragraffau 285 i 287 |
| 41. Bydd costau Aelodau'r Cynulliad am hysbysebu cymorthfeydd yn cael eu had-dalu hyd at derfyn uchaf o £1,500 mewn unrhyw flwyddyn, a hwnnw i'w dalu o'r ddarpariaeth costau swyddfa. | Penderfynodd y Bwrdd y byddai'n anghyson cyflwyno terfynau ar y swm y gellid ei wario ar un math penodol o gyfathrebiad, ac felly cytunodd i beidio â gosod cap ar hysbysebu cymorthfeydd. Nododd y Bwrdd y dylai gwariant o'r math hwn gael ei asesu yn erbyn yr egwyddor sy'n sail i'w Benderfyniad; byddai Aelodau'n gyfrifol am sicrhau bod eu hawliadau'n rhesymol; a byddai arweiniad yn cael ei ddarparu gan dîm Cymorth Busnes yr Aelodau. | Paragraff 292 |
| 42. Ar unwaith, dylai'r holl eitemau unigol o offer swyddfa sy'n costio £50 neu fwy gael eu cofnodi mewn rhestr eitemau. Dylai pob eitem ar y rhestr gael ei dychwelyd i Gomisiwn y Cynulliad pan fydd Aelod Cynulliad yn rhoi'r gorau i'r sedd; oni wneir cytundeb lle bydd yr Aelod yn cynnig prynu'r eitemau am bris wedi ei gytuno neu eu | Ategodd y Bwrdd egwyddor yr argymhelliad hwn, ond gan benderfynu mai dim ond eitemau sy'n costio £100 neu fwy ddylid eu cynnwys ar y rhestr eitemau. | Paragraff 290 |

| Argymhelliad | Sylw | Cyfeirnod |
|---|---|---|
| trosglwyddo i ofal yr Aelod sydd i ddod, a ddylai lofnodi wrth eu cymryd i'w feddiant. | | |
| 50. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol sefydlu grŵp o brentisiaid i gryfhau unedau cymorth canolog pob grŵp plaid. | Ystyriodd y Bwrdd yr argymhelliad hwn yn ystod ei drafodaethau ar wneud y defnydd gorau posibl o gapasiti strategol y Cynulliad, ond penderfynodd y byddai rhoi mwy o hyblygrwydd i Aelodau a grwpiau wrth gyflogi staff, ynghyd â chaniatáu iddynt gyflogi cymorth arbenigol ar gyfer darnau o waith wedi'u diffinio'n glir, yn y tymor byr, yn fwy effeithiol. | Paragraffau 314 i 329 |
| 51. Er mwyn rhoi gwell adnoddau i'r Cynulliad mewn perthynas â'i gapasiti strategol, dylai Comisiwn y Cynulliad drafod y mater ag arweinwyr y pleidiau gwleidyddol er mwyn dod i gytundeb ar y lefel o gymorth a fyddai'n dderbyniol. Dylai'r Comisiwn drafod y mater ag arweinwyr y pleidiau gwleidyddol er mwyn dod i gytundeb ar y lefel o gymorth a fyddai'n dderbyniol. Dylai'r Comisiwn hefyd adolygu darpariaeth pob grŵp plaid er mwyn gallu sefydlu uned gymorth ganolog. Bydd yr uned honno'n cynnwys un rheolwr grŵp, un pennaeth polisi ac ymchwil, pedwar ymchwilydd, dau swyddog y wasg a dau aelod o staff gweinyddol ar gyfer grwpiau sydd rhwng tri a deg Aelod; a'r un trefniant ond gydag un swyddog y wasg ychwanegol ar gyfer grwpiau sydd ag un Aelod ar ddeg neu ragor. | Nododd y Bwrdd fod y Comisiwn wedi cael trafodaethau cychwynnol gydag arweinyddion y pleidiau, ond nad oedd y strwythur a oedd yn cael ei awgrymu yn ystyried y trefniadau a blaenoriaethau gwahanol yn y grwpiau pleidiau. Yn ei Benderfyniad bu i'r Bwrdd gynnwys trefniadau gwahanol er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i grwpiau'r pleidiau ac Aelodau wrth gyflogi staff cymorth yn unol â'u gofynion penodol hwy. | Paragraffau 325 i 329 |
| 52. Dylai Comisiwn y Cynulliad ystyried sefydlu swydd gweithiwr cymorth pwyllgor gydag Aelodau'r Cynulliad yn eu cyflogi o'u lwfans cyflogau staff. | Trafododd y Bwrdd egwyddor yr argymhelliad hwn ond penderfynodd ar ddull mwy hyblyg, gan ganiatáu i Aelodau, yn amodol ar neilltuo isafswm o amser staff i waith ymchwil, strwythuro'u swyddfeydd yn ôl eu blaenoriaethau a'u hanghenion penodol hwy. | Paragraffau 320 i 323 a 342 |
| 56. Bydd cyflogau staff yn parhau i godi bob blwyddyn yn unol â'r rheolau presennol ynghylch codiadau graddol a dyfarniadau 'costau byw'. Fodd bynnag, os bydd newidiadau sylweddol, gall y Corff Adolygu Annibynnol gynnal adolygiad o'r sefyllfa, neu gall Comisiwn y Cynulliad wneud cais am adolygiad o'r fath. | Ystyriodd y Bwrdd lefelau cyflog y staff cymorth yn fanwl, a phenderfynu peidio ag ailedrych arno, gan fod ymrwymiad wedi'i wneud eisoes gan y Comisiwn i'r staff cymorth ar sut y byddai eu graddfeydd cyflog yn cael eu cynyddu o fis Ebrill 2011. Bydd yr arian sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i ariannu taliadau bonws, na fyddant yn cael eu caniatáu yn y Pedwerydd Cynulliad, yn cael ei gyfuno i gyflogau staff cymorth o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen. Bydd graddfeydd tâl yn cael eu rhewi ar y lefelau hyn tan o leiaf fis Ebrill | Pennod 9 |

| Argymhelliad | Sylw | Cyfeirnod |
|---|---|---|
| | 2013. | |
| 57. Pan gaiff bandiau cyflog y staff cymorth eu hadolygu nesaf ym mis Ebrill 2010, dylai'r Comisiwn ystyried un ai ychwanegu pwynt arall ar frig pob band, neu gynyddu pwynt uchaf presennol pob band. | Ystyriodd y Bwrdd lefelau cyflog y staff cymorth yn fanwl, a phenderfynu bod nifer y pwyntiau ar bob band yn gywir, ond y dylid cynyddu'r holl bwyntiau fel y nodir ym Mhennod 9 yr adroddiad hwn. | Pennod 9 |
| 59. Dylai uchafswm cyfraniadau pensiwn y cyflogwr barhau i fod yn 10 y cant o'r cyflog blynyddol gwirioneddol. | Penderfynodd y Bwrdd ohirio'r gwaith o ystyried trefniadau pensiwn staff cymorth tan y ceir adolygiad llawn cyn y Pumed Cynulliad.  Yn y cyfamser, bydd y trefniadau presennol yn parhau. | Paragraffau 80, 81, 344, 365 a 371 |
| 62. Dylai Aelodau'r Cynulliad allu hawlio swm ychwanegol o hyd at £2,000 er mwyn talu treuliau teithio a thaliadau goramser i staff, gan gynnwys cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr sy'n berthnasol i daliadau o'r fath. Pan fydd y staff cymorth wedi gorfod ysgwyddo costau teithio uchel wrth gyflawni eu dyletswyddau ar ran y Cynulliad, gall Aelod Cynulliad wneud cais i Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau er mwyn cynyddu'r lwfans hwn. | Ystyriodd y Bwrdd y broses o gyllido gwaith staff cymorth ar y cyd â'r amcan i wneud y defnydd gorau posibl o gapasiti strategol Aelodau'r Cynulliad, a phenderfynu na ddylid gweithredu'r argymhelliad hwn.  Yn hytrach, bydd swm hyd at £5,000 ar gael i Aelodau, a fydd yn gallu dewis un ai ei ddefnyddio ar gyfer teithio, goramser staff, taliadau dileu swyddi neu wella'r hyblygrwydd o ran cyflogi staff o fewn y bandiau cyflog. | Paragraffau 314 i 315, 318 a 324 |
| 65. Dylai Aelodau'r Cynulliad sy'n cyflogi aelodau'r teulu, fel y'u diffinnir hwy yn y Rheol Sefydlog drafft yn Atodiad 13, fod â'r hawl i barhau i wneud hynny.  Fodd bynnag, credwn na ddylai'r Aelodau benodi unrhyw aelodau o'r teulu o hyn allan. | Bu'r Bwrdd yn ystyried yr argymhelliad hwn yn fanwl, a phenderfynodd bod yn rhaid recriwtio'r holl staff cymorth ar sail cystadleuaeth deg ac agored, yn seiliedig ar bolisi recriwtio clir ac arweiniad gan dîm AD y Comisiwn, ac y dylai ymwneud yr Aelodau â'r broses o recriwtio a phenodi aelodau'r teulu fod yn gyfyngedig. | Paragraffau 330 a 332 |
| 77. Dylai'r Comisiwn gyhoeddi gwybodaeth a data ar ei wefan am y cyfleoedd hyfforddi a datblygu y bydd yr Aelodau unigol wedi manteisio arnynt, ynghyd â chyhoeddi hynny yn y Pwyllgorau. | Penderfynodd y Bwrdd y byddai gweithredu'r argymhelliad hwn yn atal cyfranogiad mewn hyfforddiant a datblygiad. | Pennod 10 |
| 85. Dylai Aelodau'r Cynulliad fod yn gymwys i hawlio ad-daliad am gostau galwadau busnes a wnaed ar eu ffôn symudol.  Dylent gael dewis naill ai i gyflwyno bil eitemedig neu gyfrannu cyfradd unffurf o 50 y cant tuag at gyfanswm y bil.  Byddai disgwyl i Aelodau ddewis un o'r opsiynau hyn ar ddechrau pob Cynulliad. | Cytunodd y Bwrdd y dylai Aelodau allu hawlio'n ôl gostau galwadau a wneir mewn perthynas â'u rôl fel Aelod Cynulliad, ond penderfynodd y byddai'r peirianweithiau a awgrymir gan y Panel yn peri problemau wrth eu gweithredu.  Cytunodd y Bwrdd y bydd yn rhaid i Aelodau ddilyn yr egwyddor o fod yn rhesymol wrth wneud hawliadau am alwadau o ffonau symudol.   Bydd tîm Cymorth Busnes yr Aelodau'n llunio arweiniad i helpu Aelodau yn y maes hwn. | Paragraffau 255 a 292 |
| 93. Dylai Aelodau'r Cynulliad chwilio am y tocyn teithio rhataf posibl ac ystyried unrhyw ostyngiadau sydd ar gael; gan gynnwys y rhai sydd ar gael i Aelodau sy'n ddeiliaid | Roedd y Bwrdd yn cefnogi defnyddio unrhyw ostyngiadau neu docynnau rhad sydd ar gael, ond penderfynodd y dylid defnyddio'r dull mwyaf cost effeithiol ar | Paragraff 294 |

| Argymhelliad | Sylw | Cyfeirnod |
| --- | --- | --- |
| ‘tocynnau rheilffordd i bobl hŷn' neu gostau teithio rhad eraill. | gyfer teithio yn hytrach na'r rhataf. | |